

# Datganiad parthed: Cyfrifon 2023/24

RHONDDA CYNON TAF

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**Datganiad o Gyfrifon 2023/24**

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 1 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer Cyfrifon y Cyngor | 15 |
| Tystysgrif y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen | 16 |
| Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn | 17 |
| Datganiad Cynhwysfawr o Gyfanswm Incwm a Gwariant | 24 |
| Y Fantolen | 26 |
| Datganiad Llif Arian | 29 |
| Ddadansoddiad Gwariant a Chyllid | 31 |

*Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol Craidd*

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Polisïau Cyfrifo Materol | 33 |
| 2. | Safonau Cyfrifyddu wedi'u Cyflwyno, ond heb eu Mabwysiadu | 48 |
| 3. | Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu | 49 |
| 4. | Rhagdybiaethau sy wedi'u Gwneud am y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif | 49 |
| 5. | Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd | 52 |
| 6. | Eiddo, Gwaith ac Offer | 53 |
| 7. | Offerynnau Ariannol | 58 |
| 8. | Dyledwyr Tymor Byr | 65 |
| 9. | Arian Parod a Chyfwerth | 66 |
| 10. | Credydwyr Tymor Byr a Thymor Hir | 67 |
| 11. | Darpariaethau | 67 |
| 12. | Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | 68 |

| | | |
|---|---|---|
| 13. | Cronfeydd Wrth Gefn mae modd eu Defnyddio | 68 |
| 14. | Cronfeydd Wrth Gefn nad oes modd eu Defnyddio | 72 |
| 15. | Datganiad Llif Arian – Addasiadau i Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau sydd ddim yn Arian Parod | 76 |
| 16. | Datganiad Llif Arian – Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd wedi'u Cynnwys yn y Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu | 76 |
| 17. | Datganiad Llif Arian - Llog Gweithgareddau Gweithredol | 76 |
| 18. | Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi | 77 |
| 19. | Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Cyllido | 77 |
| 20. | Nodiadau i'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid | 77 |
| 21. | Lwfansau Aelodau | 79 |
| 22. | Tâl Swyddogion | 79 |
| 23. | Costau Diswyddo | 83 |
| 24. | Costau Archwilio Allanol | 83 |
| 25. | Trethi Annomestig | 85 |
| 26. | Treth y Cyngor | 85 |
| 27. | Incwm Grant | 86 |
| 28. | Trafodion Asiantaethau | 86 |
| 29. | Partïon Cysylltiedig | 87 |
| 30. | Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf | 93 |
| 31. | Prydlesi | 93 |
| 32. | Colledion Amharu | 95 |
| 33. | Buddion Ymddeol – Cynlluniau Budd Diffiniedig | 96 |
| 34. | Buddion Ymddeol – Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig | 101 |
| 35. | Ymrwymiadau wrth gefn | 102 |

36. Cronfa Ymddiriedolaeth 103

37. Cyllidebau ar y Cyd 103

**Cyfrifon Grŵp/Cyfadran**

Cyflwyniad 105

Cyrff Cyfunol 105

Datganiad o Bolisïau Cyfrifo Grŵp 106

Datganiad ynglŷn â'r Symudiad Grŵp yn y Cronfeydd Wrth Gefn 107

Datganiad Grŵp ynglŷn â'r Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 116

Mantolen y Grŵp 118

Llif Arian Grŵp 121

*Nodiadau i'r Cyfrifon Grŵp*

G1. Dadansoddiad Segmentol (Is-Gwmnïau) 122

G2. Asedau Tymor Hir 122

G3. Cronfa Cwmnïau Grŵp 126

G4. Cyfrifon Statudol Is-gwmnïau 126

G5. Addasiadau Cydgrynhoi 127

G6. Datganiad Llif Arian – Addasiadau i Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau sydd ddim yn Arian Parod 127

G7. Datganiad Llif Arian – Addasiad ar gyfer Eitemau sydd wedi'u Cynnwys yn y Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu 127

G8. Datganiad Llif Arian - Llog Gweithgareddau Gweithredol 128

G9. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi 128

G10. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Cyllido 128

G11. Addasiadau rhwng Cyfrifon Grŵp a Chyfrifon y Cyngor yn y Datganiad Symudiadau Grŵp mewn Cronfeydd Wrth Gefn 128

G12. 23 129

G13. Credydwyr Tymor Byr a Thymor Hir 129

G14. Darpariaethau 130

G15. Amgen Cymru - Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi 130

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 131

Adroddiad Archwilio Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru 207

Rhestr Termau 212

# Adroddiad Naratif

## 1. Cyflwyniad

Rhondda Cynon Taf yw'r Cyngor mwyaf ond dau yng Nghymru â phoblogaeth o 239,018 (Cyfrifiad Canol Blwyddyn 2022), sy'n gwasanaethu ardal yng Nghymoedd De Cymru sy'n cwmpasu 424 cilomedr sgwâr, yn ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd i Brifddinas Caerdydd yn y de.

Mae'r cyfrifon ar gyfer 2023/24 wedi'u paratoi yn unol â:

- Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023/24 yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd)

Mae'r cyfrifon sy'n cael eu trafod ar dudalennau 1 i 162 yn cydymffurfio â'r uchod.

## 2. Effaith Digwyddiadau Sylweddol

### 2.1 Cymorth Costau Byw

Dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae’r Cyngor wedi darparu nifer o gynlluniau cymorth costau byw sydd wedi’u hariannu gan Lywodraeth Cymru a’u hategu gan adnoddau’r Cyngor ei hun. Ym mis Medi 2023, rhoddwyd cynllun Cymorth Costau Byw Lleol arall ar waith, gan ddarparu cyfanswm o £3.5 miliwn o gymorth ariannol, ac roedd yn cynnwys:

- Taliad i deuluoedd ag un plentyn neu ragor o oedran ysgol gorfodol;
- Cymorth i staff y Cyngor ar gyflog is;
- Cronfa Caledi Costau Byw Lleol, Cymorth i Drigolion - gan gynnwys cymorth ar gyfer tanwydd, bwyd a thai;
- Cronfa Caledi Costau Byw Lleol – Cymorth Cymunedol – gan gynnwys Canolfannau Croeso yn y Gaeaf/Canolfannau Cynnes;
- Cymorth i fanciau bwyd; a
- Grant Cymorth Ynni Cyfleusterau Cymunedol.

### 2.2 Ymateb y Cyngor i Dywydd Eithafol

Yn ystod 2023/24, parhaodd y Cyngor i ddarparu rhaglen barhaus o gynlluniau lliniaru llifogydd a mesurau cyfathrebu ar draws y Fwrdeistref Sirol, yn unol â'i gyfrifoldebau rheoli perygl llifogydd, i helpu i wella cydnerthedd cymunedau yn erbyn digwyddiadau llifogydd difrifol.

Yn ogystal, ym mis Ionawr 2024, mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Leol Ar Gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a Chynllun Gweithredu. Roedd hyn yn dilyn cyfnod o ymgynghori rhwng mis Awst a mis Hydref 2023 ac mae’n ddyletswydd allweddol o dan Adran 10 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae’r gwaith yma'n ffurfio’r Adroddiad Amgylcheddol Asesiad Amgylcheddol Strategol diwygiedig sy’n cyflwyno asesiad o effeithiau amgylcheddol posibl Strategaeth

Leol ddiwygiedig CBSRhCT ac roedd hefyd yn rhan o'r broses ymgynghori. Roedd y Strategaeth Leol Ar Gyfer Rheoli Perygl Llifogydd hefyd yn nodi:

- Rolau, cyfrifoldebau a swyddogaethau rheoli risg awdurdodau;
- Amcanion strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol;
- Amserlenni a chostau gweithredu;
- Manteision y mesurau yma;
- Asesiad o berygl llifogydd lleol;
- Dull ac amserlenni ar gyfer adolygu'r cynllun; a
- Sut mae'r Strategaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach.

## 3. Effaith yr Hinsawdd Economaidd

Ar 28 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (Rebecca Evans AS) y Setliad Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol ar gyfer 2023/24. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd cyffredinol o 7.9% yn y Grant Cynnal Refeniw a chyllid Trethi Annomestig, gyda chynnydd o 6.6% ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Mae Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor yn parhau i gymryd eu dyletswydd ymddiriedol yn hynod o ddifrifol ac mae hyn i'w weld wrth osod cyllidebau darbodus, cyfiawn a theg. Mae'r canlyniadau a'r sefyllfa ariannol sy'n cael eu trafod yn y Datganiad Cyfrifon yma yn adlewyrchu stiwardiaeth ariannol gadarn.

O ystyried y pwysau ariannol parhaus sydd ar y Cyngor, mae'r Dirprwy brif Weithredwr/ Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid a Digidol (y Swyddog Adran 151) yn dal i fod o'r farn y dylai'r Cyngor gadw lleiafswm o £10 miliwn ym Malans y Gronfa Gyffredinol (sef ei falans gweithredol). Mae'r lefel yma'n cael ei phennu yng nghyd-destun yr angen am reolaeth ariannol gadarn barhaus sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cynnal sefydlogrwydd a hyblygrwydd ariannol yn y dyfodol.

## 4. Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2026/27

Cafodd Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2026/27 diweddaraf y Cyngor ei adrodd i'r Cyngor llawn ar 20 Medi 2023. Mae'n nodi mai cynllunio ariannol tymor canolig yw conglfaen llywodraethu da ac mae'n galluogi darparu gwasanaethau a gwella gwasanaethau o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi'r cyd-destun gweithredol ehangach, sef bod y sector cyhoeddus wedi wynebu cyfnod parhaus o ostyngiadau mewn termau real mewn lefelau ariannu ers nifer o flynyddoedd. Yn ogystal, mewn cyd-destun llywodraeth leol, mae heriau digynsail o'n blaenau ar gyfer gwasanaethau ar draws y sector o ganlyniad i lefelau uchel o chwyddiant; goblygiadau geowleidyddiaeth; yr argyfwng costau byw parhaus; a galw a chostau cynyddol sy'n gysylltiedig â llawer o wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Yn lleol, mae'r Cyngor wedi dangos ei allu a'i barodrwydd i fuddsoddi mewn gwasanaethau, dros gyfnod hir, yn gysylltiedig â'n blaenoriaethau fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor "Gwneud Gwahaniaeth - 2020 – 2024", er mwyn bodloni gofynion newidiol ein pobl a'n cymunedau ni. Mae'r buddsoddiad 'ychwanegol' sylweddol y cytunwyd arno eisoes gan Aelodau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn darparu gwelliannau gwirioneddol ar draws llawer o feysydd gan gynnwys Ysgolion, Canol Trefi, Ffyrdd a Pharciau a Mannau Chwarae, ynghyd â phecynnau penodol o gymorth ariannol, a ariennir gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru, i helpu teuluoedd drwy'r argyfwng costau byw.

Er bod y dull o ddarparu buddsoddiad ychwanegol ym meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol drwy ddefnyddio cronfeydd untro wedi bod yn gadarnhaol iawn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid iddo fynd i'r afael â'r diffygion a ragwelir yn y gyllideb sylfaenol a gwneud penderfyniadau anodd i fantoli ei gyllideb refeniw parhaus dros y tymor canolig. Wrth wneud hynny, mae angen iddo sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.

Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar fwlch cyllidebol dros y tymor canolig gan gynnwys gweithredu yn llwyddiannus strategaeth o nodi a chyflwyno mesurau i leihau cyllideb sylfaenol yn gynnar yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gyflawni arbedion ariannol yn gynnar ac i ailgyflenwi Cronfa Wrth Gefn Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Thrawsnewid Gwasanaeth sy wedi'i defnyddio yn rhagweithiol fel rhan o strategaeth y gyllideb ers nifer o flynyddoedd.

## 5. Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r Cyngor yn adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y cyfnod 2022-2037 (cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2024). Bydd y cynllun diwygiedig yn adeiladu ar y cynllun presennol a bydd ganddo rôl arwyddocaol i'w chwarae wrth lunio'r Fwrdeistref Sirol i sicrhau ei bod yn tyfu mewn modd cynaliadwy, wrth ddiwallu anghenion y gymuned. Hon fydd y ddogfen cynllunio defnydd tir statudol a bydd yn nodi maint a lleoliad datblygiadau newydd, yn ogystal â bod yn sail ar gyfer penderfyniadau rheoli datblygu yn y dyfodol (ceisiadau cynllunio). Dylai CDLl Diwygiedig RhCT geisio:

- Meddu ar weledigaeth glir y mae modd ei chyflawni, yn seiliedig ar egwyddorion cadarn ar greu lleoedd, wedi'i gwreiddio mewn polisi lleol i hwyluso datblygu cynaliadwy.
- Darparu strategaeth gydlynol sy'n adlewyrchu dyheadau'r Cyngor, rhanddeiliaid allweddol a'n cymunedau.
- Hwyluso twf mewn aneddiadau sydd wedi nodi capasiti, yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau.
- Nodi ardaloedd sydd â'r modd i gynnwys seilwaith a darpariaeth cyflogaeth/tai, wrth hefyd ddiogelu amgylcheddau adeiledig a naturiol nodedig RhCT ar yr un pryd.

- Hwyluso, yn nhermau defnydd tir, amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, Cynllun Corfforaethol y Cyngor a Chynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg.
- Defnyddio canllawiau, cynlluniau a pholisi cenedlaethol, yn enwedig Polisi Cynllunio Cymru a Dyfodol Cymru, i ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer datblygu yn RhCT, sy'n diffinio rôl a swyddogaeth lleoedd.
- Nodi sut bydd RhCT yn newid ac yn datblygu dros oes y CDLl Diwygiedig (hyd at 2037).

Mae'r CDLl presennol yn weithredol o 2006 i 2021, ac mae'r CDLl Diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2022 i 2037. Serch hynny, mae'r CDLl presennol yn parhau mewn grym hyd nes y caiff y CDLl Diwygiedig ei fabwysiadu (mae wedi'i amserlennu ar hyn o bryd ar gyfer dechrau 2026).

## 6. Trefniadau Cynllunio Corfforaethol y Cyngor

Ar gyfer 2023/24 Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-2024 oedd y cynllun strategol allweddol, gan ganolbwyntio ar 3 blaenoriaeth:

- Sicrhau bod **Pobl** yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus
- Creu **Lleoedd** y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw; a
- Galluogi **Ffyniant** drwy greu cyfleoedd i bobl a busnesau i fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd, i gyflawni eu potensial ac i ffynnu.

Ategwyd y gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau uchod yn y Cynllun Corfforaethol drwy ddull a oedd, ymhlith pethau eraill, yn canolbwyntio ar 'Byw o fewn ein modd', bod yn 'Gyngor Effeithlon ac Effeithiol' a chymryd camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Yn ystod 2023/24, derbyniodd Cabinet y Cyngor ddiweddariadau cynnydd ar gyflawni tair blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol, sef Pobl, Lleoedd a Ffyniant, ac adroddwyd ar y rhain yn rhan o drefniadau adrodd cyflawniad chwarterol y Cyngor. Cadarnhaodd y Cabinet ei fod yn fodlon ar y cynnydd a wnaed. Yn dilyn hyn, adroddwyd yr Adroddiadau Cyflawniad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor i'w hadolygu a'u herio.

Mae'r Cyngor hefyd wedi cymeradwyo ei 'Hunanasesiad Blynyddol 2022/23 - Ymgorffori Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor' ym mis Ionawr 2024. Roedd hyn yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i bob Cyngor yng Nghymru barhau i adolygu i ba raddau y mae'n bodloni gofynion cyflawniad o ran: arfer ei swyddogaethau yn effeithiol; defnyddio adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; ac mae llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r gofynion uchod. Roedd yr Hunanasesiad Blynyddol hefyd yn nodi gwaith y Cyngor i fodloni gofynion egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ochr yn ochr â'r uchod, cyflwynwyd Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024-2030 i'r Cyngor a'i gymeradwyo ganddo ym mis Ebrill 2024. Mae'r Cynllun, sydd wedi'i lywio gan ymgysylltu eang, yn darparu Gweledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol hyd at 2030 ac yn nodi Amcanion Llesiant y Cyngor a'r blaenoriaethau y bydd yn canolbwyntio arnyn nhw dros y chwe blynedd nesaf. Dyma drydydd Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac mae wedi'i strwythuro o amgylch 4 amcan llesiant a fydd yn helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol RhCT. Dyma'r amcanion:

- **Pobl a Chymunedau** - Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau RhCT i fyw bywydau diogel, iach a chyflawn;
- **Gwaith a Busnes** - helpu i gryfhau a thyfu economi RhCT;
- **Byd Natur a'r Amgylchedd** - Creu Rhondda Cynon Taf gwyrdd a glân sy'n gwella a diogelu amgylchedd a byd natur Rhondda Cynon Taf;
- **Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg** – Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol Rhondda Cynon Taf.

Ategir y gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau uchod drwy gymhwyso'r 5 ffordd o weithio:

- Cynnwys pobl leol, ystod o randdeiliaid a chynghorwyr wrth lunio ein cynllun;
- Gweithio gydag eraill i roi ein cynllun ar waith;
- Edrych tua'r dyfodol ar ein heriau a'n cyfleoedd;
- Integreiddio, i ystyried gwaith sefydliadau eraill i ategu'r cynllun; a
- Atal problemau rhag digwydd neu waethygu ar draws pob un o'n Hamcanion Llesiant.

Parhaodd y Cyngor hefyd ei ymrwymiad i raglen buddsoddi cyfalaf strategol, y mae nifer ohonyn nhw'n cysylltu â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn ei hategu (Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru o 1 Ebrill 2024):

- Adfywio canol trefi a chefnogi busnesau lleol;
- Gwella adeiladau a chyfleusterau ysgolion;
- Gwella darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion trwy raglen hirdymor o greu cyfleusterau Gofal Ychwanegol newydd a llety gofal arbenigol;
- Cefnogi gwelliannau ac argaeledd tai trwy Grantiau / Addasiadau Cyfleusterau i'r Anabl a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd;
- Gwella cyflwr ffyrdd a buddsoddi mewn cynlluniau trafnidiaeth i gefnogi datblygiad Metro De Cymru;
- Buddsoddi mewn asedau cymunedol megis parciau, offer hamdden a meysydd chwarae;
- Rhaglen o waith a phrosiectau lliniaru llifogydd i fynd i'r afael â newid hinsawdd; a
- Buddsoddiad Fferm Solar.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg (BGC) yn Fwrdd ar y Cyd newydd sy'n cynnwys casgliad o gyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i wella lles diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld ag ardaloedd Cwm Taf, sef Rhondda Cynon Taf,

Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Ochr yn ochr â hyn, cymeradwywyd Cynllun Llesiant newydd ar gyfer y cyfnod 2023 – 2028 gan Gyngor Rhondda Cynon Taf, fel un o'r partneriaid statudol, ar 29 Mawrth 2023.

Dyma Amcanion Llesiant Cwm Taf Morgannwg 2023 – 2028:
- Cymdogaethau lleol iach;
- Cymdogaethau lleol cynaliadwy a chydnerth.

Bydd yr amcanion sy wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor a Chynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg yn helpu'r Cyngor a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg i gyfrannu at y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol, sy wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang;
- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynol; a
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

## 7. Eglurhad o'r Datganiadau Ariannol Craidd

Mae'r Datganiad o Gyfrifon sy'n dilyn yr Adroddiad Naratif yma yn cynnwys y Datganiadau Ariannol Craidd canlynol:

- **Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MiRS)** – yn dadansoddi'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio a chronfeydd wrth gefn nad oes mod eu defnyddio.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CI&ES)** – yn adlewyrchu incwm a gwariant yn unol ag IFRS ac yn eu dadansoddi fesul maes gwasanaeth sy'n adlewyrchu'r modd y mae gwasanaethau'n gweithredu a'r modd y mae cyflawniad yn cael ei reoli.

- **Y Fantolen** – yn adlewyrchu holl asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- **Datganiad Llif Arian** – yn dadansoddi symudiad arian parod a chyfwerth ar gyfer y flwyddyn.

Yn y datganiadau ariannol ar gyfer 2023/24, mae dau gydbwyllgor wedi'u cyfuno:

- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES); a
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD).

**Cyfrifon Grŵp** - mae Amgen Cymru Ltd ac Amgen Rhondda Ltd wedi'u nodi fel cwmnïau grŵp ac wedi'u cyfuno â datganiadau ariannol y grŵp. Yn seiliedig ar

berthnasedd, nid yw'r cwmni cyswllt (WSP Glamorgan Consultancy Ltd.) wedi'i gyfuno. Cyfunir is-gwmnïau yn y datganiadau grŵp gan ddefnyddio'r dull caffael.

**Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Mae'r datganiad yma yn manylu ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn adolygu eu heffeithiolrwydd.

## 8. Incwm Refeniw a Gwariant 2023/24

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dadansoddi gwariant ac incwm refeniw gros y Cyngor yn unol ag IFRS.

Amcanion eang Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 y Cyngor oedd:

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol allweddol -
  - Pobl - Eu bod nhw'n annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus;
  - Lleoedd - Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw, gweithio, a chwarae ynddyn nhw;
  - Ffyniant - Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu;
- Cadw cefnogaeth Archwilio Cymru ar gyfer y dull mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn.
- Parhau i ddarparu ein gwasanaethau allweddol ac i ddiogelu cynifer o swyddi lleol ag sy'n bosibl wrth barhau i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd; a
- Cymryd agwedd gyfrifol tuag at osod lefel Treth y Cyngor.

Mae gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu rheoli a'u darparu gan bedwar grŵp:

- **Prif Weithredwr** Darparu swyddogaethau Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd; gwasanaethau rheng-flaen Adfywio, Tai, Cynllunio; a gwasanaethau cymorth allweddol Eiddo'r Cyngor a Chaffael.

- **Gwasanaethau Cyllid a Gwasanaethau Digidol** - Darparu Gwasanaethau Cyllid a Gwasanaethau Digidol ynghyd â gwasanaethau rheng-flaen Priffyrdd; Cludiant; Prosiectau Strategol; Gwasanaethau Gofal y Strydoedd (gan gynnwys Gwastraff a Glanhau Strydoedd); ynghyd â Gwasanaethau'r Parciau.

- **Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant** - Darparu gwasanaethau cymorth i blant, ysgolion a'u teuluoedd trwy ystod o feysydd gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaeth Cynhwysiant a Mynediad; Derbyniadau Ysgol; Llywodraethu Ysgolion; Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles; Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu; Rheoli Asedau a Data; Gwasanaethau Arlwyo; Gofal Plant; Gwella Ysgolion, gan gynnwys drwy'r gwasanaethau a gomisiynir gan y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De.

- **Gwasanaethau Cymuned a'r Gwasanaethau i Blant** Darparu Gwasanaethau i Oedolion (Gwasanaethau Gofal Cymuned a Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol); Gwasanaethau i Blant; Gwasanaethau Tai Cymunedol; Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd; Gwasanaethau Hamdden, Cefn Gwlad a Gwasanaethau Diwylliannol (gan gynnwys Theatrau); Atyniadau Ymwelwyr a Threftadaeth; Gwasanaethau Addysg yn y Gymuned; Llyfrgelloedd; Gwasanaethau Cymraeg; Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid; a Rhaglenni Cyflogaeth.

Mae'r tabl canlynol yn manylu ar wariant net gwirioneddol a chyllideb y cyfadrannau yn ystod 2023/24. Cyhoeddwyd manylion pellach ar wefan y Cyngor o fewn Adroddiad Cyflawniad diwedd y flwyddyn ar gyfer 2023/24.

Mae hyn yn cynrychioli gwariant refeniw net y Cyngor yn unol â'r darpariaethau statudol y mae angen eu cymryd i ystyriaeth wrth osod trethi lleol.

Mae'r amrywiad yn erbyn y gyllideb yn cyfrannu at y symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor:

| **Cyfadran** | **Cyllideb** | **Gwariant** | **Amrywiant** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Prif Weithredwr | 27,949 | 27,627 | (322) |
| Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant | 201,416 | 203,871 | 2,455 |
| Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | 222,668 | 222,702 | 34 |
| Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rhe | 79,067 | 79,293 | 226 |
| **Cyfanswm** | **531,100** | **533,493** | **2,393** |
| Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan | 78,855 | 78,566 | (289) |
| **Cyfanswm** | **609,955** | **612,059** | **2,104** |

| | **£'000** |
|---|---|
| **Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor ar 31 Mawrth 2023** | **(10,240)** |
| Alldro Cyllideb Refeniw (Amrywiad fel uchod) | 2,104 |
| Rhyddhau cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | (2,104) |
| **Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor ar 31 Mawrth 2024** | **(10,240)** |

Cyfanswm y gwariant ar wasanaethau oedd £900 miliwn, mae modd dadansoddi hyn dros y categorïau gwariant canlynol:

| **Math o Wariant** | **£'m** | **%** |
|---|---|---|
| Gweithwyr | 398 | 44 |
| Adeiladau | 43 | 5 |
| Cludiant | 26 | 3 |
| Nwyddau a Gwasanaethau | 98 | 11 |
| Taliadau i Drydydd Partïon | 166 | 19 |
| Taliadau Trosglwyddo | 82 | 9 |
| Costau cyfalaf | 84 | 9 |
| Costau Gweithredu Eraill (e.e. Gwasanaethau | 3 | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant Gros** | **900** | **100** |

Cyfanswm yr incwm yn ystod y flwyddyn oedd £1,017 miliwn a ddaeth o'r ffynonellau canlynol:

| **Dadansoddiad Incwm** | **£'m** | **%** |
|---|---|---|
| Incwm Gwasanaeth Uniongyrchol | | |
| Grantiau Penodol | 201 | 20 |
| Gwerthiannau, Ffioedd a Thaliadau | 42 | 4 |
| Incwm Arall | 43 | 4 |
| **Is-gyfanswm Incwm Gwasanaeth Uniongyrchol** | **286** | **28** |
| Incwm Arall | | |
| Treth y Cyngor | 157 | 15 |
| Trethi Annomestig | 77 | 8 |
| Grantiau Llywodraeth heb eu Gwarchod | 398 | 39 |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | 97 | 9 |
| Arall | 2 | 1 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **1,017** | **100** |

## 9. Gwariant ac Incwm Cyfalaf 2023/24

Yn ystod y flwyddyn, gwariant cyfalaf y Cyngor oedd £169.868 miliwn, fel sy wedi'i grynhoi isod:

| **Cyfadran** | **£'000** |
|---|---|
| Prif Weithredwr | 29,631 |
| Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rh | 64,477 |
| Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant | 8,679 |
| Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | 67,081 |
| **Cyfanswm** | **169,868** |

Mae'r math o wariant cyfalaf a gododd yn ystod y flwyddyn wedi'i grynhoi isod:

| **Gwariant Cyfalaf** | **£'000** |
|---|---|
| Asedau Hirdymor Diriaethol | 150,619 |
| Asedau Hirdymor Anniriaethol | 3,321 |
| Gwariant Refeniw wedi'i ariannu gan Gyfalaf o dan Statud | 15,928 |
| **Cyfanswm** | **169,868** |

Cafodd y gwariant yma ei ariannu fel a ganlyn:

| **Cyllid Cyfalaf** | **£'000** |
|---|---|
| Cyllid Refeniw | 28,105 |
| Cronfa Datblygiadau Cyfalaf | 366 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 165 |
| Benthycion | 26,549 |
| Grantiau | 113,211 |
| Cyfraniadau Trydydd Parti | 1,472 |
| **Cyfanswm** | **169,868** |

Roedd gwariant sylweddol ar:

- Grantiau/Addasiadau ar gyfer Cyfleusterau i'r Anabl;
- Gwaith adfer yn dilyn llifogydd Storm Dennis;
- Adeiladu ysgolion newydd a moderneiddio ysgolion presennol, er enghraifft, YGG Llyn Y Forwyn; Ysgol Bro Taf (Pontypridd 3-16); Ysgol Afon Wen (Y Ddraenen-wen 3-16); ac Ysgol Gyfun Bryncelynnog; a
- Deuoli'r A4119, Coed-elái.

## 10. Crynodeb o Gynlluniau Refeniw a Chyfalaf y Dyfodol

Mae angen rheolaeth ariannol gadarn i ddiogelu'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2024-2030, 'Gweithio Gyda'n Cymunedau'. Mae trefniadau cynllunio ariannol a chynllunio blaengar yn hanfodol wrth sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor yn fforddiadwy ac yn arwain y gwaith o ddod yn fwy effeithlon, trawsnewid gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau buddsoddi.

Mae cyllidebau cyfalaf a refeniw yn cael eu cymeradwyo bob blwyddyn gan y Cyngor llawn. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei gymeradwyo ar gyfer cyfnod treigl 3 blynedd a'i diweddaru'n flynyddol. Mae cyllidebau refeniw yn cael eu pennu'n flynyddol yn unol â chyhoeddiadau setliad Llywodraeth Cymru.

Mae crynodeb o Raglen Gyfalaf 2020-23 wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020 fel y ganlyn:

| **Gwariant y Gyfadran** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Prif Weithredwr | 38,221 | 9,306 | 6,255 | **53,782** |
| Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen | 41,760 | 5,126 | 4,926 | **51,812** |
| Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | 38,790 | 4,517 | 2,773 | **46,080** |
| Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaeth | 12,464 | 746 | 746 | **13,956** |
| **Cyfanswm** | **131,235** | **19,695** | **14,700** | **165,630** |

Dyma amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i Gyllido'r Rhaglen Gyfalaf:

| **Amcangyfrif o'r Adnoddau sydd eu Hangen i** | **2024/25** | **2025/26** | **2026/27** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyca wedi'i Gynnal | 6,822 | 6,822 | 6,822 | **20,466** |
| Benthyca heb ei Gynnal | 12,157 | 981 | 0 | **13,138** |
| Grantiau Cyfalaf | 47,559 | 9,421 | 7,006 | **63,986** |
| Cyfraniadau Trydydd Parti | 15 | 0 | 0 | **15** |
| Adnoddau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol | 14,925 | 1,521 | 872 | **17,318** |
| Cyfraniadau Refeniw | 49,757 | 950 | 0 | **50,707** |
| **Cyfanswm** | **131,235** | **19,695** | **14,700** | **165,630** |

O 31 Mawrth 2024, mae ymrwymiadau cyfalaf mawr dros y tair blynedd nesaf (yn unol â Rhaglen Gyfalaf 2024-27) yn cynnwys y cynlluniau canlynol:

| Cynllun | £'000 |
|---|---|
| Fferm Ynni Solar Coed-elái | 7,388 |
| Porth y De Pontypridd | 12,198 |
| Grantiau/Addasiadau ar gyfer Cyfleusterau i'r Anabl | 8,065 |
| Gwella'r Priffyrdd | 8,617 |
| Strwythurau | 6,970 |
| Rhwydwaith Trafnidiaeth | 14,829 |
| Moderneiddio Ysgolion | 5,536 |
| Ysgol Bro Taf (Moderneiddio Ysgolion 3-16 Pontypridd) | 5,965 |
| Ysgol Afon Wen (Moderneiddio Ysgol 3-16 oed y Ddraen | 6,437 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-forwyn | 6,779 |
| Rhaglen Foderneiddio (Oedolion) | 7,158 |

Mae crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2024/25 (a gafodd ei chytuno ym mis Mawrth 2024) wedi'i amlinellu isod:

| Adran | £'000 |
|---|---|
| Yr Awdurdod Cyfan | 77,221 |
| Cyllidebau Ysgolion Unigol | 198,462 |
| Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant | 210,154 |
| Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng- | 82,604 |
| Prif Weithredwr | 27,177 |
| Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | 36,177 |
| **Cyfanswm** | **631,795** |

## 11. Trefniadau Benthyca a Ffynonellau Cyllid

Bob blwyddyn, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003 a'r Cod Materion Ariannol, mae'n ofynnol i'r Cyngor osod terfynau mewn perthynas â benthyca a gosod amrywiol ddangosyddion ariannol a thrysorlys eraill.

Roedd y terfynau a gafodd eu gosod ar ddechrau'r flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

£625.0 miliwn oedd y terfyn benthyca awdurdodedig a gymeradwywyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yw £283.9 miliwn, ac mae £273.4 miliwn yn fenthyciad tymor hir a £10.5 miliwn yn fenthyciad tymor byr. Mae'r benthyciadau allanol o £197.9 miliwn yn dod o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), a £86 miliwn o fenthyciadau'r farchnad a ffynonellau eraill. Dydy'r ffigurau benthyca yma ddim yn cyd-fynd â'r Fantolen gan fod y ffigurau yn y Datganiad Cyfrifon yn cynnwys yr addasiad ar gyfer gwerth teg, fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a chymeradwywyd y rhain gan y Cyngor llawn ar 29 Mawrth 2023 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Mae Arferion Rheoli

Trysorlys y Cyngor yn caniatáu i'r Cyngor godi arian o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a'r farchnad arian. Mae'r Swyddog Adran 151 wedi ei awdurdodi i wneud y math mwyaf priodol o fenthyciadau o ffynonellau cymeradwy o fewn y terfynau benthyca cyffredinol sy wedi'u pennu gan y Cyngor.

## 12. Asedau a Rhwymedigaethau Pensiwn

O ganlyniad i Safon Gyfrifo Ryngwladol (IAS) 19 "Buddion Gweithwyr", mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyfrifo rhwymedigaethau pensiwn mewn perthynas â chost penderfyniadau a gafodd eu gwneud hyd at ddyddiad y Fantolen. Cyfeiriwch at nodiadau 14.4 a 33.0 y Datganiadau Ariannol Craidd am ragor o fanylion. Mae effaith IAS 19 ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor fel a ganlyn:

| | **£'000** |
|---|---|
| Asedau Net heb gynnwys Cronfa Bensiwn W | 1,298,761 |
| Asedau Net yn unol â'r Fantolen | 1,290,800 |

## 13. Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD)

Ar 15 Mawrth 2016, arwyddodd Arweinwyr y deg Cyngor yn Ne Ddwyrain Cymru, Prif Weinidog Cymru, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, cytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r deg arweinydd. Bwriad y cytundeb yw datblygu a rheoli buddsoddiad £1.2 biliwn yn seilwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy Gronfa Buddsoddi 20 mlynedd. Mae'r buddsoddiad hwn yn cynnwys £734 miliwn ar gynllun Metro a £495 miliwn ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith, tai, sgiliau a hyfforddiant, arloesi, twf busnesau a chynigion trafnidiaeth 'Metro plus'.

Yn dilyn cyfarfod Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 20 Medi 2021 yn cytuno i drawsnewid model gweithredu a chyflawni presennol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn un corff corfforaethol, Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (SEWCJC), adroddwyd y newyddion diweddaraf ar y cynllun pontio i'r Cydbwyllgor yn ystod y flwyddyn cyn y dyddiad gweithredu, sef 1 Ebrill 2024.

Yn ystod 2023/24, datblygodd a chymeradwyodd y Cyd-bwyllgor ei Gyfansoddiad gan gynnwys trefniadau ar gyfer craffu, is-bwyllgorau statudol a pholisïau statudol megis ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn ogystal â hyn, ystyriodd gynnydd yn erbyn Cynllun Busnes Blynyddol 2023/24 ochr yn ochr â diweddariadau ar fonitro'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Gan edrych i'r dyfodol, adolygodd a chymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Gyllideb 2024/25 a Chynllun Busnes Blynyddol ar 29 Ionawr 2024, a'i Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod ar 18 Mawrth 2024. Daeth y Cyd-bwyllgor yn gwbl weithredol o 1 Ebrill 2024.

Ar gyfer 2023/24 mae cyfrifon Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (sy'n cynnwys yr is-gwmni CSC Foundry Ltd) wedi'u cyfuno i gyfrifon y Cyngor yn seiliedig ar y ffigurau poblogaeth fel sy wedi'u nodi yn y Cytundeb Gweithio ar y Cyd a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 25 Ionawr 2017.

## Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer Cyfrifon y Cyngor

### Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol ac i sicrhau bod un o'i Swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor yma, y Swyddog hwnnw yw'r Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Rwy'n cadarnhau bod y cyfrifon yma wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor.

Llofnod: ____________________________ Dyddiad: _____________

**Y Llywydd**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Llys Cadwyn 2
Pontypridd
CF37 4TH

**Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng-flaen**

Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor sydd, o ran Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, yn ofynnol i gyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddyddiad y cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yma, mae'r Cyfarwyddwr wedi:

- Dewis a dethol polisïau cyfrifyddu addas, a'u cymhwyso'n gyson.
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth.
- Wedi cydymffurfio â'r Cod.

Drwy gydol y flwyddyn ariannol, mae'r Cyfarwyddwr hefyd wedi:

- Cynnal a chadw cofnodion cyfrifyddu priodol, a'u diweddaru'n gyson.
- Cymryd camau rhesymol i atal twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra, neu eu darganfod.

**Tystysgrif Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng-flaen ar Gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn 2023/24.**

Rwy'n tystio fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth 2024 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Llofnod: ____________________________ Dyddiad: _____________

**Barrie Davies**
**Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng-flaen**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
Llys Cadwyn 2
Pontypridd
CF37 4TH

## Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MiRS)

Mae'r Datganiad yma'n dangos y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan y Cyngor, wedi'u dadansoddi i "gronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio" (h.y. y rhai y mae modd eu cymhwyso i gyllido gwariant neu ostwng trethi lleol) a "chronfeydd wrth gefn nad oes modd eu defnyddio". Mae'r llinell Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos cost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ac mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor ar gyfer gosod Treth y Cyngor. Mae'r Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r llinell Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi yn dangos Balans Cronfa'r Cyngor statudol cyn i'r Cyngor ymgymryd ag unrhyw drosglwyddiadau dewisol i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

## Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Cyfalaf a Buddsoddiad / Seilwaith | Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Perthnasol i Refeniw Arall | Cronfa Wrth Gefn Ysgolion Dirprwyedig | Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu defnyddio | Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | Cronfa wrth Gefn Yswiriant MGCC | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y mae modd eu defnyddio | Cronfeydd Wrth Gefn nad oes modd eu Defnyddio | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| ***Nodiadau:*** | *13.1* | *13.2* | *13.2* | *13.3* | *13.4* | *13.5* | | | *14.0* | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | 10,292 | 85,937 | 112,422 | 20,561 | 5,669 | 37,975 | 169 | **273,025** | 224,438 | **497,463** |
| **Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2022/23:** | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant | (4,484) | 0 | 4,137 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(347)** | 569,025 | **568,678** |
| **Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a chyllid o dan reoliadau:** | | | | | | | | | | |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau sy wedi'u debydu / credydu i'r CI&ES:** | | | | | | | | | | |
| Taliadau ar gyfer Dibrisiant ac Amhariad ar Asedau Tymor Hir | 38,702 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **38,702** | (38,702) | **0** |
| Colledion ailbrisio ar eiddo, peiriannau ac offer | 15,574 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **15,574** | (15,574) | **0** |
| Symudiad yng ngwerth teg Eiddo Buddsoddi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau wedi'u cymhwyso | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Addasiad Gohiriedig Grant y Llywodraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Amorteiddiad Asedau anniraethol | 2,256 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2,256** | (2,256) | **0** |
| Rhoi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Gwariant refeniw wedi'i ariannu o gyfalaf o dan statud | 14,843 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **14,843** | (14,843) | **0** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Symiau asedau hirdymor wedi'u dileu ar waredu neu werthu fel rhan o'r ennillion / colledion ar waredu i'r CI&ES Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Mewnosod eitemau heb eu debydu / credydu i CI&ES:** | | | | | | | | **0** | | **0** |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | (15,115) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(15,115)** | 15,115 | **0** |
| Gwariant cyfalaf wedi'i godi yn erbyn Balansau Cronfa'r Cyngor | (26,386) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(26,386)** | 26,386 | **0** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso:** | | | | | | | | **0** | | **0** |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau heb eu cymhwyso wedi'u credydu i CI&ES | (87,736) | 0 | 0 | 0 | 0 | 87,736 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Cymhwyso grantiau i ariannu cyfalaf sy wedi'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (92,170) | 0 | **(92,170)** | 92,170 | **0** |
| **Addasiadau sy'n cynnwys Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | | | | | **0** | | **0** |
| Elw o drosglwyddo gwerthiant wedi'u credydu yn rhan o'r enillion / colledion ar | (3,960) | 0 | 0 | 0 | 5,036 | 0 | 0 | **1,076** | (1,076) | **0** |
| Defnyddio Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | 0 | 0 | 0 | (934) | 0 | 0 | **(934)** | 934 | **0** |
| Trosglwyddo o'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian parod | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 0 | 0 | **12** | (12) | **0** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | | | | | **0** | | **0** |
| Beth yw swm y gwahaniaeth yn y costau cyllid sy'n cael eu codi ar y CI&ES a chostau cyllid y mae modd eu codi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (94) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(94)** | 94 | **0** |
| **Addasiadau sy'n cynnwys Pensiynau Cronfa Wrth Gefn:** | | | | | | | | **0** | | **0** |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a gafodd eu debydu neu eu credydu i'r CI&ES | 101,190 | 0 | 504 | 0 | 0 | 0 | 0 | **101,694** | (101,694) | **0** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (42,260) | 0 | (75) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(42,335)** | 42,335 | **0** |
| **Addasiad yn cynnwys y Cyfrif Absenoldebau Cronedig:** | | | | | | | | **0** | | **0** |
| Y gwahaniaeth yn y symiau sy'n cael eu codi ar gyfer tâl swyddogion i'r CI&ES ar sail gronni a'r tâl y mae modd ei godi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 2,661 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2,662** | (2,664) | **(2)** |
| **Addasiadau eraill yn cynnwys:** | | | | | | | | **0** | | **0** |
| Addasiad rhwng y Cyfrif Addasiad Cyfalaf a'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Dibrisiant enillion ailbrisio asedau hirdymor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Cynnydd net (neu ostyngiad) cyn trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi** | (4,809) | 0 | 4,567 | 0 | 4,114 | (4,434) | 0 | **(562)** | 569,238 | **568,676** |
| **Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi Cronfeydd Wrth Gefn** | 4,757 | 19,188 | (22,640) | (5,313) | 875 | 0 | 68 | **0** | 3,065 | **3,065** |
| **Cynnydd neu (ostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | (52) | 19,188 | (18,073) | (5,313) | 4,989 | (4,434) | 68 | **(3,627)** | 572,303 | **568,676** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **10,240** | **105,125** | **94,349** | **15,248** | **10,658** | **33,541** | **237** | **269,398** | **796,741** | **1,066,139** |

## Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Cyfalaf a Buddsoddiad / Seilwaith | Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Perthnasol i Refeniw Arall | Cronfa Wrth Gefn Ysgolion Dirprwyedig | Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu defnyddio | Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | Cronfa wrth Gefn Yswiriant MGCC | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y mae modd eu defnyddio | Cronfeydd Wrth Gefn nad oes modd eu Defnyddio | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| ***Nodiadau:*** | *13.1* | *13.2* | *13.2* | *13.3* | *13.4* | *13.5* | | | *14.0* | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | 10,240 | 105,125 | 94,349 | 15,248 | 10,658 | 33,541 | 237 | **269,398** | 796,741 | **1,066,139** |
| **Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/24:** | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant | 57,893 | 0 | (27) | 0 | 0 | 0 | 0 | **57,866** | 166,795 | **224,661** |
| **Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a chyllid o dan reoliadau:** | | | | | | | | | | |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau sy wedi'u debydu / credydu i'r CI&ES:** | | | | | | | | | | |
| Taliadau ar gyfer Dibrisiant ac Amhariad ar Asedau Hirdymor | 37,719 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **37,719** | (37,719) | **0** |
| Colledion ailbrisio ar eiddo, gwaith ac offer | 27,888 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **27,888** | (27,888) | **0** |
| Symudiad yng ngwerth teg Eiddo Buddsoddi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau wedi'u cymhwyso | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Addasiad Gohiriedig Grant y Llywodraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Amorteiddiad Asedau anniraethol | 2,283 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2,283** | (2,283) | **0** |
| Symudiad yng Nghyfrif yr Asedau wedi'u | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Gwariant refeniw wedi'i ariannu o gyfalaf o dan statud | 15,929 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **15,929** | (15,929) | **0** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Symiau asedau hirdymor wedi'u dileu ar waredu neu werthu fel rhan o'r ennillion / colledion ar waredu i'r CI&ES Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Mewnosod eitemau heb eu debydu / credydu i CI&ES:** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | (15,482) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(15,482)** | 15,482 | **0** |
| Gwariant cyfalaf wedi'i godi yn erbyn Balansau Cronfa'r Cyngor | (28,472) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(28,472)** | 28,472 | **0** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso:** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau heb eu cymhwyso wedi'u credydu i CI&ES | (108,005) | 0 | 64 | 0 | 0 | 108,004 | 0 | **63** | (63) | **0** |
| Cymhwyso grantiau i ariannu cyfalaf sy wedi'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (114,683) | 0 | **(114,683)** | 114,683 | **0** |
| **Addasiadau sy'n cynnwys Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Elw o drosglwyddo gwerthiant wedi'u credydu yn rhan o'r enillion / colledion ar waredu i'r CI&ES | 217 | 0 | 0 | 0 | 1,398 | 0 | 0 | **1,615** | (1,615) | **0** |
| Defnyddio Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | 0 | 0 | 0 | (165) | 0 | 0 | **(165)** | 165 | **0** |
| Trosglwyddo o'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian parod | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Beth yw swm y gwahaniaeth yn y costau cyllid sy'n cael eu codi ar y CI&ES a chostau cyllid y mae modd eu codi yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (97) | 0 | (1) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(98)** | 98 | **0** |
| **Addasiadau sy'n cynnwys Pensiynau Cronfa Wrth Gefn:** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a gafodd eu debydu neu eu credydu i'r CI&ES | 45,680 | 0 | 178 | 0 | 0 | 0 | 0 | **45,858** | (45,858) | **0** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (40,590) | 0 | (94) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(40,684)** | 40,684 | **0** |
| **Addasiad yn cynnwys y Cyfrif Absenoldebau Cronedig:** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Y gwahaniaeth yn y symiau sy'n cael eu codi ar gyfer tâl swyddogion i'r CI&ES ar sail gronni a'r tâl y mae modd ei godi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (4,024) | 0 | (8) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(4,032)** | 4,032 | **0** |
| **Addasiadau eraill yn cynnwys:** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Addasiad rhwng y Cyfrif Addasiad Cyfalaf a'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Dibrisiant enillion ailbrisio asedau hirdymor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Cynnydd net (neu ostyngiad) cyn trosglwyddiadau i Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi** | (9,061) | 0 | 112 | 0 | 1,233 | (6,679) | 0 | **(14,395)** | 239,056 | **224,661** |
| **Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi Cronfeydd Wrth Gefn** | 9,061 | 14,407 | (15,966) | (7,428) | 0 | 0 | (74) | **0** | 0 | **0** |
| **Cynnydd neu (ostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | 0 | 14,407 | (15,854) | (7,428) | 1,233 | (6,679) | (74) | **(14,395)** | 239,056 | **224,661** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **10,240** | **119,532** | **78,495** | **7,820** | **11,891** | **26,862** | **163** | **255,003** | **1,035,797** | **1,290,800** |

**Datganiad Cynhwysfawr o Gyfanswm Incwm a Gwariant**

Mae'r Datganiad yma'n dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo sy wedi'u derbyn yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu trwy godi trethi. Mae cynghorau'n codi trethi i dalu am wariant yn unol â rheoliadau, mae modd i hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Mae'r sefyllfa dreth i'w gweld yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

## Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| 2022/23 | | | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Net Gwariant** | | ***Nodwch*** | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Net Gwariant** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 126,480 | (26,069) | 100,411 | Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen* | | 122,298 | (16,730) | 105,568 |
| 62,520 | (9,488) | 53,032 | Prif Weithredwr | | 64,363 | (12,171) | 52,192 |
| 304,109 | (66,459) | 237,650 | Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | | 311,997 | (75,361) | 236,636 |
| 314,606 | (116,097) | 198,509 | Gwasanaethau Cymuned a | | 311,960 | (117,725) | 194,235 |
| 84,654 | (58,532) | 26,122 | Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan | | 87,945 | (62,642) | 25,303 |
| 5,265 | (5,152) | 113 | Cyd-bwyllgorau | | 1,833 | (1,773) | 60 |
| **897,634** | **(281,797)** | **615,837** | **Costau'r Gwasanaethau** | | **900,396** | **(286,402)** | **613,994** |
| | | | | | | | |
| | | | **Gwariant Gweithredol Arall** | | | | |
| 25,852 | 0 | 25,852 | Preseptau | *29.3* | 27,909 | 0 | 27,909 |
| 13,326 | 0 | 13,326 | Ardollau | *29.3* | 14,933 | 0 | 14,933 |
| 0 | (3,960) | (3,960) | (Enillion) neu Golledion wrth Waredu Asedau sydd ddim yn Gyfredol | | 218 | 0 | 218 |
| | | | | | | | |
| | | | **Incwm Cyllido a Buddsoddi a Gwariant** | | | | |
| 10,938 | 0 | 10,938 | Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | *7.2* | 10,785 | 0 | 10,785 |
| 15,770 | (7) | 15,763 | Llog Net ar Atebolrwydd Diffiniedig Net | *33.2* | 5,100 | (77) | 5,023 |
| 0 | (1,645) | (1,645) | Llog Derbyniadwy ac Incwm Tebyg | *7.2* | 0 | (1,554) | (1,554) |
| 380 | (324) | 56 | Incwm, Gwariant a Newidiadau yng Ngwerth Teg Eiddo Buddsoddi | | 0 | (324) | (324) |
| | | | | | | | |
| | | | **Grant Trethi ac Amhenodol Incwm** | | | | |
| 0 | (148,917) | (148,917) | Incwm Treth y Cyngor | *26.0* | 0 | (157,467) | (157,467) |
| 0 | (85,619) | (85,619) | Dosbarthiad Ardrethi Annomestig | *25.0* | 0 | (77,189) | (77,189) |
| 0 | (359,489) | (359,489) | Grantiau Llywodraeth heb eu Gwarchod | | 0 | (397,788) | (397,788) |
| 0 | (81,770) | (81,770) | Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | | 0 | (96,438) | (96,438) |
| 0 | (25) | (25) | Treth Gorfforaeth - Cyd-bwyllgorau | | 0 | 32 | 32 |
| **963,900** | **(963,553)** | **347** | **(Gwarged) neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth** | | **959,341** | **(1,017,207)** | **(57,866)** |
| 7,907 | (39,564) | (31,657) | (Gwarged) neu Ddiffyg o ran Ailbrisio Asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer | | 7,422 | (50,054) | (42,632) |
| 0 | (537,368) | (537,368) | Ailfesur y Net Diffiniedig Atebolrwydd Buddion | | 0 | (124,163) | (124,163) |
| | | | | | | | |
| **7,907** | **(576,932)** | **(569,025)** | **Incwm Cynhwysfawr a Gwariant Arall** | | **7,422** | **(174,217)** | **(166,795)** |
| | | | | | | | |
| **971,807** | **(1,540,485)** | **(568,678)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant** | | **966,763** | **(1,191,424)** | **(224,661)** |

**Mae'r flwyddyn flaenorol yn ymwneud â Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen. Mae Gwasanaethau Cyllid a Digidol wedi'u cynnwys yn adran y Prif Weithredwr.*

## Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n cael eu cydnabod gan y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r asedau net (asedau ar ôl didynnu'r rhwymedigaethau) yn gyfatebol i'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan y Cyngor. Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadrodd fesul dau gategori. Y categori cyntaf yw'r cronfeydd y mae modd eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y mae modd i'r Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd. Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rhai nad oes modd i'r Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae cronfeydd wrth gefn yn y categori yma'n cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn) a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru sydd i'w gweld yn adran 'Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau' y Datganiad ynglŷn â Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

## Y Fantolen ar 31 Mawrth 2024

| 31/03/2023 | | | | 31/03/2024 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **£'000** | | | ***Nodwch*** | **£'000** | **£'000** |
| | **Asedau** | Eiddo, Gwaith ac Offer: | *6.0* | | |
| 812,656 | **Tymor** | Tir Arall ac Adeiladau | | 876,828 | |
| 551,824 | **Hir** | Isadeiledd | | 589,657 | |
| 15,719 | | Peiriannau, Cerbydau ac Offer | | 13,301 | |
| 5,055 | | Asedau ac Asedion Cymunedol | | 4,831 | |
| 37,150 | | Asedau yn cael eu hadeiladu | | 61,558 | |
| 145 | | Asedau Treftadaeth | | 145 | |
| 13,009 | | Eiddo Buddsoddi | | 13,009 | |
| 1,599 | | Ased Cynllun Pensiwn Budd Diffiniedig | | 1,349 | |
| 4,516 | | Asedau Anniriaethol Tymor Hir | | 5,553 | |
| 3,492 | | Buddsoddiadau'r Tymor Hir | *7.1* | 5,079 | |
| 3,045 | | Buddsoddiad mewn Is-gwmnïau | | 3,027 | |
| 5,819 | | Dyledwyr Tymor Hir | | 5,209 | |
| **1,454,029** | | **CYFANSWM ASEDAU TYMOR HIR** | | | **1,579,546** |
| | | | | | |
| 162,071 | **Cyfredol** | Buddsoddiadau Tymor Byr | *7.1* | 66,405 | |
| 664 | **Asedau** | Asedau sy wedi'u Dal i'w Gwerthu | | 2,256 | |
| 1,380 | | Rhestrau Eiddo | | 1,239 | |
| 119,240 | | Dyledwyr Tymor Byr | *8.0* | 120,437 | |
| 0 | | Arian Parod a Chyfwerth | *9.0* | 0 | |
| **283,355** | | **CYFANSWM YR ASEDAU PRESENNOL** | | | **190,337** |
| | | | | | |
| (14,840) | **Cyfredol** | Arian Parod a Chyfwerth | *9.0* | (2,284) | |
| (13,604) | | Benthycion Tymor Byr | *7.1* | (13,585) | |
| (1,457) | **Rhwymedi** | Darpariaethau Tymor Byr | *11.0* | (1,501) | |
| (132,473) | **gaethau** | Credydwyr Tymor Byr | *10.0* | (166,442) | |
| **(162,374)** | | **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | **(183,812)** |
| | | | | | |
| (42,861) | | Credydwyr Tymor Hir | *10.0* | (6,151) | |
| (3,019) | **Rhwymedi** | Darpariaethau Tymor Hir | *11.0* | (7,011) | |
| (333,709) | **gaethau** | Benthyca Tymor Hir | *7.1* | (272,057) | |
| (129,159) | **Tymor** | Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | *12.0* | (9,929) | |
| (123) | **Hir** | Cyfrif Asedau Rhoddedig Tymor Hir | | (123) | |
| **(508,871)** | | **RHWYMEDIGAETHAU TYMOR HIR ERAILL** | | | **(295,271)** |
| | | | | | |
| **1,066,139** | **ASEDAU NET** | | | | **1,290,800** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10,240 | **Cronfeydd mae Modd eu Defnyddio** | Balans Cronfa'r Cyngor | *13.1* | 10,240 | |
| | | Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: | *13.2* | | |
| 105,125 | | Cyfalaf a Buddsoddiad / Isadeiledd | *13.2* | 119,532 | |
| 94,349 | | Cronfeydd Eraill sy'n Gysylltiedig â Refeniw | *13.2* | 78,495 | |
| 15,248 | | Cronfa Wrth Gefn Ysgolion Dirprwyedig | *13.3* | 7,820 | |
| 10,658 | | Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu defnydd | *13.4* | 11,891 | |
| 33,541 | | Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig | *13.5* | 26,862 | |
| 237 | | Cronfa wrth Gefn Yswiriant MGCC | | 163 | |
| **269,398** | | **CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN Y MAE MODD EU** | | | **255,003** |
| | | | | | |
| 272,428 | **Cronfeydd Wrth Gefn Does dim modd eu defnyddio** | Cronfa Adbrisio | *14.1* | 305,825 | |
| 665,876 | | Cyfrif Addasu Cyfalaf | *14.2* | 748,416 | |
| (5,214) | | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | *14.3* | (5,116) | |
| (126,951) | | Cronfa Bensiynau | *14.4* | (7,961) | |
| (9,398) | | Digolledu Cronnus Tymor Byr<br>Cyfrif Absenoldeb Cronedig | | (5,367) | |
| **796,741** | | **CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN DOES DIM MODD** | | | **1,035,797** |
| | | | | | |
| **1,066,139** | **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | | | **1,290,800** |

**Datganiad Llif Arian**

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerth y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerth trwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o'r graddau y caiff gweithrediadau'r Cyngor eu hariannu trwy incwm o drethi neu grantiau, neu gan y rhai sy'n derbyn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y mae all-lif arian wedi ei wneud ar gyfer adnoddau sy wedi'u bwriadu i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae llif arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragfynegi hawliadau ar lif arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) i'r Cyngor.

# Datganiad Llif Arian 2023/24

| 2022/23 | | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | | ***Nodwch:*** | **£'000** | **£'000** |
| | | | | |
| 347 | (Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau | | (57,866) | |
| (195,930) | Addasiadau i (Warged) neu Ddiffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau | *15.0* | (65,621) | |
| 87,693 | Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd wedi'u Cynnwys yn y (Gwarged) neu Diffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n Buddsoddi ac yn | *16.0* | 97,835 | |
| **(107,890)** | **Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu** | | | **(25,652)** |
| | | | | |
| 74,075 | Gweithgareddau Buddsoddi | *18.0* | (23,437) | |
| 15,956 | Gweithgareddau Ariannu | *19.0* | 61,645 | 38,208 |
| **(17,860)** | **Cynnydd neu Leihad Net mewn Arian Parod a Chyfwerth** | | | **12,556** |
| | | | | |
| 3,020 | Arian Parod a Chyfwerth ar ddechrau'r Cyfnod Adrodd | *9.0* | | (14,840) |
| **(14,840)** | **Arian Parod a Chyfwerth ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd** | *9.0* | | **(2,284)** |

**Ddadansoddiad Gwariant a Chyllid**

Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn dwyn ynghyd cyflawniad y Cyngor sy'n cael ei adrodd ar sail gwariant wedi'i fesur yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol gyda chostau diffiniedig statudol i Gronfa'r Cyngor.

Mae arferion cyfrifo priodol yn mesur yr adnoddau sy wedi'u cynhyrchu a'u defnyddio yn ystod y flwyddyn gan gynnwys pethau fel defnydd eiddo (dibrisiant) a gwerth y buddion pensiwn sy wedi'u hennill gan y gweithwyr. Mae darpariaethau statudol yn pennu faint o wariant y Cyngor y mae'n rhaid ei fodloni trwy dreth y cyngor bob blwyddyn.

Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn;

- dangos cymhariaeth ar gyfer pob un o wasanaethau'r Cyngor o'r adnoddau net wedi'u cymhwyso a'r tâl net yn erbyn Treth y Cyngor, a
- rhoi cyfle i egluro gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddau.

Mae'r dadansoddiad yma yn hyrwyddo atebolrwydd a stiwardiaeth trwy ddarparu cyswllt uniongyrchol â phroses gwneud penderfyniadau blynyddol y Cyngor a'i gyllideb h.y. Cronfa'r Cyngor. Mae'n dilyn fframwaith cyflawniad y Cyngor.

## Datganiad Dadansoddi Gwariant a Chyllid am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|
| | **Incwm a Gwariant i'w godi ar Gronfa'r Cyngor** | **Addasiadau rhwng y Sail Cyllid a Chyfrifyddu** | **Gwariant Net ar gyfer y Symiau Cyfwerth ar gyfer CI&ES** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwasanaethau Ffyniant, Datblygiant a Rheng-flaen Gwasanaethau | 63,965 | 36,446 | 100,411 |
| Prif Weithredwr | 34,814 | 18,218 | 53,032 |
| Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | 207,767 | 29,883 | 237,650 |
| Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i | 181,422 | 17,087 | 198,509 |
| Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan | 80,634 | (54,512) | 26,122 |
| Cyd-bwyllgorau | 0 | 259 | 259 |
| **Costau'r Gwasanaethau** | **568,602** | **47,381** | **615,983** |
| | | | |
| **Incwm a gwariant arall** | (568,550) | (42,597) | (611,147) |
| | | | |
| **(Costau sy'n Weddill) neu Ddiffyg Ariannol** | **52** | **4,784** | **4,836** |
| Cronfa'r Cyngor yn agor ar 31 Mawrth 2022 | (10,292) | | |
| Ar ôl didynnu'r (Gweddill) Diffyg yng Nghronfa'r Cyngor yn | 52 | | |
| **Cronfa'r Cyngor yn cau ar 31 Mawrth 2023** | **(10,240)** | | |

## Datganiad Dadansoddi Gwariant a Chyllid am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

| | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|
| | **Incwm a Gwariant i'w godi ar Gronfa'r Cyngor** | **Addasiadau rhwng y Sail Cyllid a Chyfrifyddu** | **Gwariant Net ar gyfer y Symiau Cyfwerth ar gyfer CI&ES** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen | 79,293 | 26,275 | 105,568 |
| Prif Weithredwr | 27,627 | 24,565 | 52,192 |
| Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | 222,702 | 13,934 | 236,636 |
| Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i | 203,871 | (9,636) | 194,235 |
| Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan | 78,567 | (53,264) | 25,303 |
| Cyd-bwyllgorau | 0 | 60 | 60 |
| **Costau'r Gwasanaethau** | **612,060** | **1,934** | **613,994** |
| | | | |
| **Incwm a gwariant arall** | (612,060) | (59,800) | (671,860) |
| | | | |
| **(Costau sy'n Weddill) neu Ddiffyg Ariannol** | **0** | **(57,866)** | **(57,866)** |
| Cronfa'r Cyngor yn agor ar 31 Mawrth 2023 | (10,240) | | |
| Ar ôl didynnu'r (Gweddill) Diffyg yng Nghronfa'r Cyngor yn Blwyddyn | 2,104 | | |
| Trosglwyddiadau i neu (o) Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | (2,104) | | |
| **Cronfa'r Cyngor yn cau ar 31 Mawrth 2024** | **(10,240)** | | |

**Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol Craidd**

## 1.0 Polisïau Cyfrifo Materol

### 1.1 Croniadau Gwariant ac Incwm

Mae cyfrifon y Cyngor wedi'u paratoi ar sail croniad incwm a gwariant yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn sicrhau bod gweithgaredd yn cael ei gyfrif yn ystod y flwyddyn y bydd yn digwydd a ddim pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Mae refeniw o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gydnabod pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo risgiau a gwobrwyon sylweddol nwyddau, neu'n darparu'r gwasanaethau i'r prynwr, ac mae'n debyg y bydd y buddion economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Cyngor.

Mae cyflenwadau yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio. Pan fo dyddiad y Fantolen yn disgyn rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, lle maen nhw'n arwyddocaol, byddan nhw'n cael eu nodi fel rhestr eiddo ar y Fantolen.

Caiff treuliau mewn perthynas â gwasanaethau wedi'u derbyn (gan gynnwys gwasanaethau sy wedi'u darparu gan weithwyr) eu nodi'n wariant pan fydd y gwasanaethau yn cael eu derbyn yn hytrach na phan fydd y taliadau'n cael eu gwneud.

Mae'r llog sy wedi'i dderbyn ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn y drefn honno fel incwm a gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff hyn ei wneud ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian sy wedi'i bennu gan y contract. Mae addasiadau statudol sy'n ymwneud â diddordeb yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae trafodion cyfalaf hefyd yn cael eu cofnodi ar sail cronni, fel sy wedi'i ragnodi gan y Cod Ymarfer ar Gadw Cofnodion Awdurdodau Lleol.

### 1.2 Arian Parod a Chyfwerth

Mae arian parod a chyfwerth sydd ar gael i'w ddefnyddio ar unwaith gan y Cyngor. Caiff ei ystyried bod eitemau o'r fath yn falansau arian sy wedi'u cadw yng nghyfrifon banc y Cyngor (ar ôl didynnu sieciau heb eu cyflwyno), unrhyw falans banc wedi'i gorgodi a balansau arian mân.

Chaiff buddsoddiadau byrdymor ddim eu hystyried yn arian parod neu gyfwerth gan fod y rhain ddim ar gael yn rhwydd heb orfodi cosbau.

### 1.3 Ymrwymiadau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth amodol yn eitem gwariant posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol a chaiff ei bodolaeth ei chadarnhau yn unig gan fodolaeth un neu ragor o achlysuron ansicr yn y dyfodol sy ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y sefydliad.

Dydy rhwymedigaethau amodol o'r fath ddim yn cael eu hadlewyrchu yn y Darpariaethau yn y Fantolen oherwydd efallai fydd hi ddim yn debygol y bydd angen all-lif adnoddau neu bydd dim modd mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Caiff rhwymedigaethau amodol perthnasol eu datgelu yn y Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol Craidd.

## 1.4 Buddion Gweithwyr

Caiff yr holl gostau sy'n ymwneud â buddion gweithwyr eu cyfrifo ar sail cronni.

### Buddiannau Terfynu

Mae'r symiau hyn yn daladwy gan y Cyngor o ganlyniad i benderfynu terfynu cyflogaeth unigolyn cyn y dyddiad ymddeol arferol, neu benderfyniad gweithiwr i dderbyn diswyddo gwirfoddol. Caiff costau o'r fath eu codi ar sail croniadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fydd terfyniadau'n cynnwys gwella pensiynau, mae darpariaethau statudol yn mynnu bod tâl yn cael ei godi ar Gronfa'r Cyngor ar gyfer y swm sy'n daladwy gan y Cyngor. Yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae rhaid neilltuo arian o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn, ac iddi, i ddileu rhagamcanion ar gyfer gwelliannau pensiwn a nodi'r symiau sydd wedi'u talu, neu sy'n daladwy, yn eu lle.

### Pensiynau

Mae’r Cyngor yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn ar wahân sy’n bodloni anghenion gweithwyr mewn gwasanaethau penodol:

Athrawon - Mae hwn yn gynllun heb ei ariannu sy'n cael ei weinyddu gan Bensiynau Athrawon ar ran yr Adran Addysg. Caiff cyfraddau cyfraniadau eu gosod ar sail cronfa dybiannol. Er bod hwn yn Gynllun Budd Diffiniedig, does dim modd i Bensiynau Athrawon nodi cyfran y Cyngor o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol ac, felly, mae'r Cyngor wedi cyfrif am ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe bai'n Gynllun Cyfraniad Diffiniedig.

Gweithwyr eraill - mae CBS Rhondda Cynon Taf yn gweinyddu cronfa ar ran gweithwyr o dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, y mae cyfraddau cyfraniad yn cael eu pennu gan actiwari'r Gronfa yn seiliedig ar brisiadau actiwaraidd tair blynedd. O dan y rheoliadau, caiff cyfraddau cyfraniad eu gosod er mwyn arwain at gyllido'n llawn atebolrwydd cyffredinol y Gronfa dros amser. Caiff y Cynllun Llywodraeth Leol ei gyfrifo fel Cynllun Budd Diffiniedig.

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf y mae modd eu priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd - h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a fydd yn cael eu gwneud mewn perthynas â buddion ymddeol sy wedi'u hennill

hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, ac amcangyfrifon enillion ar gyfer gweithwyr presennol.

- Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 4.8% yn 2023/24 (4.7% yn 2022/23).

- Mae asedau'r gronfa bensiwn y mae modd eu priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar eu gwerth teg:

| | | |
|---|---|---|
| Gwarannau Dyfynedig | – | Pris Cynnig Cyfredol |
| Gwarannau Unedol | – | Pris Cynnig Cyfredol |
| Eiddo | – | Pris y Farchnad |

- Caiff y newid yn yr ased neu rwymedigaeth pensiwn net ei ddadansoddi fel a ganlyn:

  - Cost Gwasanaeth Cyfredol - y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd gwasanaeth a gafodd eu hennill eleni. Mae'r rhain wedi'u dyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio gyda hwy ynghyd â threuliau gweinyddol.
  - Cost Gwasanaeth yn y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau sy'n deillio o benderfyniadau yn ystod y flwyddyn gyfredol y mae eu heffaith yn ymwneud â blynyddoedd gwasanaeth a gafodd eu hennill mewn blynyddoedd cynt. Mae'r rhain wedi'u debydu i'r (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  - Cost Llog - y cynnydd disgwyliedig yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn wrth iddyn nhw symud blwyddyn yn nes at gael eu talu. Mae hyn wedi'i ddebydu i adran Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  - Dychweliad Disgwyliedig ar Asedau - y dychweliad buddsoddi blynyddol ar asedau'r gronfa y mae modd ei briodoli i'r Cyngor yn seiliedig ar gyfartaledd y dychweliad hirdymor disgwyliedig. Mae hyn wedi'i gredydu i adran Icwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  - Enillion a Cholledion Actiwaraidd - newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiwn net sy'n codi oherwydd bod digwyddiadau ddim wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a gafodd eu gwneud yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau ariannol, demograffig neu brofiad. Mae'r rhain wedi'u debydu neu eu credydu i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn.
  - Cyfraniadau wedi'u Talu i'r Gronfa Bensiwn - arian parod fel cyfraniadau cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; heb ei gyfrif fel treuliau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  - Budd-daliadau Net a Dalwyd – lleihau'r rhwymedigaeth.

Mewn perthynas â budd-daliadau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn mynnu bod Balans Cronfa'r Cyngor talu'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, ddim y swm sy wedi'i gyfrifo yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod neilltuadau arian i'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau ac oddi yno. Mae hyn yn cael ei wneud i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol ac yn eu disodli â'r arian

sy wedi'i dalu i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn, felly yn mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na bod buddion yn cael eu hennill gan weithwyr.

**Buddion Dewisol**

Mae modd i'r Cyngor wneud dyfarniadau dewisol o fuddion ymddeol os yw ymddeoliadau cynnar yn digwydd. Mae unrhyw rwymedigaethau o'r fath sy'n codi yn cael eu cronni ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad.

**Absenoldeb Wedi'i Gronni**

Mae'r Cyngor yn cronni ar gyfer gwyliau staff sy wedi'u hennill ond sydd heb eu cymryd ym mhob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau i liniaru effaith y tâl yma ar Gynghorau. Mae'r Cyngor yma wedi manteisio ar y rheoliadau a chodi'r costau ychwanegol i'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig Byrdymor wedi'u Cydadfer mewn Cronfeydd Wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio.

## 1.5 <u>Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd</u>

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yw'r rhai ffafriol ac anffafriol sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae modd nodi dau fath o ddigwyddiad:

a) y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd (digwyddiadau addasu a fydd yn cael eu cydnabod yn y datganiadau ariannol);
b) y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd (digwyddiadau sy ddim yn addasu sydd heb gael eu hadlewyrchu mewn datganiadau cyfrifyddu ond, pan fo'n berthnasol, bydd datgeliad yn cael ei wneud yn y Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol Craidd).

## 1.6 <u>Offerynnau Ariannol</u>

Mae Offerynnau Ariannol yn cynnwys Rhwymedigaethau Ariannol ac Asedau Ariannol.

**Rhwymedigaethau Ariannol**

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu gweithredu ar gost amorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm gweithredu'r atebolrwydd, wedi'i luosi gan y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Os oes gan fenthyciad un gyfradd llog ar hyd ei dymor, y swm sy'n cael ei gyflwyno yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n ddyledus, a'r llog sy'n cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y cytundeb benthyciad. Lle mae gan fenthyciadau gyfradd sy'n is yn y blynyddoedd cychwynnol, mae'r tâl cyfradd llog effeithiol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn "llyfnhau" y gwahaniaeth yn y gyfradd llog. Mae'r gwahaniaeth rhwng y tâl

cyfradd llog effeithiol a'r gwir log sy wedi'i dalu yn cael ei addasu yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Yn achos y rhan fwyaf o fenthyciadau, mae hyn yn golygu mai'r swm sy'n cael ei gyflwyno yn y Fantolen yw'r prifswm dyledus sy'n ad-daladwy a'r llog sy wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn unol â'r cytundeb benthyciad.

Mae enillion (gostyngiadau) a cholledion (premiymau) ar ail-brynu neu setliad cynnar y benthyciad yn cael eu credydu / eu debydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ym mlwyddyn yr ail-brynu / setliad. Serch hynny, pan gaiff ei ystyried bod ail-brynu / setliad cynnar yn addasiad o offerynnau presennol, mae'r disgowntiau / premiymau yn cael eu hymgorffori i werth yr offeryn ac yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad trwy addasiad i'r gyfradd llog effeithiol.

Pan fo premiymau neu ddisgowntiau wedi'u cymhwyso i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei rhannu dros y blynyddoedd i ddod yn gyfartal ag oes y benthyciad newydd neu'r benthyciad cyfnewid.

**Asedau Ariannol**

Dosberthir Asedau Ariannol ar sail dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae tri phrif ddosbarth o asedau ariannol wedi'u mesur yn ôl:

- Cost amorteiddiedig;
- Gwerth teg trwy elw neu golled; a
- Gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall.

Model busnes CBS Rhondda Cynon Taf yw dal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Felly dosberthir asedau ariannol ar gost amorteiddiedig.

Mae Benthyciadau a Symiau i'w Derbyn yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth teg ac yna'n cael eu gweithredu ar gost wedi'i amorteiddio. Mae Llog i'w Derbyn ac Incwm Tebyg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar swm gweithredu'r ased sy'n cael ei luosi gan y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Mae hyn yn golygu mai'r gwerth yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n weddill yn ogystal ag unrhyw incwm cronedig, ac mae'r incwm sy wedi'i gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar y gyfradd sy wedi'i dyfynnu yn y cytundeb benthyciad.

Mae'r llog sy'n ddyledus ond heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn wedi'i gategoreiddio yn y Fantolen fel ased neu rwymedigaeth gyfredol. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r ased neu'r rhwymedigaeth ariannol y mae'n ymwneud ag ef yn offeryn hirdymor.

Mae angen cyfrifiad ar gyfer "colled credyd disgwyliedig" ar asedau ariannol a ddelir ar gostau amorteiddiedig, ar sail 12 mis naill ai neu gydol oes. Mae colledion amharedig yn cael eu cyfrifo i adlewyrchu'r disgwyliad efallai na fydd llif arian yn y dyfodol yn digwydd oherwydd y gallai'r benthyciwr fethu â chyflawni ei rwymedigaethau. Lle mae risg wedi cynyddu'n sylweddol ers i

ased gael ei gydnabod yn wreiddiol, caiff colledion eu hasesu ar sail oes. Lle nad yw'r risg wedi cynyddu'n sylweddol neu'n parhau'n isel, caiff colledion eu hasesu ar sail colledion disgwyliedig dros 12 mis.

## 1.7 Asedau Anniriaethol

Asedau anniriaethol yw'r Asedau Hirdymor hynny heb sylwedd ffisegol ond mae modd eu hadnabod gan fynediad at fuddion economaidd yn y dyfodol sy wedi'u rheoli gan y Cyngor trwy warchodaeth neu hawliau cyfreithiol.

Caiff meddalwedd a thrwyddedau eu cyfalafu ar gost ac maen nhw'n cael eu hamorteiddio ar hyd eu hoes economaidd, sy'n cael ei hadolygu ar ddiwedd pob cyfnod adrodd a'i diwygio os oes angen.

Mae ased yn cael ei brofi am amhariad pryd bynnag y mae arwydd bod amhariad posib ar yr ased. Caiff unrhyw golledion eu nodi i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n deillio o waredu neu adael ased anniriaethol yn cael ei adlewyrchu yn yr adran Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fydd gwariant ar asedau anniriaethol yn addas i'w ystyried yn wariant cyfalaf at ddibenion statudol, ni fydd caniatâd i amorteiddiad, na cholledion amhariad nac enillion a cholledion gwaredu gael effaith ar Falansau Cronfa'r Cyngor. Caiff y rhain eu gwrthdroi yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

## 1.8 Prydlesi

Mae p'un a yw prydles yn gyllid neu'n weithredol yn dibynnu ar sylwedd y trafodiad yn hytrach na'r ffurf gyfreithiol.

Caiff prydlesi eu hadolygu ar y cychwyn a'u dosbarthu fel cyllid neu'u gweithredu trwy adolygu trefniadau fel:

- Trosglwyddo perchnogaeth yr ased ar ddiwedd y brydles.
- Opsiwn i brynu ased am bris is na gwerth teg.
- Cyfnod y brydles ar gyfer rhan fawr o oes economaidd yr ased.
- Gwerth presennol isafswm taliadau prydles bron cyfwerth â gwerth teg yr ased
- Mae asedau ar brydles yn arbenigol a dim ond y prydlesai sy'n cael eu defnyddio heb addasiadau mawr.

Caiff prydlesi tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân at ddiben dosbarthiad prydles.

### Prydlesi Cyllid

Mae prydles ariannol yn brydles sy'n trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth ased i'r prydlesai.

Pan fo'r Cyngor yn brydlesai, caiff ased a rhwymedigaeth ei gydnabod ar ddechrau'r brydles. Mae'r ased wedyn yn cael ei ddibrisio a'i ailbrisio fel petai'n eiddo cyfreithiol i'r Cyngor. Mae'r rhwymedigaeth yn lleihau wrth i daliadau'r brydles gael eu gwneud.

Pan fo'r Cyngor yn brydlesydd, caiff y taliad prydles sy'n cael ei dderbyn ei gydnabod fel ad-daliad o'r prifswm gydag elfen llog y taliad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw unrhyw ased yn cael ei gydnabod.

**Prydlesi Gweithredol**

Caiff unrhyw brydles heblaw Prydles Ariannol ei ystyried yn Brydles Weithredol.

Pan fo'r Cyngor yn brydlesai, mae taliadau prydles yn cael eu cydnabod fel traul yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail unionsyth oni bai fod sail systematig arall yn cynrychioli'n well y buddion sy'n cael eu derbyn

Lle mae'r Cyngor yn brydlesydd, dylai'r incwm gael ei gydnabod ar sail unionsyth oni bai fod sail systematig arall yn cynrychioli'n well y manteision sy'n cael eu derbyn. Bydd tir ac adeiladau eraill o dan brydles weithredol yn destun dibrisiad yn yr un modd ag asedau eraill o fewn yr un categori.

## 1.9 <u>Gwasanaethau Cymorth a Gorbenion</u>

Rhoddir cyfrif am gostau gorbenion a gwasanaethau cymorth yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer atebolrwydd a chyflawniad ariannol.

## 1.10 <u>Eiddo, Gwaith ac Offer</u>

Mae asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, ar gyfer eu rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol, ac y mae disgwyl iddyn nhw gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dosbarthu fel Eiddo, Gwaith ac Offer. Caiff dibrisiant ei godi ar sail unionsyth ar y rhan fwyaf o'r asedau diriaethol sydd ag oes defnyddiol cyfyngedig, ac eithrio tir sydd ddim yn ddibrisiadwy. Mae oes yr holl asedau wedi'i nodi ar sail unigol.

### 1.10.1 Cydnabyddiaeth

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Gwaith ac Offer ei gyfalafu ar sail cronni, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y buddion economaidd neu'r potensial gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cyngor, ac mae modd mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi de-minimis gwerth £10,000 ar gyfer cydnabod gwariant o'r fath fel cyfalaf. Mae gwariant ar asedau dyw'r Cyngor ddim yn berchen arnyn nhw, ond lle mae'n derbyn buddion parhaus, hefyd wedi'i gyfalafu ar sail croniadau. Er ei fod wedi'i gyfalafu, caiff y gwariant yma ei amorteiddio yn ystod y flwyddyn y mae'n digwydd.

Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi de-minimis ar gyfer cofnodi asedau yn y gofrestr asedau. Mae lefelau de-minimis ar waith fel a ganlyn:

| Math o Ased | £'000 |
|---|---|
| Tir ac Adeiladau | 20 |
| Cerbydau | 10 |
| Peiriannau a Chyfarpar | 10 |
| Isadeiledd | 20 |
| Asedau Cymunedol | Dim |

### 1.10.2 Mesuriad

Caiff asedau eu mesur i ddechrau yn ôl cost, gan gynnwys:

- Y pris prynu
- Unrhyw gostau y mae modd eu priodoli i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol fel bod modd iddo weithredu yn y modd y roedd rheolwyr yn bwriadu.
- Yr amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle lle roedd wedi'i leoli

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca.

Mae cost asedau sy wedi'u caffael trwy gyfrwng heblaw pryniant yn cael ei ystyried yn werth teg yr asedau, oni bai bod dim sylwedd masnachol gan y caffaeliad (h.y. fydd hyn ddim yn arwain at amrywiad yn llifoedd arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, lle caiff ased ei gaffael trwy gyfnewid, cost y caffael yw swm gweithredu'r ased sy wedi'i roi gan y Cyngor.

Caiff gwerth asedau Hirdymor Diriaethol ei bennu ar y sail argymhellion CIPFA ac yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Yn gyffredinol, caiff asedau Eiddo, Gwaith ac Offer eu prisio ar sail gwerth eu defnydd presennol (EUV) sy'n cael ei ystyried yn "werth cyfredol". Mae eitemau arbenigol (e.e. ysgolion) yn cael eu prisio ar sail cost amnewid dibrisiedig (DRC). Mae'r dull hwn o brisio yn cyfrifo cost codi adeiladau a strwythurau cyfatebol modern, a'u dibrisio i gyfrif am oedran ac oes economaidd yn y dyfodol. Enw'r cyfrifiad cost yma yw Prisiad Cyfwerth Modern (MEV). Caiff eiddo buddsoddi eu prisio ar sail gwerth teg. Mae asedau seilwaith yn cael eu cynnwys gan ddefnyddio cost hanesyddol, a'u haddasu i adlewyrchu dibrisiant. Caiff ei ystyried bod gan heolydd wedi'u mabwysiadu, sy wedi'u hadeiladu gan ddatblygwyr preifat gost hanesyddol i'r Cyngor o sero ac felly dydyn nhw ddim yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Gyfrifon.

Lle dydy asedau ddim yn cael eu defnyddio ond ddim yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Asedau a Gaiff eu Dal i'w Gwerthu, yna maen nhw'n cael eu hystyried yn Asedau Gwarged yng nghategorïau Eiddo, Gwaith ac Offer a Thir ac Adeiladau Eraill. Caiff Asedau Gwarged eu prisio ar werth teg. Gwerth teg yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn rhwng cyfranogwyr parod yn y farchnad. Mae angen ystyried defnydd gorau ac uchaf yr ased. Mae'r mewnbynnau i'r technegau prisio mewn perthynas â'r asedau hyn wedi'u categoreiddio yn ôl y lefelau hierarchaeth canlynol:

Lefel 1 - prisiau wedi'u dyfynnu mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer yr un asedau neu rwymedigaethau mae modd i'r Cyngor gael mynediad atyn nhw ar y dyddiad mesur.

Lefel 2 - mewnbwn y mae modd sylwi arno heblaw prisiau wedi'u dyfynnu ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth. Er enghraifft, amodau'r farchnad; prisiau gwerthu diweddar.

Lefel 3 - mewnbwn nad oes modd sylwi arno, er enghraifft, tybiaethau ynghylch twf rhent; cyfraddau disgownt, ac ati

Mae mesur gwerth teg yn gwahaniaethu rhwng mesuriadau sy'n digwydd yn rheolaidd h.y. ar ddiwedd pob cyfnod, er enghraifft asedau dros ben, a'r rhai sy ddim yn cael eu mesur yn rheolaidd ar amgylchiadau penodol, er enghraifft asedau a gaiff eu dal i'w gwerthu.

Yn y cyfrifon mae tua 63 o Asedau Gwarged gyda gwerth teg cylchol o £4.8 miliwn. Caiff yr holl asedau eu prisio ar fewnbynnau lefel 2.

Caiff asedau cymunedol eu prisio ar sail cost hanesyddol. Does gan y rhain ddim oes ddefnyddiol y mae modd ei hadnabod ac maen nhw'n asedau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal yn barhaus. Mae enghreifftiau o asedau cymunedol yn cynnwys parciau a chofebion.

Caiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu prisio yn ôl cost hanesyddol nes iddyn nhw ddod yn weithredol. Pan fyddan nhw'n dod yn weithredol, maen nhw'n cael eu hailbrisio ar sail berthnasol.

Mae Asedau Treftadaeth yn cael eu cydnabod yn yr un modd os ydynt yn asedau anweithredol materol sy'n cael eu cynnal yn unig at ddibenion diwylliannol neu ddibenion ennill gwybodaeth. Mae cost neu werth y farchnad yr asedau yma yn cael eu cydnabod, ac mae gwerth yr asedau'n cael eu hadolygu am amhariad ond dydyn nhw ddim yn cael eu dibrisio.

Lle nad oes tystiolaeth o werth cyfredol yn y farchnad oherwydd natur arbenigol ased, caiff cost amnewid dibrisiedig (DRC) ei defnyddio fel amcangyfrif o'r gwerth cyfredol. Lle mae asedau sy ddim yn eiddo sydd ag oes defnyddiol fyr neu werthoedd isel (neu'r ddau), caiff sail cost hanesyddol dibrisiedig ei defnyddio fel procsi am werth cyfredol.

Caiff asedau sy wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar y gwerth presennol eu hailbrisio'n ddigonol i sicrhau nad yw eu swm cario yn sylweddol wahanol i'w gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn, ond o leiaf bob pum mlynedd. Lle mae prisiau yn cynyddu, caiff credydau eu gwneud i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i gydnabod enillion sy heb eu gwireddu. Mae'n bosibl i enillion gael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr lle maen nhw'n codi o ganlyniad i wrthdroi colled a gafodd ei godi yn flaenorol ar wasanaeth.

Lle caiff gostyngiadau mewn gwerth eu nodi, byddan nhw'n cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

- Os oes balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, caiff swm gweithredu'r ased ei nodi yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- Lle does dim balans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu falans annigonol, caiff swm gweithredu'r ased ei nodi yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys enillion ailbrisio sy wedi'u cydnabod ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad gweithredu ffurfiol y gronfa. Mae enillion sydd wedi codi cyn y dyddiad dan sylw wedi cael eu cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

### 1.10.3 Amhariad

Caiff asedau eu hasesu trwy gydol y flwyddyn i ystyried a oes unrhyw arwydd bod amhariad ar ased. Lle mae arwyddion yn bodoli ac mae unrhyw wahaniaethau posibl yn cael eu hamcangyfrif yn rhai perthnasol, mae'r swm y mae modd ei adfer o'r ased yn cael ei amcangyfrif ac, os yw hyn yn llai na swm gweithredu'r ased, caiff colled amhariad am y diffyg ei chydnabod.

Lle mae colledion amhariad wedi'u nodi, maen nhw'n cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

- Os oes balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, caiff swm gweithredu'r ased ei nodi yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- Lle does dim balans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu falans annigonol, caiff swm gweithredu'r ased ei nodi yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei wrthdroi wedyn, mae'r gwrthdroad yn cael ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi pe bai'r golled heb ei chydnabod.

### 1.10.4 Dibrisiant

Caiff dibrisiant ei godi ar sail llinell syth ar y rhan fwyaf o eiddo, gwaith ac offer. Mae oes yr holl asedau wedi'i nodi ar sail unigol.

Caiff eithriadau eu gwneud ar gyfer:

- Asedau Treftadaeth.
- Asedau heb oes derfynol ddefnyddiol mae modd ei phennu megis tir rhydd-ddaliol.
- Asedau sy ddim ar gael eto i'w defnyddio h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu ac asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

Pan fo gan eitem o Eiddo, Gwaith ac Offer gydrannau mawr y mae eu costau'n sylweddol o'u cymharu â chyfanswm cost yr eitem, mae'r cydrannau'n cael eu dibrisio ar wahân.

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Bydd y swm yma yn hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant y gwerth cyfredol sy'n cael ei godi ar asedau, a'r dibrisiant a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol,

Caiff dibrisiant ei gyfrif yn ystod blwyddyn y caffaeliad ac nid yn ystod y flwyddyn y caiff yr ased ei waredu.

### 1.10.5 Gwarediadau ac Asedau a Gaiff eu Dal i'w Gwerthu

Pan fydd hi'n debygol y bydd swm gweithredu ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ei ddefnydd parhaus, caiff ei ail-ddosbarthu fel Ased a Gaiff ei Ddal i'w Werthu. Caiff yr asedau hyn eu mesur gan ddefnyddio'r gwerth isaf a gafodd ei roi iddyn nhw pan gafodd ei gytuno y bydden nhw'n cael eu gwerthu, a gwerth teg ar ôl didynnu'r costau gwerthu.

Mae modd rhannu'r prisiad yn y fantolen fel a ganlyn:

| | **£'000** |
|---|---:|
| Gwerth teg | 2,255 |
| Gwerth cario | 1 |
| **Cyfanswm Gwerth yn y Fantoler** | **2,256** |

Caiff y gwerth teg anghylchol ei fesur gan ddefnyddio lefel 2 yn yr hierarchaeth mewnbwn (edrychwch ar nodyn
1.10.2 am esboniad o'r lefelau). Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg ar ôl didynnu costau gwerthu, caiff y golled ei nodi yn y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond enillion mewn gwerth teg hyd at swm unrhyw golledion blaenorol sy wedi'u cydnabod yn y (Gwarged) neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau a gaiff eu cydnabod. Fydd dim tâl yn cael ei godi ar ddibrisiad ar Asedau a gaiff eu Dal i'w Gwerthu. Os na fydd asedau bellach yn bodloni'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau a gaiff eu Dal i'w Gwerthu, byddan nhw'n cael eu hailddosbarthu yn asedau hirdymor a'u prisio gan ddefnyddio eu swm gweithredu isaf cyn iddyn nhw gael eu dosbarthu yn Asedau a gaiff eu Dal i'w Gwerthu (wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddio neu ailbrisio), a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Chaiff asedau sydd i'w gadael neu y bydd y Cyngor yn rhoi'r gorau iddyn nhw ddim eu hailddosbarthu yn Asedau a gaiff eu Dal i'w Gwerthu. Y meini prawf ar gyfer cydnabod asedau fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu yw:

- Eu bod ar gael i'w gwerthu ar unwaith yn y cyflwr presennol.
- Bod eu gwerthu yn debygol iawn.
- Eu bod wedi'u farchnata'n weithredol.
- Bod disgwyl cwblhau'r gwerthiant o fewn 12 mis.

Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddadgomisiynu, caiff swm yr ased yn y Fantolen (boed Eiddo, Gwaith ac Offer neu Asedau a gaiff eu Dal i'w Gwerthu) ei ddileu i'r adran Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os ydyn nhw'n digwydd) wedi'u credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar waredu (h.y. wedi'u rhyddhau yn erbyn gwerth gweithredu'r ased ar adeg cael gwared arno). Caiff unrhyw enillion ailbrisio wedi'u cronni ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Os yw'r symiau sy'n cael eu derbyn ar gyfer gwaredu yn uwch na £10 mil, byddan nhw wedi'u categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'n ofynnol i dderbyniadau gael eu credydu i'r Gronfa

Derbyniadau Cyfalaf mae Modd eu Defnyddio, ac yna mae modd eu defnyddio ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf). Caiff derbyniadau eu neilltuo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf y mae Modd eu Defnyddio gan Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau yn dâl yn erbyn Treth y Cyngor, gan fod trefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf yn darparu'n llawn ar gyfer cost asedau hirdymor. Caiff symiau eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

## 1.11 Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn ar gyfer dibenion polisi yn y dyfodol neu i gwmpasu achosion wrth gefn. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu trwy neilltuo symiau allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fydd gwariant wedi'i ariannu o gronfa wrth gefn, caiff y tâl hwnnw ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno. Er mwyn sicrhau bod hyn ddim yn dâl yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor, caiff y gwariant ei ariannu trwy addasiad yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Caiff rhai cronfeydd wrth gefn eu cadw i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau hirdymor, offerynnau ariannol, buddion ymddeoliad a chyflogeion, a dydyn nhw ddim yn cynrychioli adnoddau y mae modd eu defnyddio i'r Cyngor.

## 1.12 Ysgolion

Mae Cod CIPFA yn cadarnhau mai’r awdurdod lleol sydd â’r cydbwysedd rheolaeth ar gyfer ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (h.y. y categorïau hynny o ysgolion a nodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y’i diwygiwyd). Mae’r Cod hefyd yn nodi bod asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llif arian yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol awdurdodau lleol. Felly, mae trafodion, llif arian a balansau ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol y Cyngor fel petaen nhw'n drafodion, llif arian a balansau’r Cyngor.

## 1.13 Gwariant Refeniw wedi'i Ariannu gan Gyfalaf o Dan Statud

Dyma wariant sy wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn y mae modd ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond sy ddim yn arwain at greu Ased Hirdymor. Caiff ei godi fel gwariant i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fydd y Cyngor yn ariannu gwariant o'r fath o adnoddau cyfalaf, mae trosglwyddiad yn y Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn i Gronfa'r Cyngor o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf wedyn yn gwrthdroi'r symiau sy wedi'u codi fel nad oes unrhyw effaith ar lefel Treth y Cyngor.

## 1.14 Grantiau a Chyfraniadau gan y Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Rhaid rhoi cyfrif am grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw ar sail croniadau a'u cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo sicrwydd rhesymol bod:

- y Cyngor wedi cydymffurfio â'r amodau ar gyfer eu derbyn; a
- bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei dderbyn.

Mae arian sy wedi'i roi lle nad oes sicrwydd rhesymol o'r ddau faen prawf uchod, yn cael eu dal fel credydwyr yn y Fantolen.

Mae grantiau refeniw yn cael eu credydu i'r gwasanaeth perthnasol a chaiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r adran Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grant refeniw wedi'i gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond heb ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant, caiff ei neilltuo fel Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi.

Lle mae grant cyfalaf wedi'i gydnabod fel incwm ond heb ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei gredydu i Gyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso trwy'r Datganiad ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Yn dilyn hynny, pan fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio, bydd y grant yn cael ei drosglwyddo o'r Cyfrif Cyfalaf Grant Heb ei Gymhwyso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Lle mae cais am grant yn gofyn am gymeradwyaeth archwilydd ac nad yw wedi'i archwilio eto, mae gwerthoedd y Fantolen mewn perthynas â grantiau wedi'u cynnwys ar sail hawlio drafft heb ei archwilio.

## 1.15 Taliadau i Refeniw am Asedau Hirdymor

Caiff gwasanaethau eu debydu â’r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal Asedau Hirdymor yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiad sydd i'w briodoli i'r asedau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaeth perthnasol.
- Colledion adbrisio ac amharu yng ngwerth asedau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn y mae modd i'r colledion gael eu dileu yn eu herbyn.
- Amorteiddio Asedau Anniriaethol i’w priodoli i’r gwasanaeth.

Does dim gofyn i’r Cyngor godi Treth y Cyngor i ariannu dibrisiad, adbrisiad a cholledion amharu neu amorteiddio. Felly mae'r taliadau yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael eu gwrthdroi yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

## 1.16 Darpariaeth Isafswm Refeniw/Darpariaeth ar gyfer Ad-dalu Dyled

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i bob awdurdod lleol neilltuo Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ar gyfer adbrynu dyled. Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008, mae triniaeth cyfrifyddu y Cyngor fel a ganlyn:

**Benthyca â Chymorth:** Mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw o ran benthyca â chymorth yn cael ei dileu ar sail llinell syth dros 40 mlynedd, yn gysylltiedig (yn fras) â bywydau asedau'r Cyngor.

**Benthyca heb gymorth:** Mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw yn cael ei chodi ar Falans Cronfa'r Cyngor fel a ganlyn:

- Taliadau mewn rhandaliadau cyfartal (neu'u cydweddu â buddiannau deilliadol) dros fywyd yr ased wedi'i greu (rhaid i fywyd yr ased fod wedi'i gymhwyso ar gyfer unrhyw wariant wedi ei gyfalafu o dan Gyfarwyddiadau ynglŷn â Chyfalafiad);
- Dull blwydd-dal;
- Taliadau yn unol â dibrisio'r ased; neu
- Dull priodol arall wedi'i ganiatáu gan y cyfarwyddiadau.

**Prydlesi Cyllid:** Yn unol â chyfarwyddyd darpariaeth isafswm refeniw wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, mae darpariaeth isafswm refeniw ar gyfer prydlesi ariannol yn cynrychioli prifswm ad-daliadau wedi'u gwneud gan y Cyngor (cyfeiriwch at bolisïau Prydlesi).

## 1.17 Darpariaethau

Mae darpariaethau yn cael eu gwneud pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i’r Cyngor sydd, mae’n fwy na thebyg, angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, ac mae modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth yna.

Mae tâl yn cael ei godi am ddarpariaethau fel gwariant ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y daw'r Cyngor yn effro i'r rhwymedigaeth. Mae'r darpariaethau'n cael eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant y mae angen ei wneud er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau maes o law, mae tâl yn cael ei godi i'r ddarpariaeth sydd eisoes yn y Fantolen. Caiff setliadau wedi'u hamcangyfrif eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Pan ddaw'n llai na thebygol y bydd bellach angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu fod setliad is na'r hyn sydd i'w ddisgwyl yn cael ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei dychwelyd a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

## 1.18 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Mae gan y Cyngor fuddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill sydd angen cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol.

Mae Amgen Cymru Ltd ac Amgen Rhondda Ltd yn bodloni meini prawf is-gwmnïau ac yn cael eu cynrychioli yn rhan o Asedau Hirdymor ar Fantolen y datganiadau ariannol.

Newidiodd Capita Glamorgan Consultancy Ltd. ei enw i WSP Glamorgan Consultancy Ltd ar 31 Hydref 2022 ac mae'n bodloni meini prawf cwmni cysylltiedig.

Oherwydd perthnasedd, mae datganiadau ariannol y Grŵp wedi'u cynhyrchu i gynnwys Amgen Cymru Ltd ac Amgen Rhondda Ltd. Mae'r dull cydgrynhoi caffael wedi'i ddefnyddio. Mae cyfrifon Amgen Cymru Ltd., Amgen Rhondda Ltd. a WSP Glamorgan Consultancy Ltd. ar gael ar wahân wedi iddyn nhw gael eu harchwilio.

Mae'r Cyngor yn cyfrannu at drefniadau Cydbwyllgor amrywiol. Yn unol ag ystyriaethau perthnasedd, mae dau o'r Cydbwyllgorau yma, sef Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD) wedi cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor. Mae'r broses gyfuno wedi cael ei gwneud ar sail llinell wrth linell, wedi'i chyfrif gan ddefnyddio methodoleg dosrannu rhesymol.

Yn seiliedig ar berthnasedd yn unigol neu ar y cyd, nid yw'r Cydbwyllgorau a ganlyn wedi'u cyfuno â datganiadau ariannol y Cyngor:

- Archifdy Morgannwg
- Cynllun Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (VVC)
- Amlosgfa Llangrallo
- Amlosgfa Llwydcoed
- Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru

## 1.19 Rhestrau Eiddo

Cedwir eitemau stoc ar y fantolen am y pris diweddaraf yn y Stocrestrau os cânt eu derbyn ond na chânt eu defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 2.0 Safonau Cyfrifyddu wedi'u Cyflwyno, ond heb eu Mabwysiadu

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r effaith ddisgwyliedig newid cyfrifyddu fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi'i chyflwyno ond heb ei mabwysiadu. Yn y cyfamser mae safonau a allai fod yn berthnasol yn cynnwys:

- Prydlesi IFRS 16 (gan nad yw'r Gronfa Bensiwn wedi penderfynu gweithredu IFRS 16 yn wirfoddol yn y flwyddyn 2023/24).
  Mae Cod CIPFA yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu. Bydd hyn yn ofynnol yn ôl safon newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto gan y Cod ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol. Nid yw'r Cyngor wedi gweithredu IFRS16 yn wirfoddol yn 2023/24 ond bydd yn cynnwys yr addasiadau cyfrifyddu priodol yng nghyfrifon 2024/25. Mae'n bosibl na fydd y newidiadau yma'n cael effaith sylweddol ar yr asedau a'r rhwymedigaethau hirdymor yn y fantolen, gyda ffigur amcangyfrifedig cyfredol o £4 miliwn. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2024/25.

- Dosbarthiad Rhwymedigaethau i rai Cyfredol neu Anghyfredol (Diwygiadau i IAS 1) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Y diwygiadau:
  - nodi bod yn rhaid i hawl endid i ohirio setliad fodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd
  - egluro nad yw dosbarthiad yn cael ei effeithio gan fwriadau neu ddisgwyliadau rheolwyr ynghylch a fydd yr endid yn arfer ei hawl i ohirio setliad
  - egluro sut mae amodau benthyca yn effeithio ar ddosbarthiad, a
  - egluro'r gofynion ar gyfer dosbarthu rhwymedigaethau y bydd endid yn eu setlo neu y mae modd i endid eu setlo drwy gyhoeddi ei offerynnau ecwiti ei hun.

- Rhwymedigaeth Prydles mewn Gwerthiant ac Adles (Diwygiadau i IFRS 16) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022. Mae'r diwygiadau i IFRS 16 yn ychwanegu gofynion mesur dilynol ar gyfer trafodion gwerthu ac adlesu.

- Rhwymedigaethau anghyfredol gyda Chyfamodau (Diwygiadau i IAS 1) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022. Fe wnaeth y diwygiadau wella'r wybodaeth y mae endid yn ei darparu pan fo ei hawl i ohirio setliad rhwymedigaeth am o leiaf 12 mis yn amodol ar gydymffurfio â chyfamodau.

- Diwygio Trethi Rhyngwladol: Cyhoeddwyd Rheolau Enghreifftiol Colofn Dau (Diwygiadau i IAS 12) ym mis Mai 2023. Mae Colofn Dau yn berthnasol i grwpiau rhyngwladol sydd ag isafswm lefel trosiant. Roedd y diwygiadau'n cynnwys:
  - eithriad dros dro i'r gofynion i gydnabod a datgelu gwybodaeth am asedau treth ohiriedig a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â threthi incwm Colofn Dau, a
  - gofynion datgelu wedi'u targedu ar gyfer endidau a effeithir.

- Trefniadau Cyllid Cyflenwyr (Diwygiadau i IAS 7 ac IFRS 7) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Mae'r diwygiadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i endid ddarparu datgeliadau ychwanegol am ei drefniadau cyllid ar gyfer cyflenwyr. Datblygodd yr IASB y gofynion newydd i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr datganiadau ariannol i'w galluogi i:

- asesu sut mae trefniadau cyllid cyflenwyr yn effeithio ar rwymedigaethau a llif arian endid, a
- deall effaith trefniadau cyllid cyflenwyr ar amlygiad endid i risg hylifedd a sut y gallai'r endid gael ei effeithio pe na bai'r trefniadau ar gael iddo mwyach.

Ni ddylai'r diwygiadau yma effeithio'n sylweddol ar y Cyngor. Mae Cod yn ei gwneud hi'n ofynnol i'w weithredu o 1 Ebrill 2024 felly does dim effaith at Ddatganiad o Gyfrifon 2023/24.

## 3.0 Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r Polisïau Cyfrifyddu wedi'u nodi yn nodyn 1.0, roedd rhaid i'r Cyngor wneud dyfarniadau penodol am drafodion cymhleth a'r rhai sydd ag ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Dyma'r dyfarniadau beirniadol wedi'u gwneud yn y Datganiad o Gyfrifon:

### 3.1 Grantiau ac Amodau Cyfrannu

Mae beirniadau'n cael eu gwneud yn nhermau amodau wedi'u hatodi i grantiau cyfalaf a refeniw. Mae grantiau yn cael eu cydnabod fel incwm wrth eu derbyn/fod yn dderbyniadwy. Fydd rhwymedigaeth adenillion ddim yn cael ei chydnabod, oni bai bod yna ragdybiaethau bod amodau'r grant wedi cael eu torri. O ganlyniad i hyn, mae grantiau cyfalaf sydd wedi dod i law, heb rwymedigaeth adenillion disgwyliedig, yn cael eu hadlewyrchu yn y Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig nes eu bod nhw'n cael eu defnyddio i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf. Yn yr un modd, mae grantiau refeniw sydd wedi dod i law heb rwymedigaeth adenillion disgwyliedig sydd i'w defnyddio i ariannu gwariant yn y dyfodol yn cael eu hadlewyrchu yn y Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi ar y Fantolen.

### 3.2 Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir

Mae'r Cod yn cadarnhau bod triniaeth gyfrifyddu ysgolion yr awdurdod lleol yn Lloegr a Chymru yn dibynnu ar gydbwysedd rheoli. O ran ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, does dim rhaid i unrhyw asedau hirdymor y mae corff cyfreithiol arall yn berchen arnyn nhw, nid y Cyngor, megis yr Esgobaeth, fod ar y Fantolen.

Mae'r Fantolen yn cynnwys tir Ysgol Gynradd y Santes Fererid Eglwys Gatholig Rhufain a chaeau chwarae Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain gan fod y Cyngor yn berchen arnyn nhw. Wrth adolygu'r meini prawf presennol, dydy'r Cyngor ddim o'r farn bod gyda fe unrhyw ysgolion gwirfoddol a reolir.

## 4.0 Rhagdybiaethau sydd wedi'u Gwneud am y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill o Amcangyfrif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yma yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau wedi'u gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd, fel arall, yn ansicr. Mae amcangyfrifon yn cael eu gwneud gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a

ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gallai canlyniadau go iawn fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon gan nad oes modd pennu asedau a rhwymedigaethau gyda sicrwydd. Mae'r eitemau ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2024 lle mae risg sylweddol o ddiwygio perthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, fel a ganlyn:

**4.1 Rhwymedigaeth / Ased Pensiynau**

Mae'r amcangyfrif o ased/rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd gostyngiadau sy'n cael ei defnyddio, y gyfradd o ran cynnydd cyflogau, newidiadau o ran oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau cronfeydd pensiwn. Mae AON wedi'i gyflogi i roi cyngor i'r Cyngor am y rhagdybiaethau sydd i'w cymhwyso.

**Cydraddoli a mynegeio Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)**

Mae'r datgeliadau yn caniatáu ar gyfer talu codiadau pensiwn chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) llawn ar Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP) i'r rhai sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Mae hyn yn cydnabod cost ymrwymiad y Llywodraeth i ddigolledu aelodau cynllun gwasanaethau cyhoeddus am ddileu elfen Pensiwn Ychwanegol Pensiwn y Wladwriaeth o’r dyddiad yma, ac ar gyfer canlyniad dyfarniad Lloyds a ganfu fod yr Isafswm Pensiwn Gwarantedig yn gwahaniaethu’n anghyfreithlon ar sail rhyw. Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod na fydd yr ateb yma'n mynd i'r afael â phob anghydraddoldeb o ran rhyw ar gyfer lleiafrif o aelodau a disgwylir arweiniad pellach gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar sut y maen nhw'n bwriadu ymdrin â hyn. Disgwylir i'r anghydraddoldebau yma fod yn fach.

Ym mis Hydref 2020 fe wnaeth ail ddyfarniad yn achos banc Lloyds egluro y byddai angen iawndal ar gyfer aelodau a drosglwyddodd fudd-daliadau allan ers mis Mai 1990. Nid yw'r Llywodraeth eto wedi cydnabod rhwymedigaeth mewn cynlluniau gwasanaethau cyhoeddus nac wedi nodi dull o unioni hyn. O'r herwydd, nid oes lwfans ar gyfer rhwymedigaethau posibl yn ymwneud ag ail ddyfarniad Lloyds wedi'i gynnwys yn y cyfrifon.

**Dyfarniad Goodwin**

Ym mis Mehefin 2020 dyfarnodd Tribiwnlys Cyflogaeth mewn perthynas â’r Cynllun Pensiwn i Athrawon, bod darpariaethau ar gyfer buddion goroeswr sy'n aelod benywaidd sy'n briod â pherson o ryw arall yn llawer llai ffafriol nag ar gyfer menyw sy'n briod â pherson o'r un rhyw neu sydd mewn partneriaeth sifil, a bod y driniaeth yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Cyhoeddodd y prif ysgrifennydd i'r Trysorlys mewn datganiad gweinidogol ar 20 Gorffennaf 2020 ei fod o'r farn y byddai angen newidiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus eraill sydd â threfniadau tebyg. Gan nad yw'r newidiadau yma wedi'u hadlewyrchu eto yn rheoliadau'r CPLIL a hefyd ar sail perthnasedd, nid ydyn nhw wedi'u hystyried yn y cyfrifiadau.

**Proses Rheoli Costau yn y CPLIL gan gynnwys McCloud**

Mae deddfwriaeth yn gofyn bod Trysorlys Ei Fawrhydi a Bwrdd Cynghori'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cyflawni prisiadau cyfnodol er mwyn monitro cost y Cynllun Pensiwn

Llywodraeth Leol (‘LGPS’) i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gynaliadwy a fforddiadwy. Cyfeirir at hyn fel y “Broses Rheoli Costau”. Nid oedd deilliannau'r adolygiadau'n argymell unrhyw newidiadau i ddarpariaethau'r cynllun. Serch hynny, cafodd cyfreithlondeb penderfyniad y Llywodraeth i gynnwys costau McCloud fel cost aelod o fewn proses HMT 2016 ei herio gan Adolygiad Barnwrol a gyflwynwyd gan undebau llafur. Roedd yr Adolygiad Barnwrol yn aflwyddiannus, a chafodd yr undebau ganiatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Ar 17 Ebrill 2024, cyhoeddwyd y dyfarniad a roddwyd gan y Llys Apêl ar her undebau llafur i’r ffordd yr ymdriniwyd â chostau McCloud o dan broses rheoli costau 2016 ar gyfer cynlluniau gwasanaethau cyhoeddus. Cytunodd y Llys Apêl â dyfarniad cynharach yr Uchel Lys ac o ganlyniad, cafwyd yn gyfreithlon bod costau McCloud yn cael eu trin fel costau aelodau o fewn y broses. Mae hyn yn ei dro yn golygu na thorrwyd y “llawr” cost o dan y broses ac nid oes gofyniad i ailedrych ar ddeilliannau prisiadau cynllun cyfan 2016, lle na wnaed unrhyw newidiadau i fudd-daliadau.

Ar 11 Ebrill 2024, roedd Adran Actiwari’r Llywodraeth (GAD) wedi cyhoeddi ei phrisiad wedi’i gwblhau ar brisiad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr gyfan ar 31 Mawrth 2020. Canfu’r prisiad fod ‘cost cap cost’ craidd y cynllun y tu allan i’r coridor mecanwaith rheoli costau o 3% (3.2% yn is na’r gost darged) sydd ar waith ar gyfer y prisiad yma.

Serch hynny, mae “gwiriad economaidd” hefyd y mae Adran Actiwari’r Llywodraeth yn ei wneud i ystyried y sefyllfa economaidd ehangach. Mae’r gwiriad yma'n cynnwys ystyried llai o ddisgwyliadau hirdymor ar gyfer twf economaidd y DU fel yr adlewyrchir yng nghyfradd ddisgownt ‘SCAPE’ y Llywodraeth. Mae hyn hefyd y tu allan i'r coridor 3%, ond i'r cyfeiriad arall (7.3% yn uwch na'r gost darged). O ganlyniad, nid yw’r “coridor cap costau” yn ei gyfanrwydd yn cael ei dorri ac nid yw’r Llywodraeth yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i fuddion y CPLlL.

Cyhoeddodd Bwrdd Cynghori Cynllun Cymru a Lloegr ar 19 Ebrill 2024 y bydd yn cyhoeddi adroddiad terfynol yr asesiad cost cynllun ar wahân y mae'n ofynnol iddo ei gynnal o dan Reoliad 116 o Reoliadau CPLlL 2013 yn fuan, lle defnyddir gwahanol dybiaethau actiwaraidd. Serch hynny, mae’r Bwrdd eisoes wedi gweld y canlyniadau cychwynnol a chytunwyd “nad yw’n bwriadu argymell unrhyw newidiadau i fuddion CPLlL i’r Ysgrifennydd Gwladol drwy’r broses honno”.

**Cyfyngiad Gwarged Pensiwn**

Mae cydnabyddiaeth o warged pensiwn yn y Fantolen wedi’i nodi yn Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102, sy’n datgan “Os yw gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar y dyddiad adrodd yn llai na gwerth teg asedau’r cynllun ar y dyddiad hwnnw, mae gan y cynllun warged. Bydd endid yn cydnabod gwarged cynllun fel ased cynllun buddion diffiniedig dim ond i'r graddau ei fod yn gallu adennill y gwarged naill ai trwy gyfraniadau gostyngol yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun”.

Mae gofyniad i ddatgelu unrhyw gyfyngiadau ar wireddu’r gwarged ar hyn o bryd neu’r sail a ddefnyddir i bennu swm y budd economaidd sydd ar gael.

Mae egwyddorion y Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) 14 wedi'u cymhwyso i gyfyngu ar y budd economaidd sydd ar gael drwy gyfraniadau llai. Mae’r actiwari

wedi gwneud cyfrifiadau o'r gwarged posibl y gellid ei gydnabod drwy gyfraniadau gostyngol yn y dyfodol ac nid gwarged y gellid ei gydnabod drwy ad-daliadau yn y dyfodol gan mai dim ond pan fydd y cyflogwr yn gadael y gronfa y mae ad-daliadau yn bosibl.

Mae gwerth y cyfyngiad gwarged, a gyfrifwyd gan yr actiwari, a gymhwyswyd i'r Ased Net yn £20.403 miliwn.

**4.2 Darpariaeth Yswiriant**

Mae'r Cyngor yn gwneud darpariaeth ar gyfer pob hawliad sy'n dod i law (ond heb ei dalu) yn ôl y gwerth "wrth gefn" wedi'i atodi i'r hawliad yna. Mae'r gwerth wrth gefn yn adlewyrchu'r gwerth mwyaf tebygol o gytuno ar yr hawliad, heb ystyried tebygolrwydd y cytundeb. Mae gwerthoedd wrth gefn yn cael eu darparu gan garfan yswiriant fewnol y Cyngor, gweithwyr sy'n trin hawliadau ac aseswyr colledion. Mae hyn yn dibynnu ar y math o hawliad a gwerth amcangyfrifedig yr hawliad. Mae hawliadau sy'n ymwneud â moduron ac eiddo yn cael eu darparu yn ôl 100% o'r gwerth wrth gefn. Mae hawliadau rhwymedigaeth yn cael eu darparu yn ôl canran sy'n seiliedig ar y cyfnod o amser y mae'r hawliad heb ei ddatrys. Mae hyn yn adlewyrchu nad yw pob hawliad sy'n dod i law yn cael ei dalu. Mae rhai yn cael eu diarddel yn llwyddiannus. Cyfeiriwch at nodyn 11.0 am ragor o fanylion.

Y risgiau o ran camddatganiad yw y bydd gwerth hawliadau presennol yn newid (yn cynyddu neu'n gostwng) neu'n cael eu diarddel yn llwyddiannus. Mae cronfa wrth gefn wedi'i neilltuo yn cael ei sefydlu i fodloni'r costau ychwanegol sy'n ymwneud ag effaith y newidiadau potensial o ran amcangyfrifon. Mae'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi hefyd yn ariannu hawliadau neu ddigwyddiadau sydd wedi digwydd ond mae hawliadau heb eu derbyn. Cyfeiriwch at nodyn 13.2 am ragor o fanylion.

**4.3 Eiddo, Gwaith ac Offer**

Mae priswyr allanol yn cynnal prisiadau ffurfiol o fewn uchafswm o raglen dreigl 5 mlynedd i sicrhau bod yr asedau ar y Fantolen yn cael eu cynrychioli yn ôl "gwerth presennol". Oherwydd y cynnydd sylweddol mewn costau adeiladu a adlewyrchwyd yn y Mynegai Costau Adeiladu Cyffredinol yn 2023/24, mae gwerth cyfredol asedau cost adnewyddu dibrisiedig (DRC) wedi'i ddiweddaru ar gyfer mynegeio. Mae'r trafodion wedi'u dangos fel ailbrisiad a naill ai wedi gwrthdroi amhariadau blaenorol trwy gredyd mewn refeniw gyda chofnod cyfatebol yn y MiRS, neu wedi'u dangos fel credyd yn y gronfa ailbrisio wrth gefn.

Mae prisiadau yn cael eu cynnal yn unol â chyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Yn ôl cyfrifiad prisiad y gwerth presennol, mae rhagdybiaethau yn cael eu gwneud ar fywydau defnyddiol asedau, allai fod yn amodol ar newidiadau yn y dyfodol.

**5.0 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd**

Cafodd y Datganiad Cyfrifon archwiliedig ei awdurdodi i'w gyhoeddi gan y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyfadran – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen, yn Brif Swyddog Cyllid, ar 6 Tachwedd 2024. Dydy digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl y dyddiad

yma ddim yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau na nodiadau ariannol. Os oes digwyddiadau sy'n cael eu cynnal cyn y dyddiad yma ac sy'n darparu gwybodaeth am amodau sy'n berthnasol ar 31 Mawrth 2024, mae'r ffigurau yn y datganiadau a nodiadau ariannol wedi cael eu haddasu ym mhob agwedd faterol i adlewyrchu effaith yr wybodaeth yma.

## 6.0 Eiddo, Gwaith ac Offer

### 6.1 Symudiadau ar Falansau

#### Symudiadau yn 2022/23

| | Tir Arall ac Adeiladau | Peiriannau, Cerbydau ac Offer | Asedau ac Asedion Cymunedol | Asedau yn cael eu hadeiladu | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau ac Offer |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 801,123 | 42,062 | 6,312 | 15,704 | **865,201** |
| Cyd-bwyllgorau Balans Agoriadol | 0 | 658 | 0 | 128 | **786** |
| Ychwanegiadau | 30,168 | 7,411 | 150 | 36,749 | **74,478** |
| Cynnydd/(Gostyngiadau) Adbrisio a Gydnabyddir yn y Gronfa Adbrisio | 21,808 | 0 | 0 | 0 | **21,808** |
| Cynnydd/(Gostyngiadau) Adbrisio a Gydnabyddir yn y yn y Gwarged/Diffyg ar | (15,434) | 0 | 0 | 0 | **(15,434)** |
| Datgydnabod - Gwarediadau | (981) | (4,104) | 0 | 0 | **(5,085)** |
| Datgydnabod - Arall | 0 | (9,972) | 0 | (128) | **(10,100)** |
| Asedau a Ailddosbarthwyd (i)/o'r hyn a Gadwyd i'w | 262 | 0 | 0 | 0 | **262** |
| Ailddosbarthiadau Eraill | 13,871 | (203) | (106) | (15,303) | **(1,741)** |
| Symudiadau Eraill o ran Cost | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **850,817** | **35,852** | **6,356** | **37,150** | **930,175** |

**Parhad trosodd...**

| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2022 | (35,211) | (27,497) | (1,301) | 0 | **(64,009)** |
| Cyd-bwyllgorau Balans Agoriadol | 0 | (94) | 0 | 0 | **(94)** |
| Tâl Dibrisiant | (19,526) | (4,926) | 0 | 0 | **(24,452)** |
| Dibrisiant Wedi'i Thynnu Allan o'r Gronfa Adbrisio | 13,580 | 0 | 0 | 0 | **13,580** |
| Dibrisiant Wedi'i Thynnu Allan ar y Gwarged neu'r Diffyg | 4,282 | 0 | 0 | 0 | **4,282** |
| (Colledion)/Gwrthdroadau Amharu a Gydnabyddir yn y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn | (3,706) | 0 | 0 | 0 | **(3,706)** |
| (Colledion)/Gwrthdroadau Amharu a Gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 2,360 | (1,682) | 0 | 0 | **678** |
| Datgydnabod - Gwarediadau | 60 | 4,095 | 0 | 0 | **4,155** |
| Datgydnabod - | 0 | 9,971 | 0 | 0 | **9,971** |
| Asedau a Ailddosbarthwyd (i)/o'r hyn a Gadwyd i'w | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiadau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Symudiadau Eraill o ran Cost | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **(38,161)** | **(20,133)** | **(1,301)** | **0** | **(59,595)** |

**Gwerth Llyfr Net:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **812,656** | **15,719** | **5,055** | **37,150** | **870,580** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **765,912** | **15,129** | **5,011** | **15,832** | **801,884** |

## Symudiadau yn 2023/24

| | Tir Arall ac Adeiladau | Peiriannau, Cerbydau ac Offer | Asedau ac Asedion Cymunedol | Asedau yn cael eu hadeiladu | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau ac Offer |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 850,817 | 34,956 | 6,356 | 36,924 | **929,053** |
| Cyd-bwyllgorau Balans Agoriadol | 0 | 896 | 0 | 226 | **1,122** |
| Ychwanegiadau | 45,945 | 4,453 | 136 | 45,430 | **95,964** |
| Cynnydd/(Gostyngiadau) Adbrisio a Gydnabyddir yn y Gronfa Adbrisio | 26,821 | 0 | 0 | 0 | **26,821** |
| Cynnydd/(Gostyngiadau) Adbrisio a Gydnabyddir yn y yn y Gwarged/Diffyg ar | (27,574) | 0 | (314) | 0 | **(27,888)** |
| Datgydnabod - Gwarediadau | (1,418) | (2,053) | 0 | 0 | **(3,471)** |
| Datgydnabod - Arall | 0 | (2,283) | 0 | 0 | **(2,283)** |
| Asedau a Ailddosbarthwyd (i)/o'r hyn a Gadwyd i'w | (1,921) | 0 | 0 | 0 | **(1,921)** |
| Ailddosbarthiadau Eraill | 20,187 | 0 | 0 | (21,022) | **(835)** |
| Symudiadau Eraill o ran Cost | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **912,857** | **35,969** | **6,178** | **61,558** | **1,016,562** |

**Parhad trosodd...**

| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2023 | (38,161) | (19,939) | (1,301) | 0 | **(59,401)** |
| Cyd-bwyllgorau Balans Agoriadol | 0 | (194) | 0 | 0 | **(194)** |
| Tâl Dibrisiant | (21,489) | (4,588) | 0 | 0 | **(26,077)** |
| Dibrisiant Wedi'i Thynnu Allan o'r Gronfa Adbrisio | 15,775 | 0 | 0 | 0 | **15,775** |
| Dibrisiant Wedi'i Thynnu Allan ar y Gwarged neu'r Diffyg | 3,691 | 0 | 0 | 0 | **3,691** |
| (Colledion)/Gwrthdroadau Amharu a Gydnabyddir yn y Cronfa Adbrisio | (613) | 0 | 0 | 0 | **(613)** |
| (Colledion)/Gwrthdroadau Amharu a Gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 4,670 | (2,283) | (46) | 0 | **2,341** |
| Datgydnabod - Gwarediadau | 98 | 2,053 | 0 | 0 | **2,151** |
| Datgydnabod - Arall | 0 | 2,283 | 0 | 0 | **2,283** |
| Asedau a Ailddosbarthwyd (i)/o'r hyn a Gadwyd i'w | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiadau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Symudiadau Eraill o ran Cost | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **(36,029)** | **(22,668)** | **(1,347)** | **0** | **(60,044)** |

**Gwerth Llyfr Net:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **876,828** | **13,301** | **4,831** | **61,558** | **956,518** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **812,656** | **15,719** | **5,055** | **37,150** | **870,580** |

## 6.2 <u>Asedau Isadeiledd</u>

Gostyngiad Dros Dro ar gyfer Gofynion Datgelu Asedau Seilwaith

Mae'r rhyddhad dros dro ar gyfer gofynion datgelu asedau seilwaith yn berthnasol i gyfrifon ar gyfer blynyddoedd ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2021 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025.

Yn unol â'r rhyddhad dros dro a gynigir gan y Diweddariad i'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ar asedau seilwaith, nid yw'r nodyn yma'n cynnwys datgelu cost gros a dibrisiant cronedig ar gyfer asedau seilwaith oherwydd bod arferion adrodd hanesyddol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu na fyddai hyn yn cynrychioli'r sefyllfa asedau yn ffyddlon i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor wedi dewis peidio â datgelu'r wybodaeth yma gan fod arferion a adroddwyd yn flaenorol oherwydd diffygion gwybodaeth hanesyddol yn golygu nad yw cost gros a dibrisiant cronedig sy'n ymwneud ag asedau seilwaith yn cael eu mesur yn gywir.

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill** | **526,504** | **551,824** |
| Ychwanegiadau | 42,941 | 54,653 |
| Dibrisiant | (15,679) | (16,262) |
| Amhariad | (3,683) | (1,394) |
| Ailddosbarthiadau | 1,741 | 835 |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth** | **551,824** | **589,656** |

Mae'r Cyngor wedi penderfynu, yn unol â Rheoliad 24L Cymru o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd) bod y symiau cario sydd i'w dadgydnabod ar gyfer asedau seilwaith, pan fo gwariant adnewyddu, yn ddim.

## 6.3 Eiddo Buddsoddi

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **£’000** | **£’000** |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **7,546** | **13,009** |
| Enillion/Colledion Net o addasiadau gwerth teg | 5,463 | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **13,009** | **13,009** |

Mae'r gwerthoedd teg ar gyfer eiddo buddsoddi wedi cael eu cyfrif gan ddefnyddio lefel 2 yn yr hierarchaeth gwerth teg. Mae’r eiddo buddsoddi yn RhCT yn cael ei brisio ar sail y farchnad, ac mae’r eiddo buddsoddi o fewn y cydbwyllgor yn cael ei brisio ar sail incwm.

## 6.4 Ymrwymiadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2024, cytunodd y Cyngor i ddechrau nifer o gontractau ar gyfer adeiladu neu godi gwerth Eiddo, Gwaith ac Offer yn 2024/25 a'r dyfodol. Costau hyn fydd £26.2 miliwn. Roedd ymrwymiadau tebyg ar 31 Mawrth 2023, am £49.3 miliwn.

O fewn y swm yma, y gwerthoedd contract sylweddol ar 31 Mawrth 2024 yw:

| **Cynllun** | **£’000** |
|---|---|
| Deuoli'r A4119, Coed-elái | 4,202 |
| Pont y Bibell Gludo, Abercynon | 2,096 |
| Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen | 5,373 |
| Ysgol Bro Taf | 4,594 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-forwyn | 5,990 |
| **Cyfanswm** | **22,255** |

## 6.5 Adbrisio

Mae'r Cyngor yn cynnal rhaglen dreigl sy'n sicrhau bod pob Eiddo, Gwaith ac Offer y mae angen eu mesur yn ôl y gwerth presennol yn cael eu hadbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Mae prisiadau yn cael eu cynnal gan brisiwr wedi'i benodi gan y Cyngor. Mae prisiadau tir ac adeiladau yn cael eu cynnal yn unol â methodoleg a seiliau o ran amcangyfrif wedi'u nodi yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae prisiadau cerbydau, gwaith ac offer yn seiliedig ar brisoedd presennol lle mae marchnad ail law weithredol neu mae prisiau sylfaenol diweddaraf yn cael eu haddasu yn ôl cyflwr yr ased.

Mae'r rhagdybiaethau sylweddol sy'n cael eu cynhwyso wrth amcangyfrif y gwerthoedd presennol fel a ganlyn:

- Mae prisiadau yn cynnwys cost adeiladu ar sail gyfwerth fodern.
- Mae'r gost wedi cael ei dibrisio i roi cyfrif am oedran a bywyd economaidd yr adeiladau yn y dyfodol.
- Mae prisiadau yn ddarostyngedig i ragolwg a hyfywedd parhad y cyfnod mae'r eiddo wedi'i feddiannu a'i ddefnyddio.

## 7.0 Offerynnau Ariannol

## 7.1 Categorïau o Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario ar y Fantolen:

| **Asedau** | **Tymor Hir** | | **Cyfredol** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31/03/23** | **31/03/24** | **31/03/23** | **31/03/24** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Buddsoddiadau: Benthyciadau a Derbyniadau | 3,492 | 5,079 | 162,071 | 66,405 |
| Dyledwyr: Asedau Ariannol Symiau a Gariwyd ar Gontractau | 5,819 | 5,209 | 119,240 | 120,437 |
| **Cyfanswm** | **9,311** | **10,288** | **281,311** | **186,842** |

| **Rhwymedigaethau** | **Tymor Hir** | | **Cyfredol** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31/03/23** | **31/03/24** | **31/03/23** | **31/03/24** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyciadau: Rhwymedigaethau Ariannol | 333,709 | 272,057 | 13,604 | 13,585 |
| Rhwymedigaethau Prydles | 381 | 380 | 1 | 1 |
| Credydwyr Rhwymedigaethau Ariannol yn rhan o'r | 0 | 0 | 21,348 | 19,485 |
| **Cyfanswm** | **334,090** | **272,437** | **34,953** | **33,071** |

Nid oes unrhyw gyfrifiadau colled credyd disgwyliedig ar gyfer yr asedau ariannol. Mae gwerth y credydwyr yn y tabl yn berthnasol i anfonebau sydd wedi'u hawdurdodi i'r Cyngor eu talu, ond sydd heb eu talu o hyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans yma wedi'i gynnwys ar y Fantolen o dan y pennawd *Credydwyr Tymor Byr*.

## 7.2 Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion

| | 2022/23 | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cam Rhwymedigaethau Ariannol eu Gweithredu ar gost | Asedau Ariannol: Benthyciadau ac Arian Derbyniadwy | Cyfanswm | Cam Rhwymedigaethau Ariannol eu Gweithredu ar gost | Asedau Ariannol: Benthyciadau ac Arian Derbyniadwy | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Traul Llog | 10,938 | 0 | 10,938 | 10,785 | | 10,785 |
| Colledion Amharu | 0 | 0 | 0 | | | 0 |
| **Cyfanswm y Treuliau mewn (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth** | **10,938** | **0** | **10,938** | **10,785** | **0** | **10,785** |
| | | | 0 | | | 0 |
| Incwm o Log | 0 | (1,645) | (1,645) | | (1,554) | (1,554) |
| Incwm Cronedig o Log ar Asedau Ariannol Amharedig | 0 | 0 | 0 | | | 0 |
| **Cyfanswm yr Incwm mewn (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth** | **0** | **(1,645)** | **(1,645)** | **0** | **(1,554)** | **(1,554)** |
| **Net (Enillion) / Colled am y** | **10,938** | **(1,645)** | **9,293** | **10,785** | **(1,554)** | **9,231** |

## 7.3 Gwerth Teg o Asedau a Rhwymedigaethau

Mae rhwymedigaethau ariannol, asedau ariannol wedi'u cynrychioli gan fenthyciadau a symiau i'w derbyn a dyledwyr a chredydwyr hirdymor yn cael eu cario yn y Fantolen yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Mae modd asesu eu gwerth teg trwy gyfrif gwerth presennol y llifoedd arian fydd yn digwydd dros gyfnod yr offerynnau sydd ar ôl, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Mae benthyciadau wedi'u benthyca gan y Cyngor wedi cael eu prisio trwy ddiystyru'r llifoedd arian dan gytundeb dros fywyd cyfan yr offeryn yn ôl y gyfradd farchnad briodol ar gyfer benthyciadau'r Awdurdod Lleol.
- Dydy ad-daliadau nac amhariadau ddim wedi'u cydnabod.
- Os bydd offeryn ariannol yn aeddfedu yn ystod y 12 mis nesaf, bydd y swm cario yn cael ei dybio i fod yn amcangyfrif i werth teg.
- Cymerir bod y gwerth teg masnach a symiau eraill i'w derbyn yn swm wedi'i anfonebu neu'i filio.
- Mae debydwyr a chredydwyr tymor byr yn cael eu cario yn ôl cost gan fod hyn yn amcangyfrif teg o'u gwerth.

Mae gwerthoedd teg elfen offerynnau ariannol CBS Rhondda Cynon Taf fel a ganlyn:

| | 31/03/23 | | 31/03/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Swm Cario** | **Gwerth Teg** | **Swm Cario** | **Gwerth Teg** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Dyled PWLB | 210,481 | 191,076 | 200,062 | 185,449 |
| Dyled y Farchnad | 85,500 | 89,430 | 85,494 | 89,538 |
| Dyled yr Awdurdod Lleol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Ad-daladwy Llywodraeth Cymru | 51,225 | 78,627 | 0 | 0 |
| Dyledion Eraill | 96 | 96 | 75 | 75 |
| Prydlesi Cyllid | 382 | 382 | 381 | 381 |
| Credydwyr Byd Masnach | 21,348 | 21,348 | 19,485 | 19,485 |
| **Cyfanswm** | **369,032** | **380,959** | **305,497** | **294,928** |

| | 31/03/23 | | 31/03/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Swm Cario** | **Gwerth Teg** | **Swm Cario** | **Gwerth Teg** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyciadau ac Arian Derbyniadwy | 163,948 | 163,948 | 68,300 | 68,300 |

Mae'r gwerthoedd teg ar gyfer dyled Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a dyled farchnad wedi cael eu cyfrif gan ddefnyddio lefel 2 yn yr hierarchaeth gwerth teg. Gwelwch nodyn 1.10.2 yn y polisïau cyfrifyddu am esboniad o'r lefelau yma.

**Benthyciadau Meddal**

Ym mis Mawrth 2022, derbyniodd y Cyngor fenthyciad di-log o £82.4 miliwn (Cyllid Ad-daladwy) gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â buddsoddi yn y seilwaith rheilffyrdd. Ad-dalwyd y benthyciad yma yn ystod 2023/24. Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau meddal materol pellach.

| Benthyciadau Meddal | 2023/24 |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | **51,225** |
| Benthyciadau a Ad-dalwyd | (51,225) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **0** |

## 7.4 <u>Natur a Chwmpas Risgiau sy'n codi o Offerynnau Ariannol</u>

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn ei roi mewn perygl o nifer o risgiau ariannol:

**<u>Prif Risgiau</u>**

- Risg o ran Credyd – y posibilrwydd y bydd partïon eraill yn methu â thalu symiau sydd i'w talu i'r Cyngor.
- Risg o ran Hylifedd – y posibilrwydd na fydd gan y Cyngor gyllid ar gael i fodloni'i ymrwymiadau i wneud taliadau.
- Risg o ran Ail-ariannu ac Aeddfedu – y posibilrwydd y bydd gofyn i'r Cyngor adnewyddu offeryn ariannol sydd wedi aeddfedu yn ôl cyfraddau neu delerau llog sy'n llai ffafriol.

- Risg o ran y Farchnad – y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn cael colledion ariannol o ganlyniad i newidiadau o ran cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

## 7.5 Gweithdrefnau Cyffredinol ar gyfer Rheoli Risg

Mae gweithdrefnau cyffredinol y Cyngor ar gyfer rheoli risg yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy y marchnadoedd ariannol a gweithredu cyfyngiadau i leihau'r risgiau yma. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli risgiau wedi'u diffinio yn y Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae gofyn i'r Cyngor gydymffurfio â Chod Darbodus a Materion Rheoli Trysorlys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) yng Nghod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyfarwyddyd Buddsoddi wedi'u cyflwyno trwy'r Ddeddf. Mae'r Cyngor yma yn cydymffurfio â'r gofynion yma trwy:

- Mabwysiadu gofynion y Cod Ymarfer yn ffurfiol.
- Mabwysiadu Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys a Chymalau Rheoli'r Trysorlys sy'n cael eu cynnwys yn Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.
- Cymeradwyo blwyddyn ymlaen llaw Ddangosyddion Materion Ariannol a Thrysorlys ar gyfer y tair blynedd nesaf.
- Cymeradwyo Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer y flwyddyn sydd i'w dod gan osod meini prawf ar gyfer buddsoddi a dewis partïon buddsoddi i gontract yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.
- Cymeradwyo adroddiad Strategaeth Gyfalaf sy'n rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gwaith rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ynghyd â throsolwg o'r risg gysylltiedig, sut y caiff hynny ei reoli a'r goblygiadau o ran cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Mae angen i'r rhain gael eu cofnodi a'u cymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn y maen nhw'n berthnasol iddi. Mae'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn amlinellu'r dull manwl o reoli risg o ran offerynnau ariannol y Cyngor. Mae cyflawniad yn cael ei gofnodi mewn adolygiad i Aelodau yng nghanol y flwyddyn, yn ogystal ag adolygiad blwyddyn gyfan, a'i gynnwys mewn adroddiadau cyflawniad chwarterol.

Mae polisïau yn cael eu gweithredu gan garfan Rheoli'r Trysorlys gorfforaethol. Mae'r Cyngor yn cynnal egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risgiau yn gyffredinol, yn ogystal â pholisïau ysgrifenedig sy'n ymdrin â meysydd penodol, megis risg o ran cyfradd llog, risg o ran credyd a buddsoddi arian parod dros ben trwy Arferion Rheoli'r Trysorlys (TMPs). Mae'r arferion yng ngofyniad y Cod Ymarfer ac yn cael eu hadolygu o dro i dro.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Cyfalaf ar gael ar wefan y Cyngor.

## 7.6 Risg o ran Credyd

Mae'r Risg o ran Credyd yn codi o adneuon mewn banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal â risgiau o ran credyd i gwsmeriaid y Cyngor.

Mae'r risg yma yn cael ei lleihau trwy'r Strategaeth Fuddsoddi. Rhaid i adneuon beidio â chael eu gwneud gyda sefydliadau ariannol oni bai eu bod nhw'n bodloni meini prawf credyd sylfaenol. Mae meini prawf o'r fath yn cynnwys statysau credyd wedi'u neilltuo gan

asiantaethau statysau credyd. Mae'r Strategaeth Fuddsoddi hefyd yn gosod uchafswm o ran cyfanswm a hyd y buddsoddiad gyda sefydliad ariannol. Mae'r Cyngor yn defnyddio diwydrwydd dyladwy perthnasol ac yn rhoi trefniadau diogelwch priodol yn eu lle wrth roi benthyg i sefydliadau. Mae meini prawf a rheolaethau eraill yn eu lle o ran dewis parti i gontract. Mae modd gweld rhagor o fanylion yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gymeradwy.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi'r uchafswm o ran potensial y Cyngor i risg o ran credyd (elfen CBS Rhondda Cynon Taf yn unig). Mae'r cyfraddau diffyg talu yn nodi manylion o brofiad y Cyngor o ran lefelau casglu cwsmeriaid.

| | 31/03/24 (a) | Profiad Hanesyddol o Ddiffyg Talu (b) | Addasiad ar gyfer Cyflwr y Farchnad ar 31/03/24 (c) | Amcangyfrif Uchafswm Amlygiad i Ddiffyg Talu ar 31/03/24 (a*c) | Amcangyfrif Uchafswm Amlygiad i Ddiffyg ar 31/03/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **%** | **%** | **£'000** | **£'000** |
| Adneuon gyda Uwchadrannau'r Llywodraeth a Thai Cymunedol Cynon Taf | 68,300 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyledwyr Byd | 13,829 | 0.42 | 0.42 | 59 | 61 |

Mae'r Profiad Hanesyddol o Ddiffyg Talu, sef 0.42%, yn cynrychioli dyled wedi'i dileu yn 2023/24 sydd wedi'i nodi fel canran o anfonebau wedi'u codi yn ystod y flwyddyn honno. Dydy'r ganran yma ddim yn sail i Ddarpariaeth Dyled Ddrwg, sy'n cael ei chyfrif trwy ddefnyddio canrannau amrywiol. Bwriad hyn yw adlewyrchu'r risg nad oes modd casglu dyledion o oedrannau amrywiol, yn hytrach na'r gyfradd is o ddyledion i'w dileu ar gyfer y flwyddyn.

Mae gan fuddsoddiadau gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion a chyrff eraill wedi'u cefnogi gan y Llywodraeth y statws sy'n gymwys i fenthyca'r Llywodraeth.

Dydy'r Cyngor ddim fel arfer yn caniatáu credyd ar gyfer ei ddyledwyr masnach. Fodd bynnag, mae £5.6 miliwn o falans y ddyled, sef £13.8 miliwn, yn uwch na 30 diwrnod. Mae modd dadansoddi'r ddyled fel a ganlyn:

| | 31/03/2023 | 31/03/2024 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Llai na 3 mis | 1,490 | 1,162 |
| 3 - 6 mis | 995 | 148 |
| 6 mis i flwyddyn | 896 | 1,454 |
| Dros flwyddyn | 2,353 | 2,787 |
| **Cyfanswm** | **5,734** | **5,551** |

## 7.7 Risg o ran Hylifedd

Mae'r Cyngor yn rheoli ei safle hylifedd trwy weithdrefnau rheoli llif arian effeithiol.

Mae gan y Cyngor fynediad i fenthyciadau o'r marchnadoedd arian ar gyfer unrhyw anghenion llif arian o-ddydd-i-ddydd. Er bod y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) yn darparu mynediad i gronfeydd tymor hwy, mae hefyd yn gweithredu'n fenthyciwr i Gynghorau os daw hi i'r pen. Serch hynny, yn unol â chanllawiau'r PWLB ym mis Awst 2021, nid yw benthyciadau ar gael mwyach i gynlluniau'r Cyngor i brynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer elw neu ar gyfer manteisio ar gyfleoedd masnacheiddio yn unig. Mae gofyn i'r Cyngor ddarparu cyllideb fantoledig yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, sy'n sicrhau bod digon o arian yn cael ei godi i dalu am wariant blynyddol. Does dim risg arwyddocaol na fydd modd i'r Cyngor godi cyllid i fodloni ei ymrwymiadau o dan offerynnau ariannol.

## 7.8 Risg o ran Ail-ariannu ac Aeddfedu

Mae'r Cyngor yn cynnal portffolio dyled a buddsoddi arwyddocaol. Er bod y gweithdrefnau llif arian uchod yn cael eu hystyried yn erbyn y gweithdrefnau risg ail-ariannu, mae'r risg tymor hwy i'r Cyngor yn berthnasol i reoli'r perygl o osod offerynnau ariannol wrth iddyn nhw aeddfedu. Mae'r risg yma yn cyfeirio at rwymedigaethau ariannol tymor hwy yn aeddfedu ac asedau ariannol tymor hwy.

Y cyfyngiadau dangosydd darbodus wedi'u cymeradwyo ar gyfer strwythur aeddfedu'r ddyled a'r cyfyngiadau wedi'u gosod ar fuddsoddiadau â hyd o dros flwyddyn yw'r paramedrau allweddol wedi'u defnyddio i fynd i'r afael â'r risg yma. Mae'r strategaethau trysorlys a buddsoddi wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor yn mynd i'r afael â'r prif risgiau ac mae carfan y Trysorlys yn rheoli risgiau gweithredol o fewn paramedrau wedi'u cymeradwyo.

Mae hyn yn cynnwys:

- monitro proffil aeddfedu'r rhwymedigaethau ariannol a diwygio'r proffil trwy fenthyca newydd neu aildrefnu dyled bresennol; a
- monitro proffil aeddfedu buddsoddiadau i sicrhau bod hylifedd digonol ar gael ar gyfer anghenion llif arian y Cyngor o-ddydd-i-ddydd, ac mae ehangder buddsoddiadau tymor hwy yn darparu sefydlogrwydd o aeddfedrwydd ac adenillion mewn perthynas â'r anghenion llif arian tymor hwy.

Mae'r dadansoddiad aeddfedu o brifswm elfen Cyngor Rhondda Cynon Taf o rwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

| | **31/03/23** | **31/03/24** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Llai na blwyddyn | 92,892 | 10,494 |
| Rhwng blwyddyn a 2 flynedd | 10,421 | 10,421 |
| Rhwng 2 flynedd a 5 mlynedd | 31,259 | 38,219 |
| Rhwng 5 mlynedd a 10 mlynedd | 45,160 | 31,050 |
| Dros 10 mlynedd | 196,964 | 193,694 |
| **Cyfanswm** | **376,696** | **283,878** |

Mae'r dadansoddiad aeddfedu o asedau ariannol fel a ganlyn:

| | 31/03/2023 | 31/03/2024 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Aeddfedrwydd mwy na blwyddyn | 2,100 | 2,000 |
| Aeddfedrwydd llai na blwyddyn | 161,848 | 66,300 |
| **Cyfanswm** | **163,948** | **68,300** |

Dydy Dyledwyr Masnach ddim wedi'u cynnwys yn y tabl uchod.

## 7.9 Risg o ran y Farchnad

### Risg o ran y Gyfradd Llog

Mae'r Cyngor mewn perygl o symudiadau cyfraddau llog o ran arian wedi'i fenthyca a buddsoddiadau. Mae gan symudiadau mewn cyfraddau llog effaith gymhleth ar y Cyngor, gan ddibynnu ar sut mae cyfraddau newidiol a sefydlog yn symud ar draws cyfnodau offerynnau ariannol amrywiol.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfradd llog. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Flynyddol a'r Strategaeth Gyfalaf Flynyddol yn dod â dangosyddion darbodus y Cyngor at ei gilydd a'i weithrediadau trysorlys disgwyliedig, gan gynnwys disgwyliad o symudiadau cyfradd llog. Mae carfan y Trysorlys, ar y cyd ag Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys wedi'u penodi, yn monitro cyfraddau llog y farchnad a rhagolygon yn ystod y flwyddyn i addasu achosion lle mae'r Cyngor mewn perygl mewn modd addas.

Pe bai pob cyfradd llog 1% yn uwch (gyda phob newidyn arall yn gyson) yr effaith ariannol fyddai:

| | £'000 |
|---|---|
| Cynnydd yn y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau â chyfradd amrywiol | 1 |
| Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol | (15) |
| **Effaith ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | (14) |
| | |
| Gostyngiad yng ngwerth teg rhwymedigaethau benthyca cyfradd sefydlog (dim effaith ar CI&ES) | 35,214 |

Byddai'r effaith fras o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog fel yr uchod.

## 8.0 Dyledwyr Tymor Byr

Mae dadansoddiad o Ddyledwyr Tymor Byr ar y Fantolen fel a ganlyn:

| 31/03/23 (Wedi'i ailddatgan)* | | 31/03/24 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 71,288 | Cyrff Llywodraeth Ganolog | 63,917 |
| 12,950 | Awdurdodau Lleol eraill | 15,464 |
| 5,268 | Cyrff y GIG | 9,731 |
| 1,961 | Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Ma | 1,370 |
| 27,773 | Endidau ac Unigolion Eraill | 29,955 |
| **119,240** | **Cyfanswm** | **120,437** |

* Wedi'i ailddatgan oherwydd camddosbarthiad - roedd Cyrff GIG wedi'u gorddatgan o £16 miliwn a Chyrff Llywodraeth Ganolog wedi'u tanddatgan o'r un swm.

**Dyledwyr ar gyfer Trethiant Lleol**

Mae modd dadansoddi'r dyddiad talu blaenorol, ond nid y cyfanswm wedi'i amharu, ar gyfer Treth y Cyngor yn ôl oedran fel a ganlyn:

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 4,731 | Llai na blwyddyn | 5,328 |
| 2,029 | 1 - 2 mlynedd | 2,325 |
| 1,275 | 2 - 3 mlynedd | 1,515 |
Yn ystod 2023/24, cafodd £3,873 mil ei godi ar y Cyngor (£3,822 yn 2022/23) mewn perthynas â nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyfalaf. Y balans i'w dalu i WSP Glamorgan Consultancy Ltd ar 31 Mawrth 2024 oedd £417 mil (£726 mil yn 2022/23).

Talodd Capita Glamorgan Consultancy Ltd ddim i'r Cyngor (dim yn 2022/23) mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau, doedd dim byd (dim yn 2022/23) i'w dalu i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn.

## 29.6 Cyd-bwyllgorau

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cydbwyllgorau canlynol.

**Cyd-bwyllgor Archifau Morgannwg**

Mae Swyddfa Cofnodion Morgannwg yn cael ei rheoli a'i gweinyddu gan Gydbwyllgor Archifau Morgannwg o dan bwerau wedi'u cyflwyno gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae gan y Cydbwyllgor 16 o aelodau. Mae 4 Aelod o Gyngor Rhondda Cynon Taf ar y Cydbwyllgor.

Yn ystod 2023/24, cyfrannodd y Cyngor £225 mil at y Cydbwyllgor (£207 mil yn 2022/23). Cafodd hyn ei gyfrifo mewn modd cymesur yn seiliedig ar boblogaeth.

**Amlosgfa Llwydcoed**

Mae Amlosgfa Llwydcoed yn cael ei rheoli gan Gydbwyllgor o Aelodau o Gyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Merthyr Tudful.

Yn ystod 2023/24, cododd y Cyngor ffïoedd o £48 mil ar Amlosgfa Llwydcoed (£45 mil yn 2022/23) mewn perthynas â ffïoedd sefydliad canolog. Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Cyngor falansau arian parod o £1,379 mil mewn perthynas â'r Amlosgfa (£1,253 mil yn 2022/23).

**Gwasanaeth Cynnal a Gwella Ysgolion (ESIS)**

Daeth y Gwasanaeth yn anweithredol o 1 Medi 2012 a chafodd ei weinyddu gan Gydbwyllgor o Gynghorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae trafodaethau ynglŷn â chytundeb ymadael wrthi'n cael eu cynnal.

**Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES)**

Mae'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn darparu ystod eang o wasanaethau gwella ysgolion yn ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Mae'r Cyngor yn cyfuno 27.29% o asedau, rhwymedigaethau a thrafodion y gwasanaeth yn ei ddatganiadau ariannol.

Yn ystod 2023/24, derbyniodd y Cyngor £169 mil o incwm o Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (£117 mil yn 2022/23) mewn perthynas â gwasanaethau ymgynghorol a hyfforddi, yn ogystal â grantiau o £12,120 mil (£23,545 yn 2022/23). Cododd ffïoedd o £186 mil ar y gwasanaeth (£170 mil yn 2022/23) mewn perthynas â ffïoedd sefydliad canolog. Talodd y Cyngor wariant y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De o £1,133 mil (£1,081 mil yn 2022/23). Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Cyngor falansau o £2,037 mil i'w talu i Wasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De (roedd gan y Cyngor falansau o £2,222 mil i'w talu i'r Gwasanaeth ar 31 Mawrth 2023). Yn rhan o broses gyfuno'r Cydbwyllgor, mae trafodion a balansau sy'n canslo effeithiau eraill yn cael eu dileu o'r cyfrifon i sicrhau nad yw gwerthoedd unigol yn cael eu nodi mwy nag unwaith. Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn dosbarthu grantiau i awdurdodau sy'n cymryd rhan, ar ran Llywodraeth Cymru.

**Amlosgfa Llangrallo**

Mae Cydbwyllgor yn berchen ar Amlosgfa Llangrallo ac yn ei rheoli ar ran Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf.

Ar 31 Mawrth 2024 nid oedd unrhyw falansau heb eu talu rhwng y Cyngor ac Amlosgfa Llangrallo (dim balansau heb eu talu ar 31 Mawrth 2023).

**Cynllun Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (VVC)**

Daeth Cynllun Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn weithredol ar 1 Mehefin 2015 ac mae'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae gwasanaethau maethu Cynghorau Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chaerdydd yn rhan o'r cynllun yma. Dyma un o bum cynllun cydweithredol sy'n rhan o Wasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru (NAS).

Yn ystod 2023/24, cyfrannodd y Cyngor £603 mil tuag at Gynllun Mabwysiadu Cydweithredol Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (£603 mil yn 2022/23).

**Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD)**

Ar 15 Mawrth 2016, arwyddodd Arweinwyr y deg Cyngor yn Ne Ddwyrain Cymru, Prif Weinidog Cymru, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, cytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r deg arweinydd. Bwriad y cytundeb yw datblygu a rheoli buddsoddiad £1.2 biliwn yn seilwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy Gronfa Buddsoddi 20 mlynedd.

Mae'r Cyngor yn cyfuno 15.77% o asedau, rhwymedigaethau a thrafodion y gwasanaeth yn ei ddatganiadau ariannol.

Yn ystod 2023/24, bu cyfraniad refeniw o £202,000 (£192 mil yn 2022/23), mil Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD), ni chafwyd unrhyw gyfraniad cyfalaf (dim yn 2022/23).

O 1 Ebrill 2024, bydd gweithgareddau'r Fargen Ddinesig yn trosglwyddo i Gydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (SEWCJC), corff corfforaethol rhanbarthol sydd â phwerau a dyletswyddau sy'n weddol debyg i awdurdodau lleol.

## 29.7 <u>Cytundeb Partneriaeth</u>

### Safle Gwastraff Bwyd Cwm Yfory Biogen

Daeth Safle Gwastraff Bwyd Biogen yn gwbl weithredol ar 19 Gorffennaf 2015. Mae'r 3 awdurdod lleol sy'n rhan o'r Hwb (Cyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Merthyr Tudful a Chyngor Dinas Casnewydd) yn anfon 13,500 o dunelli, sy'n isafswm cyfun ymrwymedig, bob blwyddyn i'r cyfleuster. Yn 2023/24 mae'r partïon wedi mynd i gyfanswm o gostau cysylltiedig o £1,115 mil (£1,063 mil yn 2022/23). Roedd costau cysylltiedig RhCT yn 2023/24 yn £617 mil (£582 mil yn 2022/23). Cyfrannodd Llywodraeth Cymru £124 mil (£124 mil yn 2022/23) o gyllid grant.

## 29.8 <u>Partïon Cysylltiedig Eraill</u>

### Trivallis

Trivallis yw un o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mwyaf Cymru sy'n darparu tai ar gyfer miloedd o deuluoedd yn Rhondda Cynon Taf. Mae 1 Aelod o Gyngor Rhondda Cynon Taf ar fwrdd Trivallis. Mynegodd dau aelod arall berthynas.

Yn ystod 2023/24, talodd y Cyngor Trivallis £1,201 mil (£1,159 mil yn 2022/23) a derbyniodd incwm o £2,487mil (£2,957 yn 2022/23). Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan Trivallis swm o £1 mil i'w dalu i'r Cyngor (£367 mil yn 2022/23).

### Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf

Mae gan y Cyngor fenthyciad y cytunwyd arno'n fasnachol gyda Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf. Y balans sy'n ddyledus ar 31 Mawrth 2024 yw £2.1 miliwn (£2.2 miliwn ar 31 Mawrth 2023).

## 30.0 Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Mae cyfanswm gwariant cyfalaf y flwyddyn wedi'i nodi yn y tabl isod (gan gynnwys gwerth yr asedau wedi'u caffael o dan brydlesi cyllid), yn ogystal â'r adnoddau sydd wedi cael eu defnyddio i'w ariannu. Os bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu yn y dyfodol trwy daliadau i refeniw gan fod asedau yn cael eu defnyddio gan y Cyngor, bydd canlyniadau gwariant yn gynnydd yn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf (CFR) – mesur o'r gwariant cyfalaf y mae'r Cyngor wedi'i wneud yn y gorffennol ond heb ei ariannu eto. Mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn cael ei ddadansoddi yn ail hanner y nodyn yma.

| | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agored | 502,763 | 503,255 |
| | | |
| **Buddsoddi Cyfalaf:** | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 116,956 | 150,619 |
| Asedau Anniriaethol | 3,296 | 3,321 |
| Gwariant Refeniw wedi'i Ariannu gan Gyfalaf o Dan Statud | 14,843 | 15,928 |
| | **135,095** | **169,868** |
| **Ffynonellau Cyllid:** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | (934) | (165) |
| Cronfa Datblygiadau Cyfalaf | (2,661) | (366) |
| Grantiau gan y Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill | (92,170) | (114,683) |
| | **(95,765)** | **(115,214)** |
| **Symiau a Neilltuwyd o Refeniw:** | | |
| Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol | (23,723) | (28,105) |
| Isafswm Taliad Refeniw | (15,115) | (15,482) |
| | **(38,838)** | **(43,587)** |
| | | |
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Caeëdig** | **503,255** | **514,322** |
| | | |
| **Esboniad o Newidiadau yn ystod y Flwyddyn** | | |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn yr angen sylfaenol i fenthyca a gefnogir gan gymorth ariannol y llywodraeth | (968) | (1,156) |
| Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (heb ei gefnogi gan gymorth ariannol y Llywodraeth) | 1,461 | 12,224 |
| Prydlesi Cyllid | (1) | (1) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | **492** | **11,067** |

## 31.0 Prydlesi

Mae'r datgeliadau canlynol yn berthnasol i'r Cyngor fel prydleswr.

## 31.1 Prydlesi Cyllid

Mae gan y Cyngor nifer o eiddo wedi'u trefnu o dan brydlesi cyllid. Mae'r asedau wedi'u caffael o dan y prydlesi yma yn cael eu nodi fel Eiddo, Gwaith ac Offer yn y Fantolen yn ôl y symiau net canlynol:

| | 31/03/23 | 31/03/24 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Tir Arall ac Adeiladau Eraill | 155 | 150 |

Mae'r asedau yma'n rhan o adolygiad amharu'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i wneud isafswm o daliadau o dan y prydlesi yma sy'n cynnwys sefydlu'r rhwymedigaeth Tymor Hir ar gyfer llog yr eiddo a chostau cyllid sydd i'w talu yn y dyfodol tra bod y rhwymedigaeth heb ei thalu. Mae'r taliadau prydles lleiaf wedi'u gwneud o'r symiau canlynol:

| | 31/03/23 | 31/03/24 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Rhwymedigaethau Prydles Ariannol:** | | |
| Cyfredol | 1 | 1 |
| Tymor Hir | 381 | 380 |
| Costau cyllid sy'n daladwy yn y dyfodol | 1,145 | 1,123 |
| **Isafswm Taliadau Prydles** | **1,527** | **1,504** |

Bydd y taliadau prydles lleiaf i'w talu dros y cyfnodau canlynol:

| | Isafswm Taliadau Prydles | | Prydles Cyllid Rhwymedigaethau | |
|---|---|---|---|---|
| | 31/03/23 | 31/03/24 | 31/03/23 | 31/03/24 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Llai na blwyddyn | 23 | 23 | 1 | 1 |
| 1 i 5 mlynedd | 113 | 113 | 5 | 5 |
| Mwy na 5 mlynedd | 1,391 | 1,368 | 376 | 375 |
| **Cyfanswm** | **1,527** | **1,504** | **382** | **381** |

## 31.2 Prydlesi Gweithredol

Mae taliadau prydles lleiaf sydd i'w talu yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol nad oes modd eu canslo yn y dyfodol yn cael eu nodi yn y tabl isod. Enghreifftiau o asedau o'r fath sy'n cael eu defnyddio o dan drefniadau prydles gweithredol yw llungopiwyr ac argraffyddion.

| | 31/03/23 | | | 31/03/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tir Arall ac Adeiladau** | **Cerbydau, Peiriannau ac Offer.** | **Cyfanswm** | **Tir Arall ac Adeiladau** | **Cerbydau, Peiriannau ac Offer** | **Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Heb fod yn hwyrach na | 470 | 703 | 1,173 | 303 | 733 | 1,036 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a ddim | 966 | 1,416 | 2,382 | 671 | 1,393 | 2,064 |
| Yn hwyrach na 5 mlynedd | 1,778 | 119 | 1,897 | 3,765 | 130 | 3,895 |
| **Cyfanswm** | **3,214** | **2,238** | **5,452** | **4,739** | **2,256** | **6,995** |

Y gwariant wedi'i godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesi yma oedd:

| | **31/03/23** | **31/03/24** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Isafswm Taliadau Prydles | 1,511 | 1,543 |

## 31.3 Isbrydlesi

Mae gan y Cyngor adeiladau sy'n cael eu his-osod. Mae disgwyl i daliadau isbrydles nad oes modd eu canslo gael eu derbyn tan y dyddiad y bydd y brydles yn dod i ben. Mae'r taliadau wedi'u dangos yn y tabl isod:

| | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Llai na blwyddyn | 202 | 292 |
| 1 i 5 mlynedd | 677 | 1,013 |
| Mwy na 5 mlynedd | 734 | 836 |
| **Cyfanswm** | **1,613** | **2,141** |

## 31.4 Prydlesi Gweithredu gyda'r Cyngor yn Brydleswr

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i nifer o brydlesi gweithredu gyda lesddeiliaid mewn perthynas â thir ac adeiladau. Mae cyfanswm y taliadau prydles blynyddol ar gyfer y dyfodol sy'n ddyledus i'r Awdurdod fel a ganlyn:

| | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Llai na blwyddyn | 1,074 | 1,224 |
| 1 i 5 mlynedd | 4,382 | 4,794 |
| Mwy na 5 mlynedd | 6,775 | 6,168 |
| **Cyfanswm** | **12,231** | **12,186** |

## 32.0 Colledion Amharu

Yn ystod 2023/24, mae'r Cyngor wedi cydnabod colled amharu o £34.2 miliwn (colled o £17.9 miliwn yn 2022/23) mewn perthynas â'i Asedau Tymor Hir. Mae'r tâl amharu yma yn cael ei gynnwys yn nodyn Ased Tymor Hir 6.1, sydd hefyd yn cynnwys gwrthdroi amharu o flynyddoedd blaenorol.

## 33.0 Buddion Ymddeol – Cynlluniau Budd Diffiniedig

### 33.1 Cymryd Rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Yn rhan o'u telerau ac amodau, mae buddion ymddeol yn cael eu cynnig i Aelodau a Swyddogion gan y Cyngor. Er na fydd y buddion yma'n cael eu talu tan fydd yr unigolyn yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau yma. Mae angen rhoi cyfrif am y rhwymedigaeth ar gyfer y taliadau yma pan fydd gan yr unigolyn yr hawl i'r buddion.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn:

- Athrawon – Cyfeiriwch at nodyn 34.0.

- Gweithwyr eraill ac Aelodau – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'i weinyddu gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Dyma gynllun buddion gyrfa cyfartalog diffiniedig wedi'i ariannu. Mae'r Cyngor a chyfranogwyr yn talu rhandaliadau i'r gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel sydd â'r bwriad o gydbwyso rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddi. Mae'r costau pensiwn sy'n cael eu codi i gyfrifon y Cyngor yn cael eu diffinio gan IAS 19 fel "Buddion Gweithwyr".

Mae Cydbwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn codi costau pensiwn i'w gyfrifon yn unol ag IAS 19. Mae rhan Cyngor Rhondda Cynon Taf o'r cofnodion yma yn cael ei chyfuno â'r prif gyfrifon, a'i datgelu yn y nodiadau canlynol.

### 33.2 Trafodion sy'n berthnasol i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae cost y buddion ymddeol yn cael ei chydnabod yng nghost y gwasanaethau unwaith iddyn nhw gael eu sicrhau gan weithwyr, yn hytrach nag wrth i'r buddion gael eu talu fel pensiynau. Serch hynny, mae'r tâl mae angen i ni ei wneud yn erbyn Treth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian sydd i'w dalu yn y flwyddyn. Mae cost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael eu gwrthdroi o'r Gronfa Bensiwn trwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Cyngor trwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

| | 2022/23 | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhondda Cynon Taf | Cyd-bwyllgorau | Cyfanswm |
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| Costau'r Gwasanaethau: | | | | |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol | 84,141 | 37,150 | 255 | 37,405 |
| Cost Gwasanaeth yn y Gorffennol | 1,790 | 3,430 | 0 | 3,430 |
| *Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi:* | | | | |
| Gwariant Llog Net | 15,763 | 5,100 | (77) | 5,023 |
| **Cyfanswm y Budd-dal Ôl-gyflogaeth sy'n cael ei godi ar y Gwarged neu'r Diffyg ar** | **101,694** | **45,680** | **178** | **45,858** |
| *Ailfesur y Net Diffiniedig Atebolrwydd Budd-dal yn cynnwys:* | | | | |
| Dychwelyd ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio'r Swm sy'n cael ei gynnwys yn Nhreuliau | 166,501 | (88,450) | (556) | (89,006) |
| (Enillion) Actiwaraidd a Cholledion yn Codi ar Rwymedigaethau - Rhagdybiaeth | (993) | (23,420) | (111) | (23,531) |
| (Enillion) Actiwaraidd a Cholledion yn Codi | (815,750) | (52,670) | (261) | (52,931) |
| (Enillion) Actiwaraidd a Cholledion yn Codi | 112,874 | 20,820 | 81 | 20,901 |
| Cyfyngiad Gwarged | 0 | 19,390 | 1,012 | 20,402 |
| **Cyfanswm y Budd-dal Ôl-gyflogaeth sy'n cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(435,674)** | **(78,650)** | **343** | **(78,307)** |
| | | | | |
| **Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn:** | | | | |
| Gwrthdroi taliadau net a wnaed i’r Gwarged neu Ddiffyg ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth yn unol â’r cod | (101,694) | (45,680) | (178) | (45,858) |
| *Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans Cronfa’r Cyngor ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn:* | | | | |
| Cyfraniadau cyflogwyr yn daladwy i'r ymddiriedolaeth | 42,335 | 40,590 | 94 | 40,684 |

Cyfanswm ailfesuriad y Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig Net wedi'i nodi yn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall ar 31 Mawrth 2024 yw enillion o £124.2 miliwn (enillion o £537.4 miliwn yn 2022/23).

Cyfanswm cronnus enillion a cholledion actiwaraidd wedi'i nodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2024 yw enillion o £661.6 miliwn.

## 33.3 Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun

| | 2022/23 | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhondda Cynon Taf | Cyd-bwyllgorau | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **2,107,141** | **1,497,680** | **6,990** | **1,504,670** |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol | 84,141 | 37,150 | 255 | 37,405 |
| Cost Llog ar Rwymedigaeth Ddiffiniedig | 56,352 | 69,230 | 325 | 69,555 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | 11,631 | 11,970 | 113 | 12,083 |
| ***Ailfesur (Enillion) a Cholledion*** | | | | 0 |
| (Enillion) Actiwaraidd a Cholledion yn Codi ar Rwymedigaethau - Rhagdybiaeth | (993) | (23,420) | (111) | (23,531) |
| (Enillion) Actiwaraidd a Cholledion yn Codi | (815,750) | (52,670) | (261) | (52,931) |
| (Enillion) Actiwaraidd a Cholledion yn Codi | 112,874 | 20,820 | 81 | 20,901 |
| Buddion wedi'u talu | (52,516) | (63,090) | (272) | (63,362) |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol | 1,790 | 3,430 | 0 | 3,430 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,504,670** | **1,501,100** | **7,120** | **1,508,220** |

## 33.4 Cysoni Gwerth Teg Asedau'r Cynllun

| | 2022/23 | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhondda Cynon Taf | Cyd-bwyllgorau | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **1,502,181** | **1,369,130** | **8,589** | **1,377,719** |
| Incwm Llog | 40,589 | 64,130 | 402 | 64,532 |
| **Ailfesur (Enillion) a Cholledion:** | | | | 0 |
| Yr Enillion ar Asedau'r Cynllun, ac eithrio'r Swm sy'n cael ei gynnwys yn y | (166,501) | 88,450 | 556 | 89,006 |
| Cyfraniadau gan y Cyflogwyr | 42,335 | 40,590 | 94 | 40,684 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | 11,631 | 11,970 | 112 | 12,082 |
| Buddion wedi'u talu | (52,516) | (63,090) | (272) | (63,362) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,377,719** | **1,511,180** | **9,481** | **1,520,661** |

Mae'r adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun yn cael eu pennu gan ystyried yr adenillion disgwyliedig sydd ar gael ar yr asedau sy'n sylfaen i'r polisi buddsoddi presennol. Mae'r arenillion disgwyliedig ar fuddsoddiadau llog sefydlog yn seiliedig ar arenillion adbrynu gros yn ôl dyddiad y Fantolen.

Mae adenillion disgwyliedig buddsoddiadau ecwiti yn adlewyrchu cyfraddau tymor hir o adenillion yn y marchnadoedd priodol. Adenillion asedau'r cynllun yn y flwyddyn oedd colled o £153.54 miliwn (colled o £124.51 miliwn yn 2022/23).

## 33.5 Hanes y Cynllun

| | 2019/20 Yn cynnwys Cyd- | 2020/21 Yn cynnwys Cyd- | 2021/22 Yn cynnwys Cyd- | 2022/23 Yn cynnwys Cyd- | 2023/24 Yn cynnwys Cyd- |
|---|---|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| Gwerth Presennol y Rhwymedigaeth Diffiniedig | (1,760,955) | (2,180,257) | (2,107,141) | (1,504,670) | (1,508,220) |
| Gwerth Teg Asedau'r | 1,103,321 | 1,471,559 | 1,502,181 | 1,377,719 | 1,520,661 |
| Ased Anadnabyddus | 0 | 0 | 0 | 0 | (20,402) |
| **Costau sy'n Weddill/(Diffyg** | **(657,634)** | **(708,698)** | **(604,960)** | **(126,951)** | **(7,961)** |

Mae'r rhwymedigaethau yn dangos yr ymrwymiadau sydd gan y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddion (ymddeol) ôl-gyflogaeth. Mae gan gyfanswm y rhwymedigaeth, sef £8 miliwn, effaith sylweddol ar Werth Net y Cyngor, fel sydd wedi'i nodi yn y Fantolen. Mae trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu nad oes effaith ar safle ariannol y Cyngor. Mae'r diffyg ar y cynllun llywodraeth leol yn cael ei wneud yn unol â rhagdybiaethau actiwaraidd.

## 33.6 Asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Ar 31 Rhagfyr 2023, roedd Asedau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi'u defnyddio i gyfrifo IAS19 yn cynnwys:

| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | | |
|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 |
| | £'000 | £'000 |
| Ecwitïau'r DU | 443,611 | 171,014 |
| Ecwitïau Gwledydd Tramor | 2,354,047 | 2,702,245 |
| Giltiau Llog Sefydlog y DU | 429,562 | 548,487 |
| Bondiau Corfforaethol y DU | 507,735 | 702,339 |
| Eiddo | 318,236 | 291,347 |
| Isadeiledd | 21,975 | 17,628 |
| Arian Parod ac Asedau Cyfredol | 27,511 | 58,587 |
| **Cyfanswm** | **4,102,677** | **4,491,647** |

## 33.7 Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

### Trosglwyddo Asedau

Mae canlyniadau'r prisiant llawn diwethaf o'r Gronfa (neu ganlyniadau ar y dyddiad cyfrifyddu blaenorol lle bo'n addas) yn cael eu haddasu yn ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu er mwyn rhagweld:

- Adenillion buddsoddi, a
- Llifoedd arian gan gynnwys adenillion buddsoddi ar y llifoedd arian hynny.

Mae gwerth yr ased ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu yn cael ei gronni gydag adenillion y buddsoddiad Cronfa dros y cyfnod cyfrifyddu. Mae disgwyl i lifoedd arian net gael eu talu hanner ffordd trwy'r cyfnod a chronni hanner adenillion buddsoddi'r Gronfa dros y cyfnod.

**Trosglwyddo Rhwymedigaethau**

Mae canlyniadau'r prisiant llawn diwethaf o'r Gronfa (neu ganlyniadau ar y dyddiad cyfrifyddu blaenorol lle bo'n addas) yn cael eu haddasu fel bod modd caniatáu'r dyddiad cyfrifyddu diweddarach (trwy ychwanegu llog at y rhwymedigaethau) ac ystyried newidiadau i rwymedigaethau o ganlyniad i'r canlynol:

- Cynnydd buddion newydd a rhyddhau rhwymedigaethau o dalu buddion.
- Y rhagdybiaethau ariannol a demograffig wedi'u mabwysiadu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Effaith profiad sy'n effeithio ar y rhwymedigaethau, megis effaith cynnydd pensiynau ar bensiynau sydd i'w talu a buddion gohiriedig.
- Os yw'n berthnasol, effaith digwyddiadau sy'n arwain at newid yn y rhwymedigaeth, megis costau gwasanaeth blaenorol, taliadau llawn ac ennill trwy gwtogi.

Roedd y prisiant llawn yn seiliedig ar fuddion wedi'u hariannu a'r prif ragdybiaethau wedi'u defnyddio gan yr actiwari:

| | 31/03/23 | 31/03/24 |
|---|---|---|
| Cyfradd Elw Ddisgwyliedig Tymor Hir ar Asedau yn y Cynllun (yn unol â'r gyfradd ddisgownt) | 4.30% | 4.30% |
| Rhagdybiaethau marwolaeth: | | |
| Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr presennol: | | |
| Dynion | 21.6 | 21.0 |
| Menywod | 24.2 | 23.8 |
| Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr y dyfodol: | | |
| Dynion | 22.9 | 22.3 |
| Menywod | 25.7 | 25.2 |
| Cyfradd chwyddiant (CPI) | 2.7% | 2.6% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.95% | 3.85% |
| Graddfa'r cynnydd ynghylch pensiynau | 2.7% | 2.6% |
| Cyfradd ar gyfer rhwymedigaethau cynllun | 4.7% | 4.8% |
| Manteisio ar yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad adeg ymddeol | 85% | 85% |

Mae'r rhagdybiaethau actiwaraidd wedi'u nodi yn y tabl uchod yn cael effaith ar yr amcangyfrif o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig. Mae'r dadansoddiad isod wedi cael ei bennu ar newidiadau posibl rhesymol o'r rhagdybiaethau sy'n codi ar ddiwedd y cyfnod, ac mae'n tybio bod y dybiaeth wedi'i dadansoddi yn newid tra bod y rhagdybiaethau eraill yn parhau i fod yn gyson.

| | Rhondda Cynon Taf | | Cyd-bwyllgorau | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynnydd yn y | Gostyngiad yn y | Cynnydd yn y | Gostyngiad yn y | Cynnydd yn y | Gostyngiad yn y |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Hirhoedledd (Cynnydd neu Ostyngiad mewn Blwyddyn) | 38,790 | (37,290) | 185 | (178) | 38,975 | (37,468) |
| Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau (Cynyddu neu Leihau gan | 2,980 | (2,980) | 14 | (14) | 2,994 | (2,994) |
| Graddfa'r cynnydd ynghylch Pensiynau (Cynyddu neu Leihau gan | 22,380 | (22,380) | 114 | (107) | 22,494 | (22,487) |
| Cyfradd Rhwymedigaethau Cynllun Gostyngol (Cynnydd neu | (25,360) | 25,360 | (121) | 128 | (25,481) | 25,488 |

## 33.8 Cyfraniadau ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025

Amcangyfrif cyfraniadau rheolaidd y cyflogwr at y Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu 31 Mawrth 2025 yw £38.8 miliwn. Yn ychwanegol at hyn, mae'n bosibl y bydd angen cyfraniadau straen ar gronfa.

Mae modd gweld rhagor o wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn sydd ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn RhCT ac ar gais gan y Dirprwy Brif Weithredwr/ Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng-flaen, Tŷ Oldway, Y Porth, Cwm Rhondda, CF39 9ST.

## 34.0 Buddion Ymddeol – Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig

Mae athrawon wedi'u cyflogi gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, sydd wedi'i weinyddu gan Bensiynau Athrawon ar ran Adran Addysg. Mae'r Cynllun yn darparu buddion penodol i athrawon ar ôl ymddeol, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau trwy wneud cyfraniadau sy'n seiliedig ar ganran o gyflogau pensiwn aelodau.

Mae'r Cynllun, yn dechnegol, yn gynllun buddion diffiniedig. Serch hynny, dydy'r Cynllun ddim yn cael ei ariannu, ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol i gyfrif cyfradd gyfrannu'r cyflogwr sy'n cael ei thalu gan awdurdodau lleol. Does dim modd i'r Cyngor bennu ei safle a chyflawniad ariannol o ran y Cynllun gyda sicrwydd digonol at ddibenion cyfrifyddu. At ddibenion y Datganiad o Gyfrifon yma, mae'n cael ei nodi ar yr un sail â chynllun cyfrannu diffiniedig.

Yn 2023/24, talodd y Cyngor £22.5 miliwn i Bensiynau Athrawon mewn perthynas â buddion ymddeol athrawon, gan gynrychioli 23.68% o gyflog pensiynadwy. Y ffigurau ar gyfer 2022/23 oedd £21.1 miliwn, gan gynrychioli 23.68% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn gyfrifol am bob taliad pensiwn sy'n berthnasol i flynyddoedd ychwanegol y mae wedi'u dyfarnu, ynghyd â chynnydd cysylltiedig. Yn 2023/24, cyfanswm y ffigurau yma oedd £681 (£654 mil yn 2022/23).

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddion ychwanegol sy'n cael eu dyfarnu ar ôl ymddeoliad cynnar y tu allan i delerau'r cynllun i athrawon. Mae cyfrif am y costau yma ar sail buddion diffiniedig.

## 35.0 Ymrwymiadau wrth gefn

### 35.1 Yswiriant

Mae'r Cyngor yn atebol am hawliadau yswiriant mewn perthynas â rhai digwyddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn erbyn y Cyngor. Ar 31 Mawrth 2024, mae darpariaeth wedi'i neilltuo mewn perthynas â'r hawliadau sydd wedi cael eu cyflwyno. Mae yna rwymedigaeth ddigwyddiadol bellach mewn perthynas â digwyddiadau a fydd wedi digwydd ond sydd heb arwain at hawliad hyd at ddyddiad y cyfrifon. Mae'r "statud cyfyngiadau" yn pennu'r amserlen ar gyfer pryd mae modd gwneud cais mewn perthynas â rhywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae cronfa wrth gefn a glustnodwyd wedi cael ei sefydlu er mwyn cyfrannu at gostau'r digwyddiadau yma.

Oherwydd nifer yr hawliadau ac amgylchiadau gwahanol pob hawliad unigol, does dim modd i ni ddarparu cynnig o'r effaith ariannol posibl. Yn yr un modd, byddai rhoi syniad o'r ansicrwydd mewn perthynas â swm y dyledion ac amseru'r dyledion hynny yn anymarferol.

Caiff hawliadau yswiriant hefyd eu nodi yn nodyn 4.2.

### 35.2 Municipal Mutual Insurance Ltd.

Mae hen awdurdodau Cyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda, Cyngor Bwrdeistref Cwm Cynon, Cyngor Bwrdeistref Taf-elái a Chyngor Sir Morgannwg Ganol yn gredydwyr Municipal Mutual Insurance Ltd. (MMI). Roedd Municipal Mutual Insurance Cyf. (MMI) wedi rhoi'r gorau i ddarparu yswiriant busnes o 30 Medi 1992 a chafodd Cynllun o Drefniant ei roi ar waith ym mis Ionawr 1994. Er mwyn sicrhau bod MMI yn rheoli ei fusnes yn drefnus ac yn ddiddyled, rhoddwyd cynllun trefniant gyda'i gredydwyr ar waith ym mis Ionawr 1994. Ac yntau'n credydwr o MMI, mae'r Cyngor wedi'i rwymo yn gyfreithiol gan y Cynllun yma ac ym mis Tachwedd 2012, cafodd y cynllun ei gychwyn.

Bydd unrhyw daliadau setlo yn y dyfodol a wneir gan MMI ar ôl gosod yr ardoll gychwynnol yn cael ei wneud ar y gyfradd is o 75%. Bydd cronfeydd yr awdurdodau eraill yn talu'r 25% sy'n weddill. Mae gohebiaeth gan weinyddwr y cynllun yn nodi nad yw'n bosibl gwarantu y bydd yr ardoll gychwynnol a'r ail ardoll, a gafodd eu talu ym mis Chwefror 2014 a mis Mai 2016, yn ddigon ond dyma'r amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Mae'r cynllun yn gofyn bod y gweinyddwr yn adolygu'r Ardoll o leiaf unwaith y flwyddyn. Gan ystyried yr ansicrwydd mewn perthynas â faint o wahaniaeth bydd y gwaith cychwynnol yn ei gael, mae gan y Cyngor rwymedigaeth ddigwyddiadol oherwydd mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn destun i waith ychwanegol yn amodol ar adnoddau MMI, yr yswiriwr.

### 35.3 Rhwymedigaeth / Ased Pensiynau

Dyfarnodd yr Uchel Lys ym mis Mehefin 2023 fod newidiadau i fuddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig wedi'u contractio allan rhwng 1996 a 2016 yn gofyn am dystysgrifau actiwaraidd o dan adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993. Lle nad oes ardystiad, neu os nad yw'r tystysgrifau ar gael, bydd y newidiadau'n cael eu hystyried yn ddi-rym. Mae hyn yn berthnasol i hawliau gwasanaeth yn y gorffennol a gwasanaethau yn y dyfodol boed hynny'n arwain at anfantais neu fudd i aelodau'r cynllun. Gwrthodwyd apêl gan y Llys Apêl ym mis Awst 2024. Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) ar hyn o bryd yn adolygu newidiadau cynllun ar gyfer y CPLlL ymhlith cynlluniau eraill i gadarnhau a oes tystysgrifau actiwaraidd ar gael. Mae ceisiadau wedi'u gwneud i'r Adran Gwaith a Phensiynau i ystyried gwneud rheoliadau o dan adran 37(2) o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 i ddilysu unrhyw ddiwygiad y bernir ei fod yn ddi-rym yn unig oherwydd nad yw cadarnhad actiwaraidd ysgrifenedig wedi'i dderbyn na'i leoli. Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi nodi a fydd yn bwrw ymlaen â hyn.

Mae rhwymedigaeth bosibl o werth ac amseriad anhysbys oherwydd yr ansicrwydd a nodir uchod.

## 36.0 Cronfa Ymddiriedolaeth

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ar gyfer sawl elusen. Caiff cyfrifon ar wahân eu cynnal ar gyfer yr elusennau yma. Ar 31 Mawrth 2024, roedd asedau net y Cyngor fel a ganlyn, dydy'r asedau net ddim wedi cael eu cynnwys ym Mantolen y Cyngor. Mae ffigyrau 2023/24 yn amodol ar archwiliad (Archwilio Cymru o ran Deddf yr Eglwys yng Nghymru, Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer y cronfeydd eraill).

| | Disgrifiad | 31/03/23 | 31/03/24 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Addysg ac Amrywiol | Cronfeydd amrywiol wedi eu sefydlu ar gyfer | 270 | 283 |
| Rhondda Cynon Taf Elusen i'r rhai â Nam ar eu Golwg | Cronfa wedi'i sefydlu er budd dinasyddion â nam ar eu golwg | 14 | 14 |
| Deddf yr Eglwys yng Nghymru Cronfa | Cronfa wedi'i sefydlu dan Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer amrywiol nodau elusennol yn siroedd Rhondda Cynon | 13,184 | 13,993 |

## 37.0 Cyllidebau ar y Cyd

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllideb gyfun gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, CBS Merthyr Tudful a CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer darparu llety cartref gofal. Mae gan y Cyngor a'i bartneriaid gytundeb ar waith ar gyfer ariannu'r gwasanaethau yma, gyda'r Cyngor yn cyfrannu arian i gyllideb gytunedig sy'n cyfateb i 44% yn 2023/24 (48% yn 2022/23). Defnyddir yr un gyfran i dalu unrhyw ddiffyg neu rannu unrhyw warged sy'n codi ar y gyllideb gyfun ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Mae'r gyllideb gyfun yn cael ei chynnal gan y Cyngor ar ran y partneriaid eraill i'r cytundeb.

| | 2022/23 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cyllid a Ddarperir i'r gyllideb gyfun:** | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol | (29,081) | | (30,825) | |
| Partneriaid Eraill | (31,397) | | (39,160) | |
| Balans c/y | (13) | | (60) | |
| Incwm Arall a Dderbyniwyd | (53) | | (197) | |
| | | **(60,544)** | | **(70,242)** |
| | | | | |
| **Gwariant a dalwyd o'r gyllideb gyfun:** | | | | |
| Cyfanswm y Gwariant | 60,484 | | 69,991 | |
| | | **60,484** | | **69,991** |
| | | | | |
| **(Gwarged)/Diffyg Net yn codi ar y gyllideb gyfun yn ystod y flwyddyn** | | **(60)** | | **(251)** |
| | | | | |
| **Cyfran Rhondda Cynon Taf o'r (Gwarged)/Diffyg net yn deillio o'r gyllideb gyfun** | | **(29)** | | **(110)** |

Mae ffigurau 2023/24 yn rhai drafft, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru.

# Cyfrifon Grŵp

## 1. Cyflwyniad

Er mwyn adlewyrchu natur y gwasanaethau a ddarperir yn y sector cyhoeddus, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi set lawn o ddatganiadau ariannol grŵp, yn ogystal â'u cyfrifon endid sengl, lle mae ganddyn nhw fuddiannau perthnasol mewn is-gwmnïau, cwmnïau cyswllt neu fentrau ar y cyd.

Mae Datganiadau Cyfrifon Grŵp yn cynnwys:

- Datganiad o Bolisïau Cyfrifo Grŵp.
- Datganiad ynglŷn â'r Symudiad Grŵp yn y Cronfeydd Wrth Gefn.
- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Grŵp.
- Mantolen Grŵp.
- Datganiad Llif Arian Grŵp.

## 2. Cyrff Cyfunol

Yn dilyn adolygiad o weithgareddau'r Cyngor, mae'r canlynol wedi'u nodi fel cwmnïau grŵp ac wedi'u cyfuno â datganiadau ariannol y grŵp:

- **Amgen Cymru Ltd.** - Sefydlwyd y cwmni yma gan yr hen Gyngor Bwrdeistref Cwm Cynon fel cwmni hyd braich o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1990. Mae wedi'i gofrestru fel "Cynon Valley Waste Disposal Company Limited" ond mae'n masnachu fel "Amgen Cymru Ltd". Prif weithgareddau'r cwmni yw darparu gwasanaethau ailgylchu a chyfleusterau gwaredu gwastraff. Mae gan y Cyngor fuddiant o 100% yn y cwmni o £2.8 miliwn. Mae'r cwmni yn is-gwmni i'r Cyngor.

- **Amgen Rhondda Ltd.** - Sefydlwyd y cwmni ym mis Medi 1999 fel is-gwmni i Amgen Cymru Ltd y mae'r Cyngor yn berchen arno'n llwyr. Prif weithgaredd y cwmni o hyd yw stiwardiaeth safle tirlenwi caeedig a chyfleoedd cysylltiedig i gydnabod incwm. Ym mis Ebrill 2005 ymrwymodd y cwmni i gytundeb stiwardiaeth ffurfiol gyda CBS Rhondda Cynon Taf, sy'n darparu ar gyfer adfer a stiwardiaeth hirdymor y cyfleuster ar y cyd â'r cyfranddaliwr.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn berchen ar 100% o hawliau pleidleisio cwmni Amgen Cymru Ltd, sydd, yn ei dro, yn berchen ar 100% o hawliau pleidleisio cwmni Amgen Rhondda, ac felly mae'n cael ei ddosbarthu fel is-gorff.

Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn berchen ar 100% o'r rhandaliadau dewisol yng nghwmni Amgen Rhondda Ltd.

Mae datganiadau ariannol unigol Cwmni Gwaredu Gwastraff Cwm Cynon ac Amgen Rhondda Ltd wedi'u paratoi yn unol â Safonau Cyfrifo'r DU, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS102).

## Datganiad o Bolisïau Cyfrifo Grŵp

Mae datganiadau ariannol y grŵp wedi'u paratoi yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd ar gyfer y cyfrifon endid sengl, ac eithrio'r eitemau a ganlyn:

### 1. Asedau Hirdymor (Is-gwmnïau)

Mae rhai o Asedau Hirdymor Amgen Cymru Ltd ac Amgen Rhondda Ltd. yn cael eu prisio ym Mantolen y cwmni ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio. Nid yw'r polisi cyfrifyddu yma'n gyson â'r hyn a ddefnyddir gan y Cyngor. Serch hynny, gan fod y tir a'r adeiladau yn asedau arbenigol a ddefnyddir i redeg cyfleuster gwaredu gwastraff, ac yn achos celloedd tirlenwi yn ddosbarth penodol o asedau nad yw'n cael ei ddal gan y Cyngor ar hyn o bryd, maen nhw wedi'u cyfuno ym Mantolen y Grŵp ar sail hyn.

### 2. Sail Taliadau ar gyfer defnyddio Asedau Hirdymor

Codir dibrisiant ar wasanaethau ar sail llinell syth a chaiff ei gynnwys o fewn Cost Gwasanaethau yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp.

### 3. Sail Cydgrynhoi

Mae'n ofynnol bod Cyfrifon Grŵp yn cael eu paratoi gan ddefnyddio polisïau cyfrifyddu cyson, a all amrywio rhwng cyfrifon cwmni ac awdurdodau lleol. Y prif wahaniaethau rhwng y cyfrifon yma yw:

- Prisiadau asedau hirdymor. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar yr egwyddorion mesur a roddir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023/24 yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, sy'n golygu'n gyffredinol bod asedau'n cael eu cario ar brisiad cyfredol.

- Meini prawf ar gyfer asesu cyfwerth ag arian parod: Caiff benthyca balansau gwarged yn y tymor byr buddsoddiadau eu trin fel arian parod yn y banc yng nghyfrifon y cwmni ond fel Buddsoddiadau Tymor Byr yng nghyfrifon yr awdurdod lleol.

Mae cyfrifon Amgen Cymru ac Amgen Rhondda wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu i gynnwys ailbrisio eiddo rhydd-ddaliadol ac i gynnwys eiddo buddsoddi ar werth teg.

Caiff is-gwmnïau eu cyfuno i mewn i'r datganiadau grŵp gan ddefnyddio'r dull caffael. Yn seiliedig ar berthnasedd, nid yw'r cwmni cyswllt, WSP Glamorgan Consultancy Ltd., wedi'i gyfuno.

**Datganiad ynglŷn â'r Symudiad Grŵp yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MiRS)**

Mae'r datganiad yma'n dangos y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan y Grŵp, wedi'u dadansoddi i "gronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio" (h.y. y rhai y mae modd eu cymhwyso i gyllido gwariant neu ostwng trethi lleol) a "chronfeydd wrth gefn nad oes modd eu defnyddio". Mae’r llinell (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gost economaidd o ddarparu gwasanaethau’r Grŵp ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, a dangosir rhagor o fanylion yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor ar gyfer gosod Treth y Cyngor. Mae'r (Cynnydd) Gostyngiad Net cyn trosglwyddiadau i'r llinell Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi yn dangos Balans Cronfa'r Cyngor statudol cyn i'r Grŵp ymgymryd ag unrhyw drosglwyddiadau dewisol i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

## Datganiad ynglŷn â'r Symudiad Grŵp yn y Cronfeydd Wrth Gefn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Cyfalaf, Trysorlys ac Yswiriant | Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Perthnasol i Refeniw Arall | Cronfa Wrth Gefn Ysgolion Dirprwyedig | Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu defnyddio | Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | Cronfa wrth Gefn Yswiriant MGCC | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y mae modd eu defnyddio | Cronfeydd Wrth Gefn nad oes modd eu Defnyddio | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | Cyfran y Cyngor o Gronfeydd Wrth Gefn Is-gwmnïau, Cysylltiadau a Mentrau ar y Cyd | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | 10,292 | 85,937 | 112,422 | 20,561 | 5,669 | 37,975 | 169 | **273,025** | 227,766 | **500,791** | 1,464 | **502,255** |
| **Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod** | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr | (13,640) | 0 | 4,137 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(9,503)** | 568,879 | **559,376** | 9,818 | **569,194** |
| **Addasiadau rhwng Cyfrifon Grŵp a Chyfrifon yr Awdurdod:** | 9,156 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **9,156** | 0 | **9,156** | (9,156) | **0** |
| **Cynnydd net neu ostyngiad cyn trosglwyddo** | (4,484) | 0 | 4,137 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(347)** | 568,879 | **568,532** | 662 | **569,194** |
| **Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a chyllid o dan reoliadau:** | | | | | | | | | | | | |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | | | | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau wedi'u debydu /** | | | | | | | | | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad ar asedau tymor hir | 38,702 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **38,702** | (38,702) | **0** | 0 | **0** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Colledion Adbrisio ar eiddo, peiriannau | 15,574 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **15,574** | (15,574) | **0** | 0 | **0** |
| Symudiad yng ngwerth teg Eiddo Buddsoddi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau wedi'u cymhwyso | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Amorteiddiad Asedau Anniraethol | 2,256 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2,256** | (2,256) | **0** | 0 | **0** |
| Symudiad yn yr Asedau wedi'u Rhoi Cyfrif | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Gwariant Refeniw wedi'i ariannu gan gyfalaf o dan statud | 14,843 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **14,843** | (14,843) | **0** | 0 | **0** |
| Symiau o asedau Tymor Hir a ddilëwyd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu yn rhan o'r enillion/colledion wrth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Mewnosod eitemau heb eu debydu /** | | | | | | | | | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | (15,115) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(15,115)** | 15,115 | **0** | 0 | **0** |
| Gwariant cyfalaf wedi'i godi yn erbyn | (26,386) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(26,386)** | 26,386 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Grantiau Cyfalaf heb eu** | | | | | | | | | | | | |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau heb eu cymhwyso wedi'u credydu i | (87,736) | 0 | 0 | 0 | 0 | 87,736 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Cymhwyso grantiau i gyllid cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (92,170) | 0 | **(92,170)** | 92,170 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiadau sy'n cynnwys Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau** | | | | | | | | | | | | |
| Derbyniadau trosglwyddo gwerthiant a gredydwyd yn rhan o'r gwaredu fel rhan o | (3,960) | 0 | 0 | 0 | 5,036 | 0 | 0 | **1,076** | (1,076) | **0** | 0 | **0** |
| Defnyddio Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | (934) | 0 | 0 | **(934)** | 934 | **0** | 0 | **0** |
| Trosglwyddo o'r Gronfa Dderbyniadau Cyfalaf Gohiriedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 0 | 0 | **12** | (12) | **0** | 0 | **0** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau sy'n cynnwys Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | | | | | | | | | |
| Swm y mae costau cyllid a godir ar y CI&ES yn wahanol i gostau cyllid a godir yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (94) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(94)** | 94 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiadau sy'n cynnwys y Gronfa Bensiynau:** | | | | | | | | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r CI&ES | 101,190 | 0 | 504 | 0 | 0 | 0 | 0 | **101,694** | (101,694) | **0** | 0 | **0** |
| Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (42,260) | 0 | (75) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(42,335)** | 42,335 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiad sy'n cynnwys y Cyfrif Addasu Ad-dalu Ôl-gyflog Tâl** | | | | | | | | | | | | |
| Swm y mae'r symiau a godir ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal i'r CI&ES yn wahanol i gost setliadau y mae modd eu codi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiad yn cynnwys y Cyfrif Absenoldebau Cronedig:** | | | | | | | | | | | | |
| Swm y mae tâl swyddogion a godir ar y CI&ES ar sail croniadau yn wahanol i'r tâl a godir yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 2,661 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2,662** | (2,664) | **(2)** | (3) | **(5)** |
| **Addasiadau sy'n cynnwys** | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau eraill yn cynnwys:** | | | | | | | | | | | |
| Addasiad rhwng y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf a'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 15 | **15** | (15) | **0** |
| Dibrisiant enillion Adbrisio asedau tymor hir | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Cynnydd net (neu ostyngiad) cyn trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi** | (4,809) | 0 | 4,567 | 0 | 4,114 | (4,434) | 0 | **(562)** | 569,107 | **568,545** | 644 | **569,189** |
| **Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi** | 4,757 | 19,188 | (22,640) | (5,313) | 875 | 0 | 68 | **(3,065)** | 3,065 | **0** | 0 | **0** |
| **Cynnydd neu (ostyngiad) yn ystod** | (52) | 19,188 | (18,073) | (5,313) | 4,989 | (4,434) | 68 | **(3,627)** | 572,172 | **568,545** | 644 | **569,189** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **10,240** | **105,125** | **94,349** | **15,248** | **10,658** | **33,541** | **237** | **269,398** | **799,938** | **1,069,336** | **2,108** | **1,071,444** |

## Datganiad Grŵp ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Cyfalaf, Trysorlys ac Yswiriant | Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: Perthnasol i Refeniw Arall | Cronfa Wrth Gefn Ysgolion Dirprwyedig | Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu defnyddio | Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | Cronfa wrth Gefn Yswiriant MGCC | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y mae modd eu defnyddio | Cronfeydd Wrth Gefn nad oes modd eu Defnyddio | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | Cyfran y Cyngor o Gronfeydd Wrth Gefn Is-gwmnïau, Cysylltiadau a Mentrau ar y Cyd | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | 10,240 | 105,125 | 94,349 | 15,248 | 10,658 | 33,541 | 237 | **269,398** | 799,938 | **1,069,336** | 2,108 | **1,071,444** |
| **Symudiad yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/24** | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm incwm a gwariant | 50,228 | 0 | (27) | 0 | 0 | 0 | 0 | **50,201** | 166,696 | **216,897** | 7,540 | **224,437** |
| **Addasiadau rhwng Cyfrifon Grŵp a Chyfrifon yr Awdurdod:** | 7,665 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **7,665** | 0 | **7,665** | (7,665) | **0** |
| **Cynnydd neu ostyngiad net cyn trosglwyddo** | 57,893 | 0 | (27) | 0 | 0 | 0 | 0 | **57,866** | 166,696 | **224,562** | (125) | **224,437** |
| **Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a chyllid o dan reoliadau:** | | | | | | | | | | | | |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r** | | | | | | | | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd / credydwyd i CI&ES:** | | | | | | | | | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad ar asedau Tymor Hir | 37,719 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **37,719** | (37,719) | **0** | 0 | **0** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Colledion adbrisio ar eiddo, peiriannau | 27,888 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **27,888** | (27,888) | **0** | 0 | **0** |
| Symudiad yng ngwerth teg Eiddo Buddsoddi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau wedi cymhwyso | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Amorteiddiad Asedau Anniraethol | 2,283 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2,283** | (2,283) | **0** | 0 | **0** |
| Symudiad yn yr Asedau wedi'u Rhoi Cyfrif | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Gwariant refeniw wedi'i ariannu gan gyfalaf o dan statud | 15,929 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **15,929** | (15,929) | **0** | 0 | **0** |
| Symiau o asedau Tymor Hir a ddilëwyd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o'r enillion/colledion wrth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Mewnosod eitemau heb eu debydu /** | | | | | | | | | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf | (15,482) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(15,482)** | 15,482 | **0** | 0 | **0** |
| Gwariant cyfalaf wedi'i godi yn erbyn | (28,472) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(28,472)** | 28,472 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb** | | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau heb eu cymhwyso wedi'u credydu i | (108,005) | 0 | 64 | 0 | 0 | 108,004 | 0 | **63** | (63) | **0** | 0 | **0** |
| Cymhwyso grantiau i gyllid cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (114,683) | 0 | **(114,683)** | 114,683 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiadau sy'n cynnwys Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau** | | | | | | | | | | | | |
| Derbyniadau trosglwyddo gwerthiant a gredydwyd yn rhan o'r ennillion/colledion wrth | 217 | 0 | 0 | 0 | 1,398 | 0 | 0 | **1,615** | (1,615) | **0** | 0 | **0** |
| Defnyddio Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | (165) | 0 | 0 | **(165)** | 165 | **0** | 0 | **0** |
| Trosglwyddo o'r Gronfa Dderbyniadau Cyfalaf Gohiriedig wedi derbyn arian parod | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau sy'n cynnwys y Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | | | | | | | | | |
| Swm y mae costau cyllid a godir ar y CI&ES yn wahanol i gostau cyllid a godir yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (97) | 0 | (1) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(98)** | 98 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiadau sy'n cynnwys y Gronfa Bensiynau:** | | | | | | | | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r CI&ES | 45,680 | 0 | 178 | 0 | 0 | 0 | 0 | **45,858** | (45,858) | **0** | 0 | **0** |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (40,590) | 0 | (94) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(40,684)** | 40,684 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiad sy'n cynnwys y Cyfrif Addasu Ad-dalu Ôl-gyflog Tâl** | | | | | | | | | | | | |
| Faint y mae'r symiau a godir ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal i'r CI&ES yn wahanol i gost setliadau y mae modd eu codi yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Addasiad yn cynnwys y Cyfrif Absenoldebau Cronedig:** | | | | | | | | | | | | |
| Faint mae tâl swyddogion a godir ar y CI&ES ar sail croniadau yn wahanol i'r tâl a godir yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (4,024) | 0 | (8) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(4,032)** | 4,032 | **0** | 0 | **0** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addasiadau eraill yn cynnwys:** | | | | | | | | | | | | |
| Addasiad rhwng y Cyfrif Addasiad Cyfalaf a'r Cronfa Adbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Dibrisiant enillion ailbrisio asedau tymor hir | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Cynnydd net (neu ostyngiad) cyn trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth** | (9,061) | 0 | 112 | 0 | 1,233 | (6,679) | 0 | **(14,395)** | 238,957 | **224,562** | (125) | **224,437** |
| **Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi** | 9,061 | 14,407 | (15,966) | (7,428) | 0 | 0 | (74) | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Cynnydd neu (ostyngiad) yn ystod** | 0 | 14,407 | (15,854) | (7,428) | 1,233 | (6,679) | (74) | **(14,395)** | 238,957 | **224,562** | (125) | **224,437** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **10,240** | **119,532** | **78,495** | **7,820** | **11,891** | **26,862** | **163** | **255,003** | **1,038,895** | **1,293,898** | **1,983** | **1,295,881** |

## Datganiad Grŵp ynglŷn â'r Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar

## 31 Mawrth 2024

Mae'r Datganiad yma'n dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau gan y Grŵp yn unol ag arferion cyfrifo sy wedi'u derbyn yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu trwy godi trethi. Mae cynghorau'n codi trethi i dalu am wariant yn unol â rheoliadau, mae modd i hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Mae'r sefyllfa dreth i'w gweld yn y Datganiad Grŵp ynglŷn â Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

# Datganiad Grŵp ynglŷn â'r Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| 2022/23 | | | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Net Gwariant** | | **Nodwch** | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Net Gwariant** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 131,132 | (30,347) | 100,785 | Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen | *G 1.0* | 127,104 | (21,267) | 105,837 |
| 62,520 | (9,488) | 53,032 | Prif Weithredwr | | 64,363 | (12,171) | 52,192 |
| 304,109 | (66,459) | 237,650 | Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | | 311,997 | (75,361) | 236,636 |
| 314,606 | (116,097) | 198,509 | Gwasanaethau Cymuned a | | 311,960 | (117,725) | 194,235 |
| 84,654 | (58,532) | 26,122 | Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan | | 87,945 | (62,642) | 25,303 |
| 5,265 | (5,152) | 113 | Cyd-bwyllgorau | | 1,833 | (1,773) | 60 |
| **902,286** | **(286,075)** | **616,211** | **Costau'r Gwasanaethau** | | **905,202** | **(290,939)** | **614,263** |
| | | | | | | | |
| | | | **Gwariant Gweithredol Arall** | | | | |
| 25,852 | 0 | 25,852 | Preseptau | | 27,909 | 0 | 27,909 |
| 13,326 | 0 | 13,326 | Ardollau | | 14,933 | 0 | 14,933 |
| 0 | (3,960) | (3,960) | (Enillion) neu Golledion wrth Waredu ar Asedau Cyfredol | | 218 | 0 | 218 |
| | | | | | | | |
| | | | **Incwm Cyllido a Buddsoddi a Gwariant** | | | | |
| 11,209 | 0 | 11,209 | Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | | 11,228 | 0 | 11,228 |
| 15,770 | (7) | 15,763 | Llog Net ar Atebolrwydd Diffiniedig Net (Ased) | | 5,100 | (77) | 5,023 |
| 0 | (1,733) | (1,733) | Llog Derbyniadwy ac Incwm Tebyg | | 0 | (1,743) | (1,743) |
| 380 | (324) | 56 | Incwm, Gwariant a Newidiadau yng Ngwerth Teg Eiddo Buddsoddi | | 0 | (324) | (324) |
| | | | | | | | |
| | | | **Grant Trethi ac Amhenodol Incwm** | | | | |
| 0 | (148,917) | (148,917) | Incwm Treth y Cyngor | | 0 | (157,467) | (157,467) |
| 0 | (85,619) | (85,619) | Dosbarthiad Ardrethi Annomestig | | 0 | (77,189) | (77,189) |
| 0 | (359,489) | (359,489) | Grantiau Llywodraeth heb eu Gwarchod | | 0 | (397,788) | (397,788) |
| 0 | (81,770) | (81,770) | Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | | 0 | (96,438) | (96,438) |
| 0 | (25) | (25) | Treth Gorfforaeth - Cyd-bwyllgorau | | 0 | 32 | 32 |
| **968,823** | **(967,919)** | **904** | **(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth o Wasanaethau** | | **964,590** | **(1,021,933)** | **(57,343)** |
| | | | | | | | |
| | | | **Treuliau Treth** | | | | |
| 256 | (51) | 205 | Trethi Endidau Grŵp | | 194 | 0 | 194 |
| | | | | | | | |
| **969,079** | **(967,970)** | **1,109** | **(Costau sy'n Weddill) neu Ddiffyg Ariannol** | | **964,784** | **(1,021,933)** | **(57,149)** |
| | | | | | | | |
| 7,907 | (39,564) | (31,657) | (Gwarged) neu Ddiffyg o ran Adbrisio Asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer | | 7,422 | (50,054) | (42,632) |
| 0 | (538,646) | (538,646) | Ailfesur y Net Diffiniedig Atebolrwydd o ran Buddion | | 0 | (124,656) | (124,656) |
| | | | | | | | |
| **7,907** | **(578,210)** | **(570,303)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Arall** | | **7,422** | **(174,710)** | **(167,288)** |
| | | | | | | | |
| **976,986** | **(1,546,180)** | **(569,194)** | **Cyfanswm Incwm a a Gwariant Cynhwysfawr** | | **972,206** | **(1,196,643)** | **(224,437)** |

## Mantolen y Grŵp ar 31 Mawrth 2024

Mae Mantolen y Grŵp yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor a'i is-gwmnïau a chymdeithion yn eu cyfanrwydd. Mae'n dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau'r Grŵp ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## Y Fantolen ar 31 Mawrth 2024

| 31/03/23 | | | | 31/03/24 | |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | | | Nodwch | £'000 | £'000 |
| | **Asedau Tymor Hir** | Eiddo, Gwaith ac Offer: | G 2.0 | | |
| 823,024 | | Tir Arall ac Adeiladau | | 886,901 | |
| 551,824 | | Isadeiledd | | 589,657 | |
| 23,324 | | Cerbydau, Peiriannau ac Offer | | 19,854 | |
| 645 | | Celloedd Tirlenwi | | 588 | |
| 5,055 | | Asedau ac Asedion Cymunedol | | 4,831 | |
| 37,150 | | Asedau yn cael eu hadeiladu | | 61,558 | |
| 145 | | Asedau Treftadaeth | | 145 | |
| 13,009 | | Eiddo Buddsoddi | | 13,009 | |
| 1,599 | | Ased Cynllun Pensiwn Budd Diffiniedig | | 1,349 | |
| 4,516 | | Asedau Anniraethol Tymor Hir | | 5,553 | |
| 3,492 | | Buddsoddiadau'r Tymor Hir | | 5,079 | |
| 3,295 | | Dyledwyr Tymor Hir | | 3,124 | |
| **1,467,078** | | **CYFANSWM ASEDAU TYMOR HIR** | | | **1,591,648** |
| | | | | | |
| 162,071 | **Cyfredol Asedau** | Buddsoddiadau Tymor Byr | | 66,405 | |
| 664 | | Asedau sy wedi'u Dal i'w Gwerthu | | 2,256 | |
| 1,380 | | Rhestrau Eiddo | | 1,239 | |
| 120,141 | | Dyledwyr Tymor Byr | G 12.0 | 122,549 | |
| 0 | | Arian Parod a Chyfwerth | | 2,168 | |
| **284,256** | | **CYFANSWM YR ASEDAU PRESENNOL** | | | **194,617** |
| | | | | | |
| (8,644) | **Cyfredol Rhwymedigaethau** | Arian Parod a Chyfwerth | | 0 | |
| (13,604) | | Benthyca Tymor Byr | | (13,585) | |
| (1,457) | | Darpariaethau Tymor Byr | G 14.0 | (1,501) | |
| (135,335) | | Credydwyr Tymor Byr | G 13.0 | (169,218) | |
| **(159,040)** | | **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | **(184,304)** |
| | | | | | |
| (45,209) | **Rhwymedigaethau Tymor Hir** | Credydwyr Tymor Hir | G 13.0 | (8,041) | |
| (12,188) | | Darpariaethau Tymor Hir | G 14.0 | (15,930) | |
| (333,709) | | Benthyca Tymor Hir | | (272,057) | |
| (129,621) | | Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | | (9,929) | |
| (123) | | Cyfrif Asedau Rhoddedig Tymor Hir | | (123) | |
| **(520,850)** | | **RHWYMEDIGAETHAU TYMOR HIR ERAILL** | | | **(306,080)** |
| | | | | | |
| **1,071,444** | **ASEDAU NET** | | | | **1,295,881** |

***Parhad trosodd...***

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10,240 | **Cronfeydd Wrth Gefn mae modd eu defnyddio** | Balans Cronfa'r Cyngor | | 10,240 | |
| | | Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi: | | | |
| 105,125 | | Cyfalaf a Buddsoddiad/Isadeiledd | | 119,532 | |
| 94,349 | | Cronfeydd Eraill sy'n Gysylltiedig â Refeniw | | 78,495 | |
| 15,248 | | Cronfa Wrth Gefn Ysgolion Dirprwyedig | | 7,820 | |
| 10,658 | | Cronfeydd Wrth Gefn y mae modd eu defnyddio | | 11,891 | |
| 33,541 | | Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig | | 26,862 | |
| 237 | | Cronfa wrth Gefn Yswiriant MGCC | | 163 | |
| **269,398** | | **CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN Y MAE MODD EU** | | | **255,003** |
| | | | | | |
| 272,887 | **Cronfeydd Wrth Gefn does dim modd eu defnyddio** | Cronfa Adbrisio | | 306,167 | |
| 668,614 | | Cyfrif Addasu Cyfalaf | *G 5.0* | 751,172 | |
| (5,214) | | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | | (5,116) | |
| (126,951) | | Cronfa Bensiynau | | (7,961) | |
| (9,398) | | Cyfrif Digolledu Absenoldeb Cronnus Tymor Byr Cronedig | | (5,367) | |
| 2,108 | | Cronfa Cwmnïau Grŵp | *G 3.0* | 1,983 | |
| **802,046** | | **CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN Y MAE MODD EU** | | | **1,040,878** |
| | | | | | |
| **1,071,444** | **CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN** | | | | **1,295,881** |

## Datganiad Llif Arian y Grŵp 2023/24

Mae Datganiad Llif Arian y Grŵp yn crynhoi llif arian y Cyngor a'i is-gwmnïau a chymdeithion yn ystod y flwyddyn.

| 2022/23 | | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | | ***Nodwch.*** | **£'000** | **£'000** |
| | | | | |
| 1,109 | (Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau | | (57,149) | |
| (196,727) | Addasiadau i'r (Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarpariaeth | *G 6.0* | (68,168) | |
| 87,693 | Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd wedi'u Cynnwys yn y (Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau | *G 7.0* | 97,835 | |
| **(107,925)** | **Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithgareddau** | | | **(27,482)** |
| 74,174 | Gweithgareddau Buddsoddi | *G 9.0* | (23,351) | |
| 15,956 | Gweithgareddau Cydbwyso | *G 10.0* | 61,645 | 38,294 |
| **(17,796)** | **Cynnydd neu Leihad Net mewn Arian Parod neu Gyfwerth** | | | **10,812** |
| 9,152 | Arian Parod a Chyfwerth ar ddechrau'r Cyfnod Adrodd | | | (8,644) |
| **(8,644)** | **Arian Parod a Chyfwerth ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd** | | | **2,168** |

## Nodiadau i'r Cyfrifon Grŵp

Dylid darllen y nodiadau yma ar y cyd â’r nodiadau i Ddatganiadau Ariannol Craidd y Cyngor. Oni nodir yn benodol isod, mae'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer y cyfrifon endid sengl hefyd yn berthnasol i'r Datganiadau Grŵp.

## G.1.0 Dadansoddiad Segmentol (Is-Gwmnïau)

Mae incwm a gwariant gweithredu Amgen Cymru Ltd ac Amgen Rhondda Ltd. wedi'u cynnwys yn y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen.

Nid yw Datganiad o Ddadansoddiad o Wariant a Chyllid Grŵp, na'i nodiadau cysylltiedig, wedi'u cynnwys yn y Datganiadau Grŵp oherwydd perthnasedd.

## G 2.0 Asedau Tymor Hir

## G 2.1 Eiddo, Gwaith ac Offer

### Symudiadau yn 2022/23

| | Tir Arall ac Adeiladau | Cerbydau, Peiriannau ac Offer | Celloedd Tirlenwi | Asedau ac Asedion Cymunedol | Asedau yn cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | |
| Erbyn 1 Ebrill 2022 | 813,505 | 56,279 | 982 | 6,312 | 15,704 | **892,782** |
| Cyd-bwyllgorau Balans Agoriadol | 0 | 658 | 0 | 0 | 128 | **786** |
| Ychwanegiadau | 30,168 | 7,510 | 0 | 150 | 36,749 | **74,577** |
| Cynnydd/(Gostyngiadau) Adbrisio a Gydnabyddir yn y Gronfa Adbrisio | 21,808 | 0 | 0 | 0 | 0 | **21,808** |
| Cynnydd/(Gostyngiadau) Adbrisio a Gydnabyddir yn y Gwarged/Ddiffyg ar Ddarparu | (15,434) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(15,434)** |
| Datgydnabod - Gwarediadau | (981) | (4,232) | 0 | 0 | 0 | **(5,213)** |
| Datgydnabod - Arall | 0 | (9,972) | 0 | 0 | (128) | **(10,100)** |
| Asedau a Ailddosbarthwyd | 262 | 0 | 0 | 0 | 0 | **262** |
| Ailddosbarthiadau Eraill | 13,871 | (203) | 0 | (106) | (15,303) | **(1,741)** |
| Symudiadau Eraill o ran Cost neu Brisiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **863,199** | **50,040** | **982** | **6,356** | **37,150** | **957,727** |

***Parhad trosodd...***

| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Erbyn 1 Ebrill 2022 | (36,932) | (33,052) | (247) | (1,301) | 0 | **(71,532)** |
| Cyd-bwyllgorau Balans Agoriadol | 0 | (94) | 0 | 0 | 0 | **(94)** |
| Tâl Dibrisiant | (19,819) | (6,082) | (90) | 0 | 0 | **(25,991)** |
| Dibrisiant Wedi'i Ysgrifennu Allan o'r Adbrisiad | 13,580 | 0 | 0 | 0 | 0 | **13,580** |
| ysgrifennu allan o'r Gwarged/Diffyg ar Ddarparu | 4,282 | 0 | 0 | 0 | 0 | **4,282** |
| (Colledion)/Gwrthdroadau Amharu a Gydnabyddir yn y | (3,706) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(3,706)** |
| (Colledion)/Gwrthdroadau Amharu a Gydnabyddir yn y Gwarged/Ddiffyg ar | 2,360 | (1,682) | 0 | 0 | 0 | **678** |
| Datgydnabod - Gwarediadau | 60 | 4,223 | 0 | 0 | 0 | **4,283** |
| Datgydnabod - Arall | 0 | 9,971 | 0 | 0 | 0 | **9,971** |
| Asedau a Ailddosbarthwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiadau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Symudiadau Eraill o ran Cost neu Brisiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **ar 31 Mawrth 2023** | **(40,175)** | **(26,716)** | **(337)** | **(1,301)** | **0** | **(68,529)** |
| **Gwerth Llyfr Net:** | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **823,024** | **23,324** | **645** | **5,055** | **37,150** | **889,198** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **776,573** | **23,791** | **735** | **5,011** | **15,832** | **821,942** |

## Symudiadau yn 2023/24

| | Tir Arall ac Adeiladau | Peiriannau, Cerbydau ac Offer | Celloedd Tirlenwi | Asedau ac Asedion Cymunedol | Asedau yn cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 863,199 | 49,144 | 982 | 6,356 | 36,924 | **956,605** |
| Cyd-bwyllgorau Balans Agoriadol | 0 | 896 | 0 | 0 | 226 | **1,122** |
| Ychwanegiadau | 45,945 | 4,557 | 0 | 136 | 45,430 | **96,068** |
| Cynnydd/(Gostyngiadau) Adbrisio a Gydnabyddir yn y Gronfa Adbrisio | 26,821 | 0 | 0 | 0 | 0 | **26,821** |
| Cynnydd/(Gostyngiadau) Adbrisio a Gydnabyddir yn y Gwarged/Ddiffyg ar Ddarparu | (27,574) | 0 | 0 | (314) | 0 | **(27,888)** |
| Datgydnabod - Gwarediadau | (1,418) | (2,053) | 0 | 0 | 0 | **(3,471)** |
| Datgydnabod - Arall | 0 | (2,283) | 0 | 0 | 0 | **(2,283)** |
| Asedau a Ailddosbarthwyd | (1,921) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(1,921)** |
| Ailddosbarthiadau Eraill | 20,187 | 0 | 0 | 0 | (21,022) | **(835)** |
| Symudiadau Eraill o ran Cost neu Brisiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **925,239** | **50,261** | **982** | **6,178** | **61,558** | **1,044,218** |

***Parhad trosodd...***

| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2023 | (40,175) | (26,522) | (337) | (1,301) | 0 | **(68,335)** |
| Cyd-bwyllgorau Balans Agoriadol | 0 | (194) | 0 | 0 | 0 | **(194)** |
| Tâl Dibrisiant | (21,784) | (5,744) | (57) | 0 | 0 | **(27,585)** |
| Dibrisiant Wedi'i Ysgrifennu Allan o'r Gronfa | 15,775 | 0 | 0 | 0 | 0 | **15,775** |
| Ysgrifennu allan i'r Gwarged/Diffyg ar Ddarparu | 3,691 | 0 | 0 | 0 | 0 | **3,691** |
| (Colledion)/Gwrthdroadau Amharu a Gydnabyddir yn y | (613) | 0 | 0 | 0 | 0 | **(613)** |
| (Colledion)/Gwrthdroadau Amharu a Gydnabyddir yn y Gwarged/Ddiffyg ar | 4,670 | (2,283) | 0 | (46) | 0 | **2,341** |
| Datgydnabod - Gwarediadau | 98 | 2,053 | 0 | 0 | 0 | **2,151** |
| Datgydnabod - Arall | 0 | 2,283 | 0 | 0 | 0 | **2,283** |
| Asedau a Ailddosbarthwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiadau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Symudiadau Eraill o ran Cost neu Brisiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **ar 31 Mawrth 2024** | **(38,338)** | **(30,407)** | **(394)** | **(1,347)** | **0** | **(70,486)** |
| **Gwerth Llyfr Net:** | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **886,901** | **19,854** | **588** | **4,831** | **61,558** | **973,732** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **823,024** | **23,324** | **645** | **5,055** | **37,150** | **889,198** |

## G 2.2 <u>Prisiad o Asedau Hirdymor</u>

Mae asedau'n cael eu prisio yn ôl y math o ased. Mae'r tabl canlynol yn dangos y math o asedau gweithredol a ddelir, sail y prisiad a dyddiad y prisiad diwethaf.

| **Math o Ased** | **Dyddiad y Prisiad Diwet** | **Sail y Prisiad** |
|---|---|---|
| Tir Arall ac Adeiladau | Rhaglen Dreigl | EUV/DRC |
| Adeilad Arbenigol | Rhaglen Dreigl | DRC |
| Cerbydau, Peiriannau ac Off | Dd/B | DHC |
| Isadeiledd | Dd/B | DHC |
| Asedau ac Asedion Cymune | Dd/B | DHC |
| Celloedd Tirlenwi | Dd/B | DHC |

GDP - Gwerth Defnydd Presennol
CHD - Cost Hanesyddol Dibrisiedig
CAD - Cost Amnewid Dibrisiedig

## G 3.0 Cronfa Cwmnïau Grŵp

Mae'r symudiadau yn y Gronfa Cwmnïau Grŵp wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

| | Amgen Cymru | Amgen Rhondda | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **4,846** | **(2,738)** | **2,108** |
| Cynnydd/(Gostyngiad) 2023/24 | (107) | (18) | (125) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **4,739** | **(2,756)** | **1,983** |

## G 4.0 Cyfrifon Statudol Is-Gwmnïau

Rhoddir crynodeb o gyfrifon statudol Grŵp Amgen yn y tabl canlynol. Paratowyd y cyfrifon yma'n unol â'r Safonau Adrodd Ariannol ar gyfer Endidau Llai.

| | Amgen Cymru | | Amgen Rhondda | |
|---|---|---|---|---|
| | Mawrth 2023 | Mawrth 2024 | Mawrth 2023 | Mawrth 2024 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfranddaliadau | 2,806 | 2,806 | 239 | 221 |
| | | | | |
| Asedau Cyfredol Net | 4,014 | 3,684 | 220 | 205 |
| Cyfanswm yr Asedau heblaw | 22,614 | 20,883 | 239 | 221 |
| Asedau Net | 8,111 | 7,887 | 239 | 221 |
| (Colled)/Elw Cyn Trethi | (560) | (524) | 12 | (35) |
| (Colled)/Elw Ar Ôl Trethi | (508) | (665) | 12 | (35) |
| Rhif cofrestru | 02660628 | | 03687641 | |
| Wedi'i gofrestru Swyddfa/Lleoliad y Cyfrifon | Safle Tirlenwi Bryn Pica<br>Llwydcoed<br>Aberdâr<br>CF44 0BX | | Safle Tirlenwi Bryn Pica<br>Llwydcoed<br>Aberdâr<br>CF44 0BX | |
| Archwilwyr | Azets Audit Services | | Azets Audit Services | |
| Barn yr Archwilwyr | Gwir a Theg | | Gwir a Theg | |

Bydd y Cyfrifon yn cael eu cyflwyno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y cwmnïau.

## G 5.0 Addasiadau Cydgrynhoi

### G 5.1 Cyfrif Addasu Cyfalaf

| | £'000 |
|---|---:|
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | **668,614** |
| Enillion/(colledion) yn ystod y flwyddyn | 82,558 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **751,172** |

Yng nghyfrifon y Cyngor mae gwerth y cyfranddaliad yn Amgen Rhondda Ltd. yn cael ei nodi i werth asedau net y cwmni. Er mwyn caniatáu cyfuno'r cyfrifon rhaid adfer gwerth y cyfranddaliadau, sy'n arwain at gredyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o £2,756 mil.

## G 6.0 Datganiad Llif Arian – Addasiadau i Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau sydd ddim yn Arian Parod

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---:|---|---:|
| **£'000** | | **£'000** |
| (55,815) | Dibrisiant ac Amhariad | (67,146) |
| (2,256) | Amorteiddiad | (2,283) |
| (28,832) | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | (303) |
| (28,443) | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | 1,962 |
| (63) | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Stoc | (141) |
| (60,637) | Newid mewn Atebolrwydd Pensiwn | (5,142) |
| 436 | Cyfraniad at Ddarpariaethau | (4,286) |
| (2,663) | Cronni Absenoldeb Cronedig Tymor Byr | 4,031 |
| (1,076) | Cario swm yr Asedau Tymor Hir ac Asedau sy'n cael eu Cynnal | (1,615) |
| (17,378) | Eitemau eraill heblaw arian parod sy'n cael eu codi ar y Net (Gwarged) neu'r | 6,755 |
| **(196,727)** | **Addasiadau i Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Newidiadau, sydd** | **(68,168)** |

## G 7.0 Datganiad Llif Arian – Addasiad ar gyfer Eitemau sydd wedi'u Cynnwys yn y Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---:|---|---:|
| **£'000** | | **£'000** |
| 5,923 | Yr elw o werthu Eiddo, Peiriannau ac Offer, Buddsoddi mewn Eiddo ac Asedau Anniriaethol | 1,397 |
| 81,770 | Unrhyw eitemau eraill sy'n cael eu heffeithio gan arian parod sy'n buddsoddi mewn neu'n | 96,438 |
| **87,693** | | **97,835** |

## G 8.0 Datganiad Llif Arian - Llog Gweithgareddau Gweithredol

Mae'r llif arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (2,057) | Llog wedi'i dderbyn | (2,067) |
| 11,209 | Llog wedi'i dalu | 11,228 |
| **9,152** | **Llog o ran Gweithgareddau Gweithredu** | **9,161** |

## G 9.0 Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 132,689 | Prynu Eiddo, Peiriannau ac Offer, Eiddo Buddsoddi ac Asedau Anniriaethol | 170,195 |
| 29,178 | Prynu ac Adbrynu Buddsoddiadau Tymor Byr a Thymor Hir | (95,648) |
| (5,923) | Elw o Werthu Eiddo, Peiriannau ac Offer, Eiddo Buddsoddi ac Asedau Anniriaethol | (1,397) |
| (81,770) | Derbyniadau eraill o Weithgareddau Buddsoddi | (96,501) |
| **74,174** | **Llif Arian Net o Weithgareddau Buddsoddi** | **(23,351)** |

## G 10.0 Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Cyllido

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (11) | Derbyniadau Arian Parod o Fenthyca Tymor Byr a Thymor Hir | 0 |
| 1 | Taliadau arian parod am ostwng y rhwymedigaethau sy'n ddyledus | 1 |
| 15,966 | Ad-daliadau Benthyca Tymor Byr a Thymor Hir | 61,644 |
| **15,956** | **Llif Arian Net o Weithgareddau Ariannu** | **61,645** |

## G 11.0 Addasiadau rhwng Cyfrifon Grŵp a Chyfrifon y Cyngor yn y Datganiad Symudiadau Grŵp mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r addasiadau rhwng Cyfrifon Grŵp a Chyfrifon y Cyngor yn y Datganiad Symudiadau Grŵp mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ymwneud â gwerthiannau a phryniannau rhwng y Cyngor ac is-gwmnïau.

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (176) | Cyflenwadau Amgen Rhondda i'r Cyngor | (177) |
| (9,566) | Cyflenwadau Amgen Cymru i'r Cyngor | (8,774) |
| 586 | Cyflenwadau'r Cyngor i Amgen Cymru | 1,286 |
| **(9,156)** | **Gwariant Net** | **(7,665)** |

## G 12.0 Dyledwyr

Mae dadansoddiad o Ddyledwyr Tymor Byr ar y Fantolen Grŵp fel a ganlyn:

| 2022/23 (Wedi'i ailddatgan)* | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 71,288 | Cyrff Llywodraeth Ganolog | 63,917 |
| 11,462 | Awdurdodau Lleol eraill | 13,714 |
| 5,268 | Cyrff y GIG | 9,731 |
| 1,961 | Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu | 1,370 |
| 30,162 | Endidau ac Unigolion Eraill | 33,817 |
| **120,141** | **Cyfanswm** | **122,549** |

* Wedi'i ailddatgan oherwydd camddosbarthiad yn y cyfrifon endid sengl - roedd Cyrff y GIG wedi'u gorddatgan o £16 miliwn a Chyrff Llywodraeth Ganolog wedi'u tanddatgan o'r un swm.

## G 13.0 Credydwyr

Mae dadansoddiad o gredydwyr tymor byr a thymor hir ym Mantolen y Grŵp fel a ganlyn:

### Credydwyr Tymor Byr

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (11,566) | Cyrff Llywodraeth Ganolog | (45,790) |
| (45,606) | Awdurdodau Lleol eraill | (43,979) |
| (8,867) | Cyrff y GIG | (4,270) |
| (766) | Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu | (5,239) |
| (68,530) | Endidau ac Unigolion Eraill | (69,940) |
| **(135,335)** | **Cyfanswm** | **(169,218)** |

### Credydwyr Tymor Hir

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (35,594) | Cyrff Llywodraeth Ganolog | (6,072) |
| (2,106) | Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu | (1,890) |
| (7,509) | Endidau ac Unigolion Eraill | (79) |
| **(45,209)** | **Cyfanswm** | **(8,041)** |

## G 14.0 Darpariaethau

Mae darpariaethau yn symiau wedi'u neilltuo ar gyfer costau penodol yn y dyfodol sy'n debygol o godi, ond does dim modd pennu swm neu amser yn fanwl gywir. Mae darpariaethau ar gyfer dyledion drwg wedi'u dangos fel didyniad o ddyledwyr.

Symudiadau o ran darpariaethau yn ystod y flwyddyn oedd:

| Darpariaethau Tymor Byr | Prynu Tir a Hawliadau Rhan 1 | Hawliadau Yswiriant | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | **(510)** | **(947)** | **(1,457)** |
| Darpariaethau ychwanegol a wnaed yn 2( | 0 | (914) | (914) |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn 2023/24 | 33 | 837 | 870 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **(477)** | **(1,024)** | **(1,501)** |

| Darpariaethau Tymor Hir | Hawliadau Yswiriant | Cyd-bwyllgorau | Amgen Cymru – Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | **(2,581)** | **(438)** | **(9,169)** | **(12,188)** |
| Darpariaethau ychwanegol a wnaed yn 2( | (1,143) | (4,424) | 0 | (5,567) |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn 2023/24 | 981 | 0 | 250 | 1,231 |
| Gwrthdroi symiau nas defnyddiwyd yn 20 | 594 | 0 | 0 | 594 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **(2,149)** | **(4,862)** | **(8,919)** | **(15,930)** |

## G 15.0 Amgen Cymru – Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi

Mae cytundeb y cyfranddalwyr yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cwmni ddarparu ar gyfer costau ôl-ofal yn y dyfodol megis capio ac adfer safleoedd tirlenwi. Mae'r ddarpariaeth ôl-ofal ar ddyddiad y fantolen yn dod o fewn ystod a ystyrir fel yr amcangyfrif gorau ar yr adeg yma o amlygiad y cwmni i gostau ôl-ofal yn y dyfodol.

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2023/24**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2020 - 2024 y Cyngor ‘Gwneud Gwahaniaeth’ yn gosod cyfeiriad cyffredinol yr Awdurdod dros gyfnod o 4 blynedd gan ddisgrifio’r weledigaeth, y diben a’r blaenoriaethau i’w cyflawni.

1.2 Dyma weledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau'r Cyngor:

- Gweledigaeth - ***I fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus.***
- Diben - ***Darparu arweinyddiaeth gymunedol gref a chreu amgylchedd lle mae modd i bobl a busnesau fod yn annibynnol, cyflawni eu potensial a ffynnu.***
- Blaenoriaethau:
    - Sicrhau bod ***Pobl*** yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus;
    - Creu ***Lleoedd*** y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw; a
    - Galluogi ***Ffyniant*** drwy greu cyfleoedd i bobl a busnesau i fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd, i gyflawni eu potensial ac i ffynnu.

1.3 Yn sail i'r blaenoriaethau uchod mae themâu trawsbynciol ***'Byw'n ddarbodus'*** a ***'Cyngor effeithlon ac effeithiol'*** - y ddau yn canolbwyntio ar drefniadau cynllunio a rheoli ariannol cadarn i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei sefydlogrwydd ariannol, ei fod yn gydnerth yn ariannol ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin.

1.4 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi, a hynny ar gyfer y gymuned, defnyddwyr y gwasanaeth, y sawl sy'n talu Treth y Cyngor a rhanddeiliaid eraill, drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae hefyd modd gweld adolygiad y Cyngor mewn perthynas â'i effeithlonrwydd wrth reoli risg wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.

## 2. CWMPAS CYFRIFOLDEB

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn gyfrifol am sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei gynnal mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gyfraith a'r safonau a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cofnod cywir o'r holl arian yma a bod yr arian yn cael ei ddefnyddio mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

2.2 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei faterion busnes a hwyluso ei ymarfer o ran ei swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau trefniadau ar gyfer rheoli risg.

2.3 Mae'r Cyngor, wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, wedi mabwysiadu'r *Fframwaith Trefniadau Llywodraeth Da mewn Llywodraeth Leol (2016)* wedi'i ddatblygu gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr yr Awdurdod Lleol (Solace) a chynhaliwyd asesiad yn unol â’r gofynion a nodir yng Nghod Rheolaeth Ariannol CIPFA 2019. Wrth wneud hynny, mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn bodloni dyletswydd gyfreithiol y

Cyngor, fel y'i nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018*, 'i gynnal adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol a chynnwys datganiad yn adrodd ar yr adolygiad o fewn unrhyw Ddatganiad Cyfrifon cyhoeddedig'. (*methu dod o hyd i'r dyfyniad)*

2.4 Bwriad y Cyngor yw darparu cynrychiolaeth gywir o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

## 3. **PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU YW:**

3.1 Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, gweithdrefnau a'r gwerthoedd diwylliannol sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Cyngor yn ogystal â'r gweithgareddau y mae'n atebol amdanyn nhw, ac y mae'r Cyngor yn eu cynnal ac yn arwain y gymuned. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i fonitro'i gyflawniad mewn perthynas â'i amcanion strategol a thrafod a yw'r amcanion yma wedi arwain at ddarparu gwasanaethau costeffeithiol addas.

3.2 Yn achos RhCT, mae llywodraethu yn golygu sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y pethau cywir yn y ffordd gywir ar gyfer y bobl gywir - a hynny mewn modd amserol, cynhwysol, agored, onest ac atebol.

3.3 Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith yma, ac mae'r system wedi'i lunio er mwyn rheoli risg i lefel rhesymol. Does dim modd cael gwared ar yr holl risg o fethu er mwyn cyflawni amcanion a nodau ac felly mae'r system ond yn gallu darparu sicrwydd rhesymol o ran effeithiolrwydd ac nid sicrwydd diamod.

3.4 Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gafodd ei llunio i nodi a blaenoriaethu'r risg mewn perthynas â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gwerthuso'r tebygolrwydd ac effaith y risgiau yma a'u rheoli nhw mewn modd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

3.5 Mae'r fframwaith llywodraethu sy'n cael ei amlinellu isod wedi bod ar waith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 (a hyd at ddyddiad cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2023/24).

## 4. **Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU A THREFNIADAU ADOLYGU**

4.1 Mae'r Cyngor wedi rhoi Cod Lleol ar Lywodraethu Corfforaethol ar waith, yn unol â'r saith egwyddor a nodir yn *'The Delivering Good Governance in Local Government Framework' (2016),* i gefnogi ei drefniadau ar gyfer sicrhau llywodraethu cadarn.

4.2 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal asesiad o'i fframwaith llywodraethu, gan gynnwys ei system rheolaeth fewnol, o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae Adran 5 yn nodi Crynodeb Gweithredol o'r canfyddiadau a'r cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio o asesiad 2023/24. Mae Adran 6 yn darparu gwybodaeth fanylach, o'r enw Adolygiad o Effeithiolrwydd, ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn erbyn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol.

## 5. CRYNODEB GWEITHREDOL

5.1 RhCT sy'n gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei faterion ac am adolygu'r trefniadau yma o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn cyflawni'r cyfrifoldeb yma drwy fod â Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar waith a thrwy gynnal asesiad blynyddol yn erbyn y Cod yma ar ffurf Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Cod a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'u llunio yn unol â'r 'Delivering Good Governance in Local Government Framework' (2016) a ddatblygwyd gan CIPFA.

5.2. Mae'r Adolygiad o Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi'i nodi'n fanwl yn Adran 6. Mae ei gasgliad cyffredinol i'w weld ym mharagraff 6.12:

*Yn seiliedig ar yr adolygiad o effeithiolrwydd yn erbyn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, roedd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn sail i gynnal sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol y Cyngor, yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol a chyllid cyfyngedig, drwy gynllunio, blaenoriaethu a rheoli adnoddau prin yn effeithiol. Ategwyd y sefyllfa yma gan brosesau craffu a gwneud penderfyniadau cadarn a threfniadau hunanwerthuso sydd wedi'u hen sefydlu. Roedd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol a gwasanaethau ehangach. Mae nifer fach o gynigion i'w gwella wedi'u gwneud er mwyn cryfhau'r prosesau cyfredol ymhellach.*

5.3 Mae crynodeb o gasgliadau'r broses adolygu, ar draws y 7 egwyddor a nodir yn Fframwaith 2016, wedi'i gynnwys yn Nhabl 1.

Tabl 1 - Crynodeb o'r Adolygiad o Effeithiolrwydd

| Egwyddorion Craidd | Casgliad yr Asesiad Cyffredinol | Cynigion ar gyfer Gwella a Nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
|---|---|---|
| A - Ymddwyn yn onest, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu'r gyfraith | Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn a thryloyw ar waith, yn unol â'i Gyfansoddiad a phrosesau sefydledig eraill, i hyrwyddo a dangos yn gyhoeddus safonau uchel o ymddygiad ei Aelodau etholedig a'i Swyddogion, ac i gymryd camau pan nodir achosion o ddiffyg cydymffurfio. | Dim |
| B - Bod yn agored a chynnal gwaith ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid | Mae gan y Cyngor sianeli clir i alluogi ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, gyda threfniadau yn unol â'r gyfraith ac yn dangos ymrwymiad i fod yn agored wrth gyflawni ei weithgareddau. | Dim |

| Egwyddorion Ategol | Casgliad yr Asesiad Cyffredinol | Cynigion ar gyfer Gwella a Nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
|---|---|---|
| C - Diffinio deilliannau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy | Roedd gan y Cyngor Fframwaith Rheoli Cyflawniad sefydledig ar waith a oedd yn defnyddio asesiadau ar sail tystiolaeth i bennu deilliannau, yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ac sy'n cyd-fynd â Chynllun Llesiant Cwm-Taf Morgannwg. Mae trefniadau monitro yn ystod y flwyddyn yn darparu trosolwg cyfannol o gyflawniad y Cyngor.<br><br><u>Maes i'w wella</u><br>Yn ogystal â chymeradwyo Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor, 'Gweithio Gyda'n Cymunedau 2024 – 2030', mae angen adolygu'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad sydd ar waith i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben. | Adolygu, a lle bo angen, diweddaru Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor gan ystyried Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor. Dylai'r adolygiad hefyd barhau i ganolbwyntio ar ddangos effaith a chanlyniadau gwaith y Cyngor, gan ystyried gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau (fel y nodir yn adroddiad Archwilio Cymru i'r Cyngor - Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau). |
| D - Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl | Roedd trefniadau gwneud penderfyniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i adolygu, craffu a phennu'r ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau Corfforaethol a Gwasanaeth. Cafodd y rhain eu hintegreiddio â threfniadau pennu cyllidebau a chynllunio ariannol tymor canolig, i gyfeirio'r gwaith o gynllunio a dyrannu adnoddau refeniw a chyfalaf, ac roedd cynnydd yn destun craffu cyhoeddus drwy drefniadau trosolwg a chraffu'r Cyngor. | Dim |
| E – Datblygu capasiti'r endid (sefydliad), gan gynnwys gallu'r garfan arwain a'r unigolion sy'n rhan ohoni. | Mae gan y Cyngor drefniadau hunanasesu sydd wedi'u hen sefydlu a oedd yn asesu gallu'r sefydliad a'i allu i ddarparu gwasanaethau. Llywiwyd hyn gan y cynllun ariannol tymor canolig a'r strategaeth gweithlu a'i danategu gan raglenni dysgu a datblygu sefydledig ar gyfer Aelodau etholedig a Swyddogion a fframwaith o wneud penderfyniadau ar ffurf Cynlluniau Dirprwyo.<br><br><u>Maes i'w wella</u><br>• Cafodd hunanasesiad drafft y Cyngor 2022/23 ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19 Rhagfyr 2023 ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer llunio'r hunanasesiad blynyddol, yn benodol ei brydlondeb, er mwyn caniatáu ar gyfer craffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gynharach yn y flwyddyn a galluogi'r gwelliannau a nodwyd i gael eu hymgorffori yn y trefniadau adrodd. | Adolygu trefniadau ar gyfer cwblhau'r broses hunanasesu i alluogi cwblhau a chraffu mwy amserol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a hefyd galluogi ymgorffori gwelliannau a nodwyd yn y trefniadau adrodd yn gynharach yn y flwyddyn (fel y bo'n briodol). |

| Egwyddorion Ategol | Casgliad yr Asesiad Cyffredinol | Cynigion ar gyfer Gwella a Nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
|---|---|---|
| E – Datblygu capasiti'r endid (sefydliad), gan gynnwys gallu'r garfan arwain a'r unigolion sy'n rhan ohoni (parhad). | <u>Maes i'w wella</u><br>• Cwblhawyd asesiad sgiliau a gwybodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2022 ac fe'i defnyddiwyd i lywio cynllun dysgu a datblygu 2023/24 y Pwyllgor. Mae angen adnewyddu asesiad sgiliau a gwybodaeth y Pwyllgor, ynghyd â cheisio adborth gan Aelodau'r Pwyllgor ar yr hyn a aeth yn dda a meysydd i'w gwella, er mwyn llywio trefniadau dysgu a datblygu ar gyfer 2024/25. | Adnewyddu asesiad sgiliau a gwybodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ochr yn ochr â cheisio adborth gan Aelodau'r Pwyllgor ar yr hyn a aeth yn dda a meysydd i'w gwella yn 2023/24 wrth baratoi trefniadau dysgu a datblygu ar gyfer 2024/25. |
| E - Rheoli risg a chyflawniad yn rhan o reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol cyhoeddus cadarn. | Mae'r Cyngor yn sefydlog yn ariannol ac mae wedi'i gefnogi gan drefniadau cynllunio, rheoli ac adrodd ariannol cadarn sy'n sail i ddarparu gwasanaethau ac sy'n cydymffurfio â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA. Mae rheolaeth fewnol a phrosesau rheoli risg yn effeithiol, gyda sicrwydd annibynnol yn cael ei ddarparu gan y garfan Archwilio Mewnol a goruchwyliaeth gan y Llywodraeth ac Archwilio, yn rhan o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer cefnogi'r gwaith o gyflawni gwaith y Cyngor.<br><br><u>Maes i'w wella</u><br>Mae cyhoeddiad CIPFA, 'Audit Committees - Practical Guidance for Local Authorities & Police', Argraffiad 2022, yn nodi ei bod hi'n arfer da holi 'has the committee obtained positive feedback on its performance from those interacting with the committee or relying on its work?'. Ar hyn o bryd, nid oes trefniadau ffurfiol yn eu lle yn hyn o beth. | Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag arfer da, dylid rhoi adborth gan y Cyngor llawn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dilyn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol. |
| F - Gweithredu arferion da o ran tryloywder, rhoi gwybod ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol. | Mae gan y Cyngor brosesau gwneud penderfyniadau agored a thryloyw, gyda threfniadau ar waith i ddwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif drwy amrywiaeth o adroddiadau cyhoeddedig ar ddarparu gwasanaethau, cyflawniad a stiwardiaeth arian cyhoeddus.<br><br><u>Maes i'w wella</u><br>Nid yw Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol na Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac felly mae angen ei adolygu a'i ddiweddaru. | Adolygu a diweddaru Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried / cymeradwyo. |

## 6. ADOLYGU EFFEITHLONRWYDD

6.1 Mae'r Adolygiad o Effeithiolrwydd wedi golygu adolygu'r gweithgareddau sydd ar waith o amgylch prif drefniadau llywodraethu'r Cyngor, fel y nodir yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol a phrosesau allweddol cysylltiedig, ymgysylltu ag uwch swyddogion ar draws gwasanaethau mewn perthynas â'r trefniadau yma ac ystyried canfyddiadau amrywiaeth o adroddiadau presennol gan gynnwys adroddiadau rheoleiddwyr allanol.

6.2 Mae pob adran o God Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor wedi'i nodi o Adran 6.3 isod, ochr yn ochr â threfniadau llywodraethu allweddol eraill, a chynhaliwyd adolygiad o'u heffeithiolrwydd a chynigion ar gyfer gwella wedi'u gwneud, lle bo'n briodol.

### 6.3 Egwyddor Graidd A – Ymddwyn yn onest, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu'r gyfraith.

6.3.1 Mae'r Cyngor yn atebol am faint mae'n ei wario ac am sut mae'n defnyddio'r adnoddau sydd o dan ei stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am gyflawniad, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac am y deilliannau sydd wedi'u cyrraedd. Yn ogystal, mae gyda'r Cyngor gyfrifoldeb trosfwaol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at ofynion deddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol ei fod, ym mhob ffordd, yn gallu dangos priodoldeb penderfyniadau a gweithredoedd, a bod ganddo drefniadau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gwerthoedd moesegol, a sicrhau hyn, ac ar gyfer parchu rheolaeth y gyfraith.

| Cod Angenhion Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Is-Egwyddor | Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24 |
|---|---|---|
| <u>Cod Ymddygiad Aelodau Etholedig a Swyddogion</u> – pennu safonau ymddygiad y mae disgwyl i Aelodau/Swyddogion eu dilyn, mae'r safonau yma wedi'u seilio ar egwyddorion gonestrwydd, amhleidioldeb a gwrthrycholdeb. | Gweithredu gydag uniondeb | • Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau etholedig a Swyddogion trwy Godau Ymddygiad a Rheolau Gweithdrefn. Mae cyfarfodydd pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnal yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor.<br>• Mae pob Aelod etholedig wedi llofnodi'r protocol 'Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth' a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2021. Mae'r ddogfen yma, ynghyd â Chod Ymddygiad yr Aelodau, yn rhan o'r cod moesegol sy'n rhwymo holl Aelodau etholedig y Cyngor.<br>• O safbwynt Swyddog y Cyngor, roedd trefniadau sefydlu lleol ar waith a oedd yn nodi'r safonau ymddygiad disgwyliedig. Ar yr un pryd, mae'r llyfryn 'rheolau sylfaenol' wedi'i ddiweddaru ac yn cael ei ddosbarthu i staff newydd yn rhan o'u gwaith papur cychwynnol. |

| Anghenion y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Is-Egwyddor | Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24 |
|---|---|---|
| Rheolau Gweithdrefnau – gan gynnwys y Cyngor, Llywodraeth Agored, Mynediad at Wybodaeth, Y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, yr Adran Weithredol, Trosolwg a Chraffu, Cyflogi Swyddogion a Rheolau Gweithdrefnau Contract a Chyllid. | Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol | Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'r Rheolau Gweithdrefn i'w dilyn gan Aelodau etholedig a Swyddogion wrth gynnal busnes y Cyngor. Lluniwyd y trefniadau, fel y nodir yn y Rheolau Gweithdrefn, yn ystod y flwyddyn ac maen nhw'n dangos yn gyhoeddus ddull atebol ac agored o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. |
| Y Pwyllgor Safonau – rôl y pwyllgor yma, ymhlith pethau eraill, yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau Etholedig. | Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol | • Roedd Pwyllgor Safonau wedi'i sefydlu, wedi'i gefnogi gan Rhaglen Waith. Roedd yn hyrwyddo safonau ymddygiad uchel yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.<br>• Yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor, adroddwyd gwybodaeth am ganlyniad ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn ymwneud ag Aelodau Etholedig RhCT ac Aelodau Etholedig Cymuned/Tref yn RhCT (y mae'r Swyddog Monitro yn gyfrifol amdanyn nhw). I grynhoi, rhwng 1 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024, gwnaed 7 cwyn i'r OGCC yn erbyn Aelodau etholedig RhCT; cyrhaeddodd un o'r cwynion hynny y cam ymchwilio ond nid oedd angen unrhyw gamau pellach yn dilyn yr ymchwiliad. Cyhoeddwyd gwybodaeth mewn perthynas â'r cwynion yma yn rhan o gyfarfodydd y Pwyllgor Safonau ar 5 Medi 2023, 29 Ionawr 2024 a 22 Ebrill 2024, gan sicrhau ymagwedd agored a thryloyw. |
| Polisi Rhoddion a Lletygarwch. | Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol | • Mae gan y Cyngor Bolisi Rhoddion a Lletygarwch, ac roedd trefniadau ar waith, ar ffurf cofrestrau, i nodi rhoddion a lletygarwch yn unol â'r Polisi yma. |
| Polisi chwythu'r chwiban – y nod o ran y polisi yma yw hyrwyddo'r safonau uchaf o ran gwasanaeth a phennu sut mae modd i weithwyr roi gwybod i'r Cyngor am gamweddau. | Parchu'r Gyfraith | • Craffodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 29 Ebrill 2024 ar Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban 2023/24 a oedd yn nodi'r trefniant a'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a daeth i'r casgliad bod '*trefniadau chwythu'r chwiban y Cyngor yn briodol*'. |

| Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Is-Egwyddor | Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24 |
|---|---|---|
| Sylwadau, Canmol a Chwyno – mae'r polisi yma'n sail i sut mae'r Cyngor yn ymdrin ag adborth (gan gynnwys cwynion, canmoliaeth a sylwadau) ac i sut mae'n ymateb iddyn nhw. | Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol | • Cafodd trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymdrin â Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chraffwyd arnyn nhw (12 Hydref 2023) ac yna fe'u cyflwynwyd i'r Cabinet (23 Hydref 2023). Dyma'r casgliadau a adroddwyd (yn ymwneud â’r cyfnod o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023):<br><br>○ Adroddiad Blynyddol Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol - Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i ddarparu trefn gwyno gadarn ac effeithiol yn unol â gofynion statudol. Mae'r wybodaeth o gwynion yn darparu gwersi gwerthfawr a ddysgwyd wrth gynllunio a gwella gwasanaethau i ddiwallu anghenion ein defnyddwyr gwasanaethau.<br><br>○ Adroddiad Blynyddol Adborth Cwsmeriaid (nad yw'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol) - mae adborth cwsmeriaid yn darparu gwybodaeth werthfawr y gall gwasanaethau eu gwella a'u datblygu, ac mae'r data yma hefyd yn galluogi gwasanaethau a'r Cyngor cyfan i ddeall anghenion ei drigolion yn well ac i gynorthwyo gyda chynllunio a darparu gwasanaethau.<br><br>• Cafodd Adroddiad Blynyddol a Llythyr yr OGCC ar gyfer 2022/23 eu hadrodd hefyd i gyfarfod y Cabinet ar 23 Hydref 2023 - roedd yr adroddiad yn amlygu, '*During 2022/23 54 complaints were received by the PSOW relating to this Authority (for periods 2021-2022– 51 and 2020/21 – 40). The total number of complaints equates to 0.23 complaints per 1000 residents. Notably this represents the fifth lowest total in Wales out of the 22 local authorities. 0.33 complaints per 1000 residents was the average across the 22 LA’s*’. |
| Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygru. | Parchu'r Gyfraith | • Cafodd diweddariadau i'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn craffu arnyn nhw yn ystod y flwyddyn: diweddariad canol blwyddyn ar 19 Rhagfyr 2023 a'r Adroddiad Blynyddol Gwrth-dwyll ar gyfer 2023/24 / rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2024/25 ar 29 Ebrill 2024.<br><br>• Daeth yr Adroddiad Blynyddol, a gadarnhawyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, i’r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, fod y Cyngor yn parhau i weithredu o fewn diwylliant gwrth-dwyll effeithiol ar draws y sefydliad, gyda mesurau ataliol cadarn sy’n gallu nodi a mynd i’r afael â bygythiadau newydd. |

## 6.4 Egwyddor Graidd B - Bod yn agored bob amser a chynnal gwaith ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

6.4.1 Mae llywodraeth leol yn cael ei gweithredu er budd y cyhoedd ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn agored wrth gyflawni ei weithgareddau. Dylai sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir gael eu defnyddio – rhai y mae modd ymddiried ynddyn nhw i ymgysylltu’n effeithiol â rhanddeiliaid, er enghraifft dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

| Anghenion y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Is-Egwyddor | Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24 |
|---|---|---|
| Y nod o ran y Cynllun Cyhoeddi yma yw rhoi cyngor i ddinasyddion ynghylch sut i ofyn am wybodaeth gyhoeddus sydd gyda'r Awdurdod. | Didwylledd | • Darparodd gwefan y Cyngor wybodaeth am ei Chynllun Cyhoeddi gan nodi'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan y Cyngor a sut i'w chyrchu, a hefyd ar Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a oedd yn cynghori trigolion sut i ofyn am wybodaeth gyhoeddus y mae'r Cyngor ei chadw.<br><br>Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth<br>• Derbyniodd y Cyngor 1,083 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR) yn ystod y flwyddyn, sydd ychydig yn fwy na'r flwyddyn flaenorol (868). Adroddwyd diweddariadau i Fwrdd Rheoli Gwybodaeth y Cyngor yn chwarterol i alluogi’r Bwrdd i gadw trosolwg o gydymffurfiaeth y Cyngor â’r ddeddfwriaeth berthnasol.<br><br>• Derbyniodd y Cyngor 7 cwyn a gyfeiriwyd ato gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd 4 yn ymwneud â pha mor amserol oedd y Cyngor yn ymateb i geisiadau (ymatebwyd i bob un ohonyn nhw wedi hynny); 1 lle cytunodd Swyddfa'r Comisiynydd nad oedd y Cyngor yn cadw'r wybodaeth; 1 lle cytunodd Swyddfa'r Comisiynydd fod y Cyngor wedi cymhwyso'r eithriad cywir; ac mae'r wybodaeth i'w chadw'n ôl ac mae 1 ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo i ba wybodaeth a gedwir gan y Cyngor.<br><br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)<br>• Derbyniodd yr Ombwdsmon 62 o gwynion yn ymwneud â’r Cyngor yn 2023/24 (59 yn 2022/23): Roedd 40 o achosion lle nad oedd angen ymchwiliad yn dilyn adolygiad gan yr Ombwdsmon; cytunwyd ar benderfyniad cynnar mewn 8 achos; atgyfeiriwyd 13 o achosion yn ôl i’w trin yn rhan o weithdrefnau cwyno’r Cyngor; ac mae 1 achos yn parhau. |
| Hysbysiadau Preifatrwydd Corfforaethol a Phenodol ar | Didwylledd | Cydymffurfiodd y Cyngor â gofynion tryloywder Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU drwy ddarparu gwybodaeth breifatrwydd glir a hygyrch i'w ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a chwsmeriaid (ar ffurf |

| | | |
|---|---|---|
| gyfer Gwasanaethau, Clir ac agored. | | hysbysiadau preifatrwydd trwy wefan y Cyngor) . Rhoddodd hyn gyfle i wrthrych y data fod yn effro i sut mae eu data personol yn cael ei brosesu, gan gynnwys y sail gyfreithlon. |
| **Anghenion y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol** | **Is-Egwyddor** | **Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24** |
| Cynllunio ymlaen llaw ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau, yn ogystal â rhestr o bynciau i'w trafod, ble y bo'n addas. | Didwylledd | Cyhoeddodd y Cyngor gynlluniau cyfarfodydd pwyllgor ar ei wefan i gynorthwyo aelodau'r cyhoedd i ymgysylltu â phrosesau democrataidd y Cyngor. Roedd enghraifft o ymgysylltu yn cynnwys Rhaglen Waith y Cabinet yn cael ei rhannu â’r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn ystod y flwyddyn, a nododd 3 maes o ddiddordeb, a arweiniodd at grŵp o bobl ifainc yn ymweld â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac Is-Bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd. |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid | Ymgysylltu â rhanddeiliaid sefydliadol mewn ffordd gynhwysfawr | • Bu'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn ystod y flwyddyn gyda'r prif amcan i helpu i wella bywydau trigolion yn y Fwrdeistref Sirol. Mae nifer o'r rhain wedi'u nodi ar wefan y Cyngor.<br><br>• Yn fwy penodol, mae'r Cyngor yn bartner statudol o fewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ac mae wedi gweithio gyda phartneriaid i sefydlu 'Cwm Taf Morgannwg – Ein Cynllun Llesiant – Cwm Taf Morgannwg Fwy Cyfartal. 2023 – 2028’, wedi’i llywio gan ymgysylltu â dinasyddion ac asesiad llesiant, ac yn nodi amcanion a deilliannau rhanbarthol ac aliniad â saith nod llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae'r trefniadau yma'n cyd-fynd â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Bwrdd yn rheoli'r dyraniadau o'r Gronfa Fuddsoddi Ranbarthol a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu diwallu anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant preswylwyr ac er mwyn canolbwyntio ar ei drefniadau llywodraethu ac ymgysylltu.<br><br>• Mae gan y Cyngor hefyd drefniadau ymgysylltu parhaus â sefydliadau partner ar feysydd penodol lle mae nodau a rennir, megis, gyda'r Gwasanaeth Iechyd ar ddatblygu model iechyd a gofal cymdeithasol integredig gyda'r nod o wella iechyd, gofal a llesiant gan gynnwys atal drwy ymagwedd ragweithiol a sicrhau y bydd pobl yn treulio mwy o amser gartref, gyda chanlyniadau gwell i unigolion a phoblogaethau. |

| Anghenion y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Is-Egwyddor | Adolygiad o EffeithioIrwydd Yn Ystod 2023/24 |
|---|---|---|
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid | Ymgysylltu'n Effeithiol â Rhanddeiliaid, Gan Gynnwys Dinasyddion Unigol A Defnyddwyr Gwasanaethau | Mae'r Cyngor wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy ei wefan ymgysylltu bwrpasol, Dewch i Siarad RhCT, a hefyd drwy ymgysylltu wyneb yn wyneb, er enghraifft:<br><br>• Dewch i Siarad am y Gyllideb 2024 - 2025 (Cam 1 a 2) – i lywio Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25;<br>• Dewch i Siarad am y Newid yn yr Hinsawdd, Dewch i Siarad am Wefru Cerbydau Trydan, Dewch i Siarad am Goed a Blodau Gwyllt – ymgysylltu parhaus i lywio rhaglen waith y Cyngor i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd;<br>• Dewch i ni Siarad Am yr Hyn sy'n Bwysig i Chi ac yna Barhau i Siarad Am yr Hyn sy'n Bwysig i Chi – Dull graddol o ddatblygu Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2024 – 2030;<br>• Cynigion ar gyfer Newid Gwasanaethau: Clybiau Brecwast, Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol a Gofal yn y Cartref;<br>• Dewch i Siarad am Gydraddoldeb – i lywio datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol;<br>• Dewch i Siarad am Eisteddfod 2024 – ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr achlysur yn ystod haf 2024;<br>• Dewch i Siarad am Aberdâr – yn rhan o ddatblygu strategaeth canol y dref; Cŵn yn Baeddu – Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Adolygiad 3 blynedd – Ymgynghoriad i ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus; a<br>• Datblygu'r Strategaeth Leol Ar Gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a'r Cynllun Gweithredu.<br><br>Mae'r ystod o weithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd, a ategwyd gan Strategaeth Gyfranogiad a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn, yn dangos bod trefniadau sefydledig ar waith i ystyried adborth rhanddeiliaid i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, cynllunio / darparu gwasanaethau a datblygu strategaethau. |

**Egwyddor Ategol C – Diffinio deilliannau o ran buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy.**

6.5.1 Mae natur ac effaith tymor hir gwaith y Cyngor yn golygu bod gofyn iddo ddiffinio a chynllunio deilliannau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hybu pwrpas y Cyngor, cyfrannu at y buddion a'r canlyniadau amcan, ac aros o fewn awdurdod a'r adnoddau sydd ar gael. Mae mewnbwn gan randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses yma, ac o ran cydbwyso galwadau sy'n cystadlu, pennu blaenoriaethau ac adnoddau cyfyngedig.

| **Anghenion y Cod Llywodraethu Corfforaetho** |
| --- |
| Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor – diffinio deilliannau yn seiliedig ar angen. |

Cynllun Corfforaethol 2020-2024 - 'Gwneud Gwahaniaeth'

| Anghenion y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Is-Egwyddorion | Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24 |
|---|---|---|
| Adroddiad Cyflawniad Chwarterol (gan gynnwys diweddaru'r Gofrestr Risgiau). | Diffinio deilliannau a buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy. | • Darparodd Adroddiadau Cyflawniad chwarterol / diwedd blwyddyn y Cyngor dros olwg cyfannol o gyflawniad y Cyngor trwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | osod diweddariadau ar: y Gyllideb Refeniw, y Rhaglen Gyfalaf a chyflawniad Rheoli'r Trysorlys; Gwybodaeth am y gweithlu (absenoldeb salwch a throsiant |

| | | |
|---|---|---|
| | | ); Diweddariadau cynnydd Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol (a gefnogir gan ddiweddariadau cynllun gweithredu manwl ar gyfer pob blaenoriaeth); |

| | | |
|---|---|---|
| | | bud<br>dso<br>ddia<br>d<br>ych<br>wan<br>egol<br>wedi<br>'i<br>ddyr<br>ann<br>u i<br>flae<br>nori<br>aeth<br>au'r<br>Cynl<br>lun<br>Corff<br>orae<br>thol;<br>Risg<br>iau'r<br>Gofr<br>estr<br>Risg<br>Strat<br>egol<br>a<br>allai<br>effeit<br>hio'n<br>and<br>wyol<br>ar<br>gyfla<br>wni |

| | | |
|---|---|---|
| | | blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ochr yn ochr â chamau lliniaru; a chyflawni ei strategaeth Newid yn yr Hinsawdd.<br><br>• Cyhoeddwyd Adroddiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyflawniad y Cyngor yn chwarterol yn ystod y flwyddyn, a chyflwynwyd adroddiad arnyn nhw i'r Cabinet. Cawson nhw eu cymeradwyo gan y Cabinet, |

| | | |
|---|---|---|
| | | ac wedi hynny bu’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn craffu arnyn nhw ac roedden nhw'n unol â Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Amlygodd arddull adrodd y Crynodeb Gweithredol eithriadau i alluogi'r darllenydd i nodi'r materion allweddol yn gyflym a rhoddodd gyfle i rand |

| | | |
|---|---|---|
| | | deilliaid ddwyn y Cyngor i gyfrif am gyflawniad ariannol a chyflawniad ei Gynllun Corfforaethol. |

## 6.6 Egwyddor Ategol D – Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r deilliannau a fwriedir i'r eithaf

6.6.1 Mae'r Cyngor yn cyflawni'i ddeilliannau a fwriedir drwy ddarparu cyfuniad o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol. Mae gofyn gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn galluogi cyflawni blaenoriaethau a deilliannau a fwriedir mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Mae gofyn hefyd adolygu penderfyniadau'n barhaus i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni yn y modd gorau posib.

| Anghenion y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Is-Egwyddorion | Adolygiad o EffeithiolIrwydd Yn Ystod 2023/24 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Trefniadau gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth | Pennu ymyriadau | Roedd trefniadau gwneud penderfyniadau yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, a ategwyd gan adroddiadau wedi'u seilio ar dystiolaeth ac adroddiadau cyhoeddedig a hysbyswyd gan adborth rhanddeiliaid, dadansoddiad o opsiynau a gwybodaeth mewn perthynas â goblygiadau cyfreithiol, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ariannol, a'r graddau yr oedden nhw'n alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd meysydd penodol hefyd yn destun proses rhag-graffu i lywio'r broses gwneud penderfyniadau (gweler hefyd Adran 6.6.1 – Pwyllgorau Craffu). Lle bo angen, cafodd penderfyniadau eu hymgorffori yn Strategaeth Cyllideb Refeniw / Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd y Cyngor ac roedden nhw'n llywio Cynllunio Ariannol Tymor Canolig. |
| **Anghenion y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol** | **Is-Egwyddor** | **Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24** |
| Monitro a goruchwylio blaenoriaethau | Cynllunio ymyriadau | • Roedd trefniadau ar waith yn ystod y flwyddyn i gynllunio a monitro ymyriadau trwy Gynllunio Darparu Gwasanaethau lleol, Adroddiadau Cyflawniad chwarterol ac adroddiadau diweddaru penodol eraill i'r Cabinet a/neu i'r pwyllgor craffu dynodedig. Er enghraifft:<br><br>○ **Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol – Pobl:** <u>Gwasanaeth MAGU ac Oedi gyda Llwybrau at Ofal.</u><br>○ **Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol – Lleoedd:** <u>'Hinsawdd Ystyriol RhCT' - Strategaeth Mynd i'r Afael â'r Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor 2022-2025 a Mabwysiadu Strategaeth Leol Ar Gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Diwygiedig a Chynllun Gweithredu yr Awdurdod ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd.</u><br>○ **Blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol – Ffyniant:** <u>Diweddariad</u> ar dlodi plant ac ysgolion bro a <u>Strategaeth Canol Tref Aberdâr.</u> |
| Strategaeth Cyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf tair blynedd | Gwneud y gorau o gyflawniad a deilliannau a fwriedir | • Cymeradwyodd y Cyngor Llawn Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 a Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd (2023/24 tan 2025/26) ar 8 Mawrth 2023.<br><br><u>Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24</u><br>• Cafodd y gwaith o lunio Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 ei lywio gan set gynhwysfawr o drefniadau profedig a oedd yn cynnwys Cynllunio Darparu Gwasanaethau; adolygu a herio gofynion cyllideb ar draws pob maes gwasanaeth, dan arweiniad y Uwch Reolwyr y Cyngor; ac ymgysylltu â thrigolion / rhanddeiliaid lleol. Rhoddodd y dull yma'r cyfle i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys, sef cyfanswm o £609.955miliwn, yn ychwanegol at fynd i'r afael â bwlch cyllidebol o dros £38miliwn drwy gyflawni arbedion cyllidebol sylweddol a thrawsnewid gwasanaethau, a hwn oedd y bwlch cyllidebol mwyaf a wynebwyd erioed gan y Cyngor.<br>• Yn rhan o'r trefniadau ymgysylltu, adborth ymatebwyr oedd cefnogi blaenoriaethu adnoddau mewn ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, gyda'r Cyngor yn dyrannu 67.5% (£29miliwn) o'r adnoddau ychwanegol cyffredinol sydd ar gael i'r meysydd yma (34% ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a 33% ar gyfer ysgolion / gwasanaethau addysg a chynhwysiant). |

| | | |
|---|---|---|
| | | <u>Rhaglen Gyfalaf y Cyngor (2023/24 tan 2025/26)</u><br>• Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd oedd £187.320 miliwn ac mae'n nodi'r blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf a fydd yn cael effaith tymor hir ar yr ardal o ran adfywio, seilwaith ac asedau adeiledig y Cyngor o ran optimeiddio eu defnydd a'u budd i gymunedau lleol. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiad parhaus sylweddol mewn: ysgolion, sy'n gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu a'r cyfleusterau sydd ar gael, a sicrhau bod adeiladau ysgol yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; priffyrdd, sy'n cefnogi tuedd o welliant yng nghyflwr ffyrdd, fel y dangosir gan y dangosyddion cyflawniad a adroddwyd; prosiectau lliniaru llifogydd; a phrosiectau lleihau carbon sy'n cefnogi gostyngiadau yn y defnydd o ynni ac allyriadau CO2. |

| **Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol** | **Is-Egwyddor** | **Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24** |
|---|---|---|
| Strategaeth Cyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf tair blynedd (parhad) | Gwneud y gorau o gyflawniad a deilliannau a fwriedir (parhad) | <u>Dangos cyflawniad y deilliannau a fwriedir</u><br>• Mae Adroddiadau Cyflawniad y Cyngor yn ystod y flwyddyn wedi rhoi diweddariadau a sicrwydd ynglŷn â chyflawni'r amcanion sy'n sail i Strategaeth y Gyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf. Mae cynnydd cadarnhaol cyffredinol wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol; parhau i ddarparu gwasanaethau allweddol y Cyngor a diogelu cymaint o swyddi lleol â phosibl; a chymryd agwedd gyfrifol at lefel Treth y Cyngor – mae hyn yn cael ei gefnogi gan y ffaith fod y Cyngor wedi cael y cynnydd cyfartalog isaf ym Mand D yn Nhreth y Cyngor yng Nghymru yn 3 o'r 5 mlynedd diwethaf.<br><br>• Mae gan y Cyngor ddull cynaliadwy a hirdymor o gynllunio ei raglen gyfalaf, yn unol â blaenoriaethau ei Gynllun Corfforaethol. Dangosir hyn gan y ffaith y cafwyd dros £1 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf dros y 9 mlynedd diwethaf (rhwng 2015/16 a 2023/24), gydag effeithiau yn cael eu hadrodd trwy Adroddiadau Cyflawniad a diweddariadau penodol i'r pwyllgor perthnasol. |
| Cynllun Ariannol Tymor Canolig | Gwneud y gorau o gyflawniad a deilliannau a fwriedir | • Mae gan y Cyngor drefniadau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig (CATC) sydd wedi'u hen sefydlu sy'n llywio'r gwaith o bennu'r gyllideb, gyda'r dull yn cydbwyso blaenoriaethau a strategaethau'r Cyngor â fforddiadwyedd, i gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yn y tymor canolig. Cyhoeddwyd y CATC a mabwysiadodd y Cyngor ddull cynhwysol i alluogi Aelodau etholedig i adolygu a chraffu ar y sefyllfa h.y. adroddir diweddariadau i'r Cabinet, y Cyngor llawn, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cylch Trafod Cyllideb Ysgolion.<br><br>• Roedd y CATC diweddaraf (<u>18 Medi 2023</u>) yn nodi ystod o 'fylchau cyllidebol' wedi'u modelu, rhwng £31 miliwn a £35 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Roedd hefyd yn rhoi rhagolwg cywir ac amserol ar faint yr her yn y gyllideb i lywio trefniadau gosod y gyllideb ar gyfer y cyfnod yma (y bwlch gwirioneddol yn y gyllideb yn y setliad dros dro yw £36 miliwn, sef y bwlch cyllidebol mwyaf ond un a wynebwyd erioed gan y Cyngor). |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth i ddyrannu adnoddau yn unol â'i Gynllun Corfforaethol: Dyrannwyd 86% o gyllideb refeniw'r Cyngor i feysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (gyda'r 14% sy'n weddill yn ymwneud â Gwasanaethau Cyhoeddus Rheoleiddiol, Gwasanaethau Eraill i'r Cyhoedd, Costau Awdurdod Cyfan a Chymorth Craidd) (Gweler hefyd adran 'Egwyddor Ategol F'); a dyrannwyd 97% o adnoddau cyfalaf i feysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol. |

| **Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol** | **Is-Egwyddor** | **Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24** |
|---|---|---|
| Pwyllgorau Craffu | Gwneud y gorau o gyflawniad a deilliannau a fwriedir | Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn canolbwyntio ar gefnogi gwneud penderfyniadau cadarn a chyfrannu at optimeiddio'r deilliannau a fwriedir, fel y nodir yn y ddogfen <u>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, 2023/24</u>[1]. Roedd hyn yn cynnwys:<br><br>• Ffocws ar y trefniadau cyn y cam craffu - fe wnaeth Pwyllgorau Craffu ystyried 17 adroddiad o'r fath. Rhoddodd hyn gyfle i nodi risgiau a chyfleoedd yn gynnar yn y broses gwneud penderfyniadau a helpu i sicrhau bod dewisiadau'n wybodus. Mae enghreifftiau o ystyried trefniadau cyn y cam craffu yn cynnwys: Strategaeth ddrafft y Gyllideb Refeniw; y Cynllun Corfforaethol drafft; Adroddiad Estyn ar Wasanaethau Addysg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Y cynnig i newid Gwasanaethau Oriau Dydd i Bobl Hŷn; Adolygiad Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth; a'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Lleol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (LFRMS).<br><br>• Gan ddefnyddio'r mecanwaith 'galw i mewn' - galluogi archwiliad o benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet ond sydd heb eu gweithredu eto, gan fod hyn yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, ystyriwyd adroddiadau galw i mewn gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod y flwyddyn.<br><br>• Ystyried ac ymateb i ymgynghoriadau - darparu adolygiad a dadansoddiad annibynnol o gynigion, polisïau ac argymhellion, er enghraifft, Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Diwygio Treth y Cyngor.<br><br>• Craffu ar gyflawniad ariannol y Cyngor, cynnydd i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a chamau a gymerwyd i liniaru risgiau strategol, a gwneud argymhellion i wella trefniadau ymhellach, er enghraifft, diwygiadau i'r gofrestr risg strategol i alinio risgiau a chamau lliniarol yn gliriach. |

[1] Adroddiad Craffu Blynyddol 2023/24 – yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor llawn

| | | |
|---|---|---|
| | | Ategwyd y trefniadau uchod gan hyfforddiant parhaus a oedd ar gael i bob Aelod etholedig ar bwyllgorau craffu, cyfleuster Ymchwil Aelodau a rhag-gyfarfodydd i gynorthwyo Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i benderfynu ar gwestiynau / trywyddau ymholi mewn cyfarfodydd craffu. Yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd cyn y prif gyfarfod, rhoddwyd sylw dyledus i raddau'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) mewn adroddiadau, gan gyfarwyddo pwyllgorau craffu i ystyried effaith tymor hir y penderfyniadau ar gymunedau i atal materion cyson megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. |

## 6.7 Egwyddor Ategol E – Datblygu capasiti'r endid (sefydliad), gan gynnwys gallu'r garfan arwain a'r unigolion sy'n rhan ohoni.

Mae gofyn i'r Cyngor gael strwythurau ac arweinyddiaeth briodol, yn ogystal â phobl â'r sgiliau cywir, y cymwysterau a'r meddylfryd cywir, i weithredu'n effeithlon ac effeithiol a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r deilliannau a fwriedir. Rhaid iddo sicrhau bod ganddo'r capasiti i gyflenwi ei flaenoriaethau a rhai'r sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei gapasiti yn ogystal â sgiliau a phrofiad arweinyddiaeth aelodau staff. Caiff arweinyddiaeth yn y Cyngor ei chryfhau gan gyfranogiad pobl o lawer o wahanol fathau o gefndiroedd; mae hyn yn adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.

| Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol |
|---|
| Proses Hunan Arfarnu Corfforaethol a'r Broses Hunan Arfarnu ar gyfer Gwasanaethau. |

| |
|---|
| |
| **Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaet** |
| Cynllunio'r Gweithlu |

| |
|---|
| |
| Cynlluniau Dirprwyo |

| |
|---|
| |
| Rheolau Gweithdrefn |

| Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaeth |
| --- |
| Rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig a Swyddogion. |

## 6.8 Egwyddor Ategol F – Rheoli risg a chyflawniad yn rhan o reolaeth fewnol gadarn a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn.

6.8.1 Mae'n ofyniad sylfaenol bod strwythurau llywodraethu'r Cyngor yn addas at ddibenion trefniadau ariannol a rheoli cyflawniad cadarn. Mae hyn yn ei dro yn galluogi cynllunio gwasanaethau a'u cyflenwi'n effeithlon ac effeithiol, ac yn galluogi cyflawni'r deilliannau a fwriedir. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn yn rhan annatod o'r trefniadau yma. Mae system gref o reolaeth ariannol yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisïau a chyflawni'r deilliannau a fwriedir, gan y bydd yn ysgogi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau ar sail strategol, cyflenwi gwasanaethau'n effeithlon ac atebolrwydd. Mae hefyd yn hanfodol bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu yn bodoli yn rhan allweddol o'r gwaith o wneud penderfyniadau atebol, llunio polisïau ac adolygu. Mae diwylliant gweithio cadarnhaol sy'n derbyn her adeiladol, yn hyrwyddo ac yn annog hyn, yn hanfodol ar gyfer craffu llwyddiannus a chyflenwi llwyddiannus. Mae'n bwysig cofio nad yw'r diwylliant yma'n digwydd yn awtomatig; mae gofyn cael ymrwymiad cyhoeddus dro ar ôl tro gan arweinwyr ac uwch reolwyr y Cyngor er mwyn cyflawni hyn.

| Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaeth |
|---|
| Strategaeth Rheoli Risg |

| |
|---|
| |
| **Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaeth** |
| Cynllunio Cyflwyno Gwasanaeth; Adroddiad Cyflawniad Chwarterol (gan gynnwys dyddiadau diweddaru'r Gofrestr Risg); ac Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol (h.y. ad |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

Swyddogaeth Archwilio Mewnol

**Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaeth**

| |
|---|
| Swyddogaeth Archwilio Mewnol (parhad) |

| |
|---|
| |
| Rheoli data yn effeithiol (gan gynnwys risg seiber a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data) |

| **Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaet** |
| --- |
| Rheolau Gweithdrefn y Fframwaith Cyllideb a Pholisi a Rheolau Contract a Gweithdrefnau Ariannol. |

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Cydymffurfio â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)

6.8.2 Cafodd Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (y Cod) ei lansio ym mis Tachwedd 2019 ac mae wedi'i gynllunio i gefnogi arfer da mewn rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol.

6.8.3 Mae'r Cod yn gosod safonau rheolaeth ariannol ar gyfer awdurdodau lleol ac mae'n seiliedig ar gyfres o egwyddorion a ategir gan safonau penodol a datganiadau o ymarfer sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen gref i:

- Rheoli cyllid tymor byr, canolig a hir awdurdod lleol;
- Rheoli cydnerthedd ariannol i fodloni'r galw a ragwelir ar wasanaethau; a
- Rheoli siociau annisgwyl yn eu hamgylchiadau ariannol.

6.8.4 Rhaid i bob awdurdod lleol ddangos eu bod nhw'n bodloni gofynion y Cod. Mae Aelodau etholedig, y Prif Swyddog Cyllid a'u cydweithwyr proffesiynol yn y tîm arwain yn gyfrifol am gydymffurfiaeth. Cynlluniwyd y Cod i fod yn hyblyg i natur, anghenion ac amgylchiadau awdurdodau unigol. Mater i bob awdurdod yw penderfynu i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r Cod a nodi pa gamau y gallai ddymuno eu cymryd i fodloni'r safonau y mae'r Cod yn eu gosod yn well. Mae CIPFA hefyd wedi nodi y dylai Datganiadau Llywodraethu Blynyddol gynnwys casgliadau'r gwerthusiad o gydymffurfiaeth â'r Cod.

6.8.5 Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r Cod yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddor i helpu i benderfynu, wrth gymhwyso safonau rheolaeth ariannol, a yw awdurdod yn gynaliadwy yn ariannol. Mae'r egwyddorion yn cwmpasu:

- Arweinyddiaeth sefydliadol - Ydy'r arweinwyr yn dangos cyfeiriad strategol clir yn seiliedig ar weledigaeth lle mae rheolaeth ariannol wedi'i gwreiddio yn niwylliant yr awdurdod?
- Atebolrwydd - Mae hyn yn seiliedig ar gynllunio ariannol tymor canolig sy'n llywio proses y gyllideb flynyddol wedi'i hategu gan reoli risg yn effeithiol, data ategol o ansawdd da a chostau oes gyfan.
- Ymgymerir â rheolaeth ariannol mewn ffordd dryloyw gan ddefnyddio data cyson, ystyrlon a dealladwy, a adroddir yn aml gyda thystiolaeth o weithredu cyfnodol gan swyddogion a phenderfyniadau gan aelodau etholedig.
- Hyrwyddir ymlyniad at safonau proffesiynol gan y garfan arweinyddiaeth ac mae tystiolaeth o hyn.
- Cydnabyddir ffynonellau sicrwydd fel arf effeithiol sydd wedi'i brif ffrydio i reolaeth ariannol ac mae'n cynnwys craffu gwleidyddol a chanlyniadau archwilio allanol, archwilio mewnol ac arolygu.
- Mae cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau lleol wrth wraidd yr holl broses rheoli ariannol ac mae defnydd doeth o adnoddau cyhoeddus i'w weld.

6.8.6 Yn ei dro, mae'r Cod wedi'i strwythuro o amgylch 7 Safon trosfwaol: Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid a'r Garfan Arwain; Arddull Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol; Rheolaeth Ariannol Tymor Hir i Ganolig; Y Gyllideb Flynyddol; Ymgysylltu â

Rhanddeiliaid a Chynlluniau Busnes; Monitro Cyflawniad Ariannol; ac Adroddiadau Ariannol Allanol.

6.8.7 Mae’r Cyngor wedi cynnal asesiad o’i drefniadau presennol yn erbyn y Safonau o fewn y Cod. Mae’r asesiad wedi’i osod yng nghyd-destun amodau gweithredu hynod heriol ar hyn o bryd a disgwylir i'r amodau yma barhau dros y tymor canolig. Mae'r amodau heriol yma'n cael eu gyrru gan y cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau, yn enwedig y gwasanaethau hynny sy'n cefnogi'r trigolion mwyaf agored i niwed yn y Fwrdeistref Sirol, pwysau costau chwyddiant, gostyngiadau mewn termau real mewn cyllid a goblygiadau etifeddiaeth pandemig Covid-19.

6.8.8 Mae’r asesiad wedi dangos tystiolaeth o:

- Agwedd ddisgybledig, wedi’i gynllunio a chadarn at reolaeth ariannol a chynllunio ariannol tymor canolig, dan arweiniad yr Uwch Arweinwyr a’r Cabinet ochr yn ochr â throsolwg gan y Cyngor llawn a’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, sydd wedi cefnogi’r broses o ddyrannu adnoddau wedi’u targedu i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn llwyddiannus ac ar yr un pryd cynnal gwytnwch a sefydlogrwydd ariannol y Cyngor.

- Trefniadau sy’n ystyried amodau gweithredu cyfnewidiol a lefelau cyllid cyfyngedig, ynghyd â rhaglen waith barhaus i nodi a chyflawni arbedion cyllidebol sylweddol a diogelu gwasanaethau rheng flaen, cyn belled ag y bo modd.

- Prosesau sydd wedi'u gwreiddio'n dda i nodi a gweithredu meysydd i'w gwella a chyfleoedd newid / trawsnewid gwasanaethau yn barhaus.

6.8.9 Yn seiliedig ar ganfyddiadau’r broses asesu a’r deilliannau allweddol a gyflawnwyd, nid oes unrhyw feysydd penodol i’w gwella wedi’u nodi o’r asesiad, ac eithrio’r rhai sydd wedi’u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma (gweler adran 5, Crynodeb Gweithredol). Mae lefel uchel o sicrwydd bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn addas at y diben.

## 6.9 Egwyddor Ategol G – Gweithredu arferion da o ran tryloywder, rhoi gwybod ac archwilio er mwyn cyflenwi atebolrwydd effeithiol.

6.9.1 Mae atebolrwydd yn RhCT yn ymwneud â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn cyflenwi gwasanaethau yn atebol amdanyn nhw, gydag archwilio allanol a mewnol yn rhan annatod o'r trefniadau.

| Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Is-Egwyddor | Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24 |
|---|---|---|
| Rhoi gwybod am brotocolau a chalendrau (gan gynnwys rhaglenni gwaith sy'n edrych i'r dyfodol, er enghraifft, ar gyfer y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu). | Gweithredu arfer da o ran tryloywder | • Fel y nodir yn adran 'Egwyddor Graidd B'. |
| Llunio Adroddiadau Blynyddol ynghylch meysydd busnes allweddol e.e. Rhianta Corfforaethol, yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol. | Gweithredu arfer da o ran tryloywder | • Cafodd Adroddiadau Blynyddol eu paratoi a'u hadrodd yn gyhoeddus i gefnogi atebolrwydd a threfniadau cyflawniad agored a thryloyw, er enghraifft[2], Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol 2022/23 (<u>Bwrdd Rhianta Corfforaethol 18 Gorffennaf 2023</u>); Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022/23 ( a <u>Cabinet 20 Mawrth 2024</u>); ac <u>Adroddiad Blynyddol Cydweithredol Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd 2022/23</u> ac Adroddiad Blynyddol Cynhalwyr Ifainc 2023/24). |
| Datganiad o Gyfrifon. | Gweithredu arferion da wrth adrodd | • Mae'r archwiliad allanol o Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor wedi derbyn barn archwilio 'gwir a theg' ddiamod, o flwyddyn i flwyddyn, yn gyson (h.y. mae'n gwbl iach); adroddwyd y farn archwilio ddiamod ddiweddaraf, yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2022/23, i'r Cyngor llawn ar <u>29 Tachwedd 2023.</u><br><br>• Yn ystod 2023/24, cyn i ddatganiad o gyfrifon archwiliedig 2022/23 y Cyngor gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn, roedd trefniadau allweddol yn cynnwys adrodd ar ddatganiad cyfrifon drafft ardystiedig y Cyngor hyd at y Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar <u>4 Medi 2023</u> (ochr yn ochr â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd - Consortiwm Canolbarth y De a'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer Amlosgfa Llwydcoed) i roi cyfle i'r Pwyllgor wneud sylwadau ac ystyried y cyfrifon drafft |

[2] Adroddiadau Blynyddol – nid yw'r adroddiadau blynyddol y cyfeirir atyn nhw mewn adrannau eraill o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, er enghraifft, Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, wedi'u nodi at ddibenion yr adran yma o'r ddogfen.

| | | |
|---|---|---|
| | | ardystiedig yn unol â’r canllawiau statudol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2011. Bydd y trefniadau yma hefyd ar waith ar gyfer Datganiadau Cyfrifon 2023/24. |
| **Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol** | **Is-Egwyddor** | **Adolygiad o Effeithiolrwydd Yn Ystod 2023/24** |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn. | Gweithredu arferion da wrth adrodd | • Cafodd Datganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn 2022/23 eu hadrodd i'r Cyngor llawn a'i gymeradwyo ganddo ar 29 Tachwedd 2023 Cafwyd barn archwilio ddiamod (h.y. barn archwilio lân) gan yr archwiliad allanol, a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru. Adroddwyd am ddiweddariad i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 12 Rhagfyr 2023.<br><br>• Cyflwynwyd a chytunwyd ar Raglen Waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ym Mhwyllgor y Gronfa Bensiwn ac roedd adolygiad o adroddiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn dangos bod y rhaglen waith wedi'i chyflawni. |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol. | Sicrhau Ansawdd ac Atebolrwydd Mewnol | Cafodd diweddariad cynnydd ar argymhellion Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 ei adrodd i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae datganiad sefyllfa diwedd blwyddyn wedi'i nodi yn **Atodiad A** ac mae'n dangos bod yr holl argymhellion wedi'u cwblhau a / neu wedi gweld cynnydd digonol.<br><br>Cynnig er Gwella<br>Nid yw Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol na Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac felly roedd angen ei adolygu a’i ddiweddaru. |
| Asesiad allanol a Siarter yr Archwiliad Mewnol. | Sicrhau Ansawdd ac Atebolrwydd Mewnol | Fel y nodir yn ‘Egwyddor Ategol F’. |

## 6.10 Trefniadau Llywodraethu Allweddol Eraill

Amgen Cymru Limited

6.10.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn berchen ar 100% o hawliau pleidleisio cwmni Amgen Cymru Ltd, sydd, yn ei dro, yn berchen ar 100% o hawliau pleidleisio cwmni Amgen Rhondda. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn berchen ar 100% o'r rhandaliadau dewisol yng nghwmni Amgen Rhondda Ltd. Prif weithgarwch cwmni Amgen Cymru yw darparu gwasanaethau rheoli gwastraff a gwasanaethau i gael gwared ar wastraff. Mae cwmni Amgen Rhondda yn gyfrifol am stiwardio safle tirlenwi Nant y Gwyddon.

6.10.2 Mae cyfarwyddwyr y cwmnïau, gan gynnwys cyfarwyddwr anweithredol, yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn, gan gynnwys system reoli fewnol drylwyr, ar waith.

6.10.3 Penderfynodd y Cyngor i gael gwared ar statws "hyd braich" y cwmnïau yn 2009/2010, felly mae nifer o agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor, megis polisïau, prosesau a dulliau rheoli, yn berthnasol ar gyfer y cwmnïau yma.

6.10.4 Yn ystod 2023/24, dydy cyfarwyddwyr cwmni Amgen, archwilwyr mewnol nag archwilwyr allanol ddim wedi nodi unrhyw broblemau sylweddol o ran llywodraethu.

Cronfa Bensiwn

6.10.5 RhCT yw Awdurdod Gweinyddol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Er bod y trefniadau llywodraethu sydd wedi'u nodi yn y datganiad yma yr un mor berthnasol ar gyfer cyfrifoldebau'r Cyngor o ran y Gronfa Bensiwn, mae rhagor o ofynion penodol ar gyfer Cronfeydd Pensiwn sydd wedi'u nodi mewn nifer o ddogfennau allweddol:

- Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu sy'n nodi safle'r Gronfa yn erbyn safonau ymarfer gorau'r Llywodraeth;
- Datganiad Polisi Llywodraethu sy'n cynnig trosolwg o strwythur llywodraethu, gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â chyflogwyr y cynllun;
- Datganiad Polisi Cyfathrebu sy'n rhoi manylion am y gwasanaethau cyfathrebu a gwybodaeth y mae modd i gyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun, a'r rheiny sy'n aelodau o'r cynllun, fanteisio arnyn nhw;
- Strategaeth Gweinyddu Pensiynau sy'n bwriadu gwella effeithlonrwydd darpariaeth y safonau ansawdd cytûn a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol;
- Datganiad Strategaeth Fuddsoddi sy'n manylu ar sut mae buddsoddiadau'r Gronfa'n cael eu rheoli, gan gynnwys polisi'r Gronfa ynglŷn â sut mae ystyriaethau llywodraethu cymdeithasol, amgylcheddol a chorfforaethol yn cael eu hystyried; a
- Datganiad Strategaeth Cyllido sy'n rhoi crynodeb o sut y byddwn ni'n ariannu ein rhwymedigaethau pensiwn.
- Cofrestr Risg y Gronfa Bensiwn, sy'n nodi, yn blaenoriaethu ac yn monitro risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa, yn erbyn rheolaethau lliniaru addas.

6.10.6 Mae modd cael gafael ar yr holl ddogfennau yma fan hyn: https://www.pensiynaurhct.org.uk/Cy/Home.aspx

6.10.7 Cyflwynodd Deddf Bensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 nifer o newidiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys rhai newidiadau sylweddol ar gyfer llywodraethu cynlluniau o'r fath. Yn unol â'r Ddeddf, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Pensiwn Lleol er mwyn cynorthwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ei rôl fel Awdurdod Gweinyddu ('Rheolwr Cynllun') yn:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion sy'n cael eu pennu mewn perthynas â'r CPLlL gan y Rheolydd Pensiynau; a
- Sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon o'r CPLlL gan y Rheolwr Cynllun.

6.10.8 Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cynnwys dau aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr a dau aelod sy'n cynrychioli'r aelodau. Cyfarfu'r Bwrdd Pensiwn 4 gwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

6.10.9 Yn 2016/17 sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Cronfa Bensiwn ffurfiol (yn amodol ar ddarpariaethau Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) er mwyn goruchwylio ei gyfrifoldebau mewn perthynas â gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn gytbwys yn wleidyddol ac yn cynnwys 5 o aelodau etholedig.

6.10.10 Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am faterion rheoli strategol sy'n ymwneud â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r holl faterion gweithredol yn parhau i gael eu dynodi i Ddirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Grŵp Cyllid a Rheng Flaen (yn ei swydd fel Swyddog Adran 151, neu i'r Dirprwy Swyddog Adran 151 yn ei absenoldeb). Caiff y gwaith yma ei gefnogi gan Banel Cynghori ar faterion Buddsoddi a Gweinyddu, sy'n cynnig cymorth gan swyddog priodol, cynghorwr annibynnol a chymorth proffesiynol.

6.10.11 Cafodd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn bedwar cyfarfod yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

6.10.12 Yn 2017, cafodd Cydbwyllgor Llywodraethu ei sefydlu, yn unol â chytundeb rhwng awdurdodau, sy'n gyfrifol am oruchwylio Partneriaeth Pensiwn Cymru, sef cronfa fuddsoddi gydweithredol yr wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r wyth Cadeirydd sy'n rhan o Bwyllgor Cronfa Bensiwn Cymru, neu eu dirprwy enwebiedig (aelod etholedig) yn mynychu cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu ac yn cael eu cefnogi gan weithgor o swyddogion. Ym mis Ionawr 2018, penododd Partneriaeth Bensiynau Cymru 'Weithredwr' er mwyn sefydlu a chynnal adnodd buddsoddi ar y cyd at ddefnydd cyllid y Cynllun Pensiwn Awdurdod Lleol yn unig.

Dyma grynodeb o amcanion cyfuno Partneriaeth Pensiwn Cymru:
- Darparu swm cyson o elw dros ben ar ffioedd;
- Amrywiaethu risg rheolwyr;
- Lleihau ffioedd cyfartalog y rheolwyr;
- Cyflawni effeithlonrwydd treth trwy adennill treth wrth gefn ar ddifidendau (ar gyfer is-gronfeydd ecwiti heb fod yn y DU);
- Datblygu dyheadau cyfuno'r Llywodraeth; a
- Rhannu costau trosglwyddo mewn modd teg i mewn i is-gronfeydd.

## 6.11 Ffynonellau Sicrwydd Allweddol Eraill

6.11.1 Roedd y ffynonellau sicrwydd allweddol eraill a ganlyn ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151)

6.11.2 Roedd rôl y Prif Swyddog Cyllid o fewn y Cyngor yn ystod 2023/24 yn cydymffurfio â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn nogfen Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth '*Rôl y Prif Swyddog Cyllid'* oherwydd bod y Prif Swyddog Cyllid yn:

- *Aelod allweddol o'r Tîm Arwain gan helpu i ddatblygu a gweithredu strategaeth a chyflawni amcanion strategol y sefydliad mewn modd cynaliadwy ac er budd y cyhoedd;*
- *Rhan weithredol o holl benderfyniadau busnes ac roedd modd iddo ddylanwadu arnyn nhw er mwyn sicrhau bod goblygiadau, cyfleoedd a risgiau uniongyrchol a hir dymor yn cael eu hystyried, ac yn gyson â strategaeth ariannol y sefydliad; ac*
- *Arwain gwaith hyrwyddo a chyflawni rheolaeth ariannol da fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i ddefnyddio mewn modd addas, economaidd, effeithiol ac effeithlon ar bob adeg ar draws y sefydliad.*

*Cyflawni'r cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid:*

- *Arwain a chyfarwyddo'r swyddogaeth ariannol a oedd yn addas i bwrpas; a*
- *Mae wedi'i gymhwyso ac mae ganddo'r profiad addas.*

Swyddog Monitro

6.11.3 Mae’n ofynnol i’r Swyddog Monitro adrodd i’r Cyngor mewn unrhyw achos lle mae’n ymddangos bod unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad gan yr awdurdod wedi arwain at neu’n debygol o arwain at unrhyw dramgwydd o unrhyw ddeddf, rheol gyfreithiol neu god ymarfer neu gamweinyddu neu anghyfiawnder yn unol ag Adrannau 5 a 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Yn ystod cyfnod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ni wnaeth y Swyddog Monitro unrhyw adroddiadau o'r fath.

Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol

6.11.4 Yn ystod 2023/24 cyflawnwyd y swyddogaeth Archwilio Mewnol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a chwblhawyd rhaglen waith yn unol â Chynllun Archwilio Mewnol 2023/24. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi paratoi Adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24. Mae hyn yn amodol ar i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried yr adroddiad yma yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2024. Mae Adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn nodi:

- *Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yw bod amgylchedd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol cyffredinol y Cyngor yn ystod 2023/24 wedi gweithredu’n effeithiol gyda rhai meysydd wedi’u nodi ar gyfer eu gwella. Er y bu achosion lle nodwyd gwendidau yn yr amgylchedd rheolaeth fewnol, ym marn y Pennaeth Archwilio Mewnol, ni chafodd y rhain effaith sylweddol ar lefel gyffredinol sicrwydd y Cyngor.*

6.11.5 Cadarnhaodd Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2023/24 gydymffurfiad cyffredinol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Parhaodd llawer o staff y Cyngor i weithio o bell, a bu'n rhaid addasu systemau a phrosesau i gyd-fynd â'r dulliau newydd o weithio. Yn yr un modd, mae'r garfan Archwilio Mewnol wedi gweithio gan ddefnyddio dull hybrid o gynnal archwiliadau a chael tystiolaeth yn ddigidol a wyneb yn wyneb, lle bo angen. Mae pob archwiliad wedi ystyried effaith bosibl gweithio o bell i sicrhau bod rheolaethau a threfniadau llywodraethu digonol yn parhau i fod ar waith.

6.11.6 Ym mis Ebrill 2024, llwyddodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i drosglwyddo'n ôl i'r Cyngor o'r Cydwasanaeth Rhanbarthol, gyda Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn cael sicrwydd ynghylch y broses bontio drwy ddiweddariadau cynnydd rheolaidd.

Archwilio Allanol

6.11.7 Darparodd Archwilio Cymru ddiweddariadau i'r Cyngor llawn a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i alluogi Aelodau etholedig i adolygu a chraffu ar ei waith ac i geisio sicrwydd gan Swyddogion y Cyngor bod yr argymhellion y cytunwyd arnyn nhw a adroddwyd gan Archwilio Cymru yn cael eu gweithredu gan wasanaethau'r Cyngor. Roedd diweddariadau yn cynnwys:

- Cyngor Llawn - yn gyffredinol, cydymffurfiwyd â gofynion statudol y Datganiad o Gyfrifon a doedd dim materion o bwys i'w hadrodd - 29 Tachwedd 2023 – 'Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf' ac 'Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf'.

- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – adroddwyd diweddariadau rheolaidd gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor ochr yn ochr ag adroddiadau'r Cyngor, lle roedd yn briodol, ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud i weithredu argymhellion Archwilio Cymru mewn perthynas â threfniadau'r Cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys:

  - 4 Gorffennaf 2024 – Diweddariad ar Gynnydd y Cyngor – Gweithredu Argymhellion a adroddwyd gan Archwilio Cymru;

  - 4 Medi 2023 – Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru 'Amser am newid – Tlodi yng Nghymru', 'Mentrau Cymdeithasol - Cyfle wedi'i golli' a 'Community Resilience and Self-Resilience – Together we Can' (*methu dod o hyd i deitl Cymraeg), ynghyd ag adroddiad y Cyngor mewn perthynas ag ymateb i'r argymhellion;

  - 12 Hydref 2023 – Archwilio Cymru: Cynllun Archwilio 2023 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;

  - 24ain Ionawr 2024 – Adroddiad Archwilio Cymru – 'Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau', ynghyd â'r camau i'w cymryd gan y Cyngor i weithredu'r argymhellion;

- 27 Chwefror 2024 – Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru (Diweddariad chwarterol hyd at 31 Rhagfyr 2023) – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;

- 29 Ebrill 2024:
  - Archwilio Cymru – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023
  - Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru (Diweddariad Chwarterol hyd at 31 Mawrth 2024)
  - Diweddariad Cynnydd y Cyngor – Gweithredu'r Argymhellion a adroddwyd yng Nghrynodeb Archwilio Blynyddol 2023 Archwilio Cymru

6.11.8 Mae'r Adolygiad o Effeithiolrwydd a'r cynigion ar gyfer gwella wedi'u hadolygu a'u herio gan Uwch Arweinwyr y Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 6.12 Casgliad Cyffredinol

6.12.1 Yn seiliedig ar yr adolygiad o effeithiolrwydd yn erbyn yr Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, roedd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn sail i gynnal sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol y Cyngor, yn ystod cyfnod o bwysau ariannol sylweddol a chyllid cyfyngedig, drwy gynllunio, blaenoriaethu a rheoli adnoddau prin yn effeithiol. Ategwyd y sefyllfa yma gan brosesau craffu a gwneud penderfyniadau cadarn a threfniadau hunanwerthuso sydd wedi'u hen sefydlu. Roedd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol a gwasanaethau ehangach. Mae nifer fach o gynigion ar gyfer gwella wedi'u gwneud er mwyn cryfhau'r prosesau cyfredol ymhellach.

6.12.2 Mae'r sefyllfa uchod, ynghyd â hanes o weithredu cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol blaenorol, yn rhoi sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodir yn Adran 7.

# 7. CYNIGION ER GWELLA 2023/24

7.1 Yn ogystal â chwblhau asesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, mae Tabl 2 yn amlinellu'r cynigion er gwella.

## Tabl 2 - Cynigion er Gwella

| Egwyddor Craidd / Ategol | Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Mater wedi'i nodi | Argymhelliad | Amserlen ar gyfer Gweithredu a Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| C - Diffinio deilliannau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy | Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor – diffinio deilliannau yn seiliedig ar angen | Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor, 'Gweithio Gyda'n Cymunedau 2024 – 2030', mae angen adolygu'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad sydd ar waith i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben. | Adolygu, a lle bo angen, diweddaru Fframwaith y Cyngor gan ystyried Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor. Dylai'r adolygiad hefyd barhau i ganolbwyntio ar ddangos effaith a deilliannau gwaith y Cyngor, gan ystyried gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau (fel y nodir yn adroddiad Archwilio Cymru i'r Cyngor - Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau). | Rhagfyr 2024<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen |
| E – Datblygu capasiti'r endid (sefydliad), gan gynnwys gallu'r garfan arwain a'r unigolion sy'n rhan ohoni. | Proses Hunan Arfarnu Corfforaethol a'r Broses Hunan Arfarnu ar gyfer Gwasanaethau | Cafodd hunanasesiad drafft y Cyngor 2022/23 ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19 Rhagfyr 2023 ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer llunio'r hunanasesiad blynyddol, yn benodol ei brydlondeb, er mwyn caniatáu ar gyfer craffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gynharach yn y flwyddyn a galluogi'r gwelliannau a nodwyd i gael eu hymgorffori yn y trefniadau adrodd.<br><br>Cwblhawyd asesiad sgiliau a gwybodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2022 ac fe'i defnyddiwyd i lywio cynllun dysgu a datblygu 2023/24 y Pwyllgor. Mae angen adnewyddu asesiad sgiliau a gwybodaeth y Pwyllgor, ynghyd â cheisio adborth gan Aelodau'r Pwyllgor ar yr hyn a aeth yn dda a meysydd i'w gwella, er mwyn llywio trefniadau dysgu a datblygu ar gyfer 2024/25. | Adolygu trefniadau ar gyfer cwblhau'r broses hunanasesu i alluogi cwblhau a chraffu mwy amserol gan y Pwyllgor a galluogi gwelliannau a nodwyd i gael eu hymgorffori mewn trefniadau adrodd yn gynharach yn y flwyddyn (fel y bo'n briodol).<br><br>Adnewyddu asesiad sgiliau a gwybodaeth y Pwyllgor ochr yn ochr â cheisio adborth gan Aelodau'r Pwyllgor ar yr hyn a aeth yn dda a meysydd i'w gwella yn 2023/24 wrth baratoi trefniadau dysgu a datblygu ar gyfer 2024/25. | Hydref 2024<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cyllid a Gwella<br><br>Medi 2024<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu |

| **Egwyddor Craidd / Ategol** | **Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol** | **Mater wedi'i nodi** | **Argymhelliad** | **Amserlen ar gyfer Gweithredu a'r Swyddog Cyfrifol** |
|---|---|---|---|---|
| F - Rheoli risg a chyflawniad yn rhan o reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol cyhoeddus cadarn. | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Mae cyhoeddiad CIPFA, 'Audit Committees - Practical Guidance for Local Authorities & Police' Argraffiad 2022, yn nodi'r canlynol fel arfer da: "has the committee obtained positive feedback on its performance from those interacting with the committee or relying on its work?". Ar hyn o bryd, nid oes trefniadau ffurfiol yn eu lle yn hyn o beth. | Er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag arfer da, dylid rhoi adborth gan y Cyngor llawn i'r Pwyllgor ar ôl i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno. | Medi 2024<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu |
| G - Gweithredu arferion da o ran tryloywder, rhoi gwybod ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol. | Datganiad Llywodraethu Blynyddol. | Nid yw Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol na Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac felly mae angen ei adolygu a'i ddiweddaru. | Adolygu a diweddaru Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried / cymeradwyo. | Rhagfyr 2024<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cyllid a Gwella |

7.2 Mae Uwch Arweinwyr y Cyngor wedi derbyn y cynigion er gwella ac maen nhw wedi ymrwymo i'w rhoi nhw ar waith yn ystod 2024/25. Mae'r Uwch Arweinwyr hefyd wedi cadarnhau y caiff y newyddion diweddaraf am gynnydd ei rannu â Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn ystod y flwyddyn er mwyn galluogi'r Aelodau etholedig i adolygu a chraffu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Arweinydd: A. morgan

Prif Weithredwr: ______________________

**ATODIAD A**

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2022/23 – DATGANIAD SEFYLLFA DIWEDD BLWYDDYN

| Egwyddor Craidd / Ategol (Paragraff) | Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Mater a Nodwyd / Argymhelliad | Amserlen ar gyfer Gweithredu | Cyfrifol Swyddog(ion) | Datganiad Sefyllfa Diwedd Blwyddyn 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egwyddor Ategol:**<br><br>B - Bod yn agored a chynnal gwaith ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid | Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Mater a Nodwyd - Mae angen rhagor o waith i ddatblygu a chwblhau Strategaeth Gyfranogi sy'n nodi sut mae pobl leol yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gan y Cyngor.<br><br>Argymhelliad - Dylai'r Cyngor gwblhau ei waith i gwblhau a chytuno ar ei Strategaeth Cyfranogiad ac yna cymryd y camau angenrheidiol i weithredu hyn. | Hydref 2023 | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu | Cafodd Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ei chytuno gan y Cyngor llawn 25 Hydref 2023. Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am y monitro a'r adolygu i'w symud ymlaen. |
| **Egwyddor Ategol:**<br><br>C - Diffinio deilliannau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy | Adroddiad Cyflawniad Chwarterol (gan gynnwys diweddaru'r Gofrestr Risgiau) | Mater a Nodwyd - Nododd Hunanasesiad diweddaraf y Cyngor yr angen am welliant parhaus yn y trefniadau i ddangos effaith ei waith a chyflawni'r deilliannau arfaethedig, gan nodi'r gofyniad i'r Cyngor ailosod ei drefniadau yn dilyn effaith digynsail pandemig Covid-19.<br><br>Argymhelliad - Mae angen i'r Cyngor adeiladu ar y gwaith hyd yma i ddangos effaith a deilliannau'n gliriach o fewn ei drefniadau Hunanasesu ac Adrodd ar Gyflawniad ac ymgorffori gwybodaeth defnyddwyr gwasanaeth (mae hyn yn ganfyddiad sy'n dod i'r amlwg o waith adolygu Archwilio Cymru a gynhaliwyd yn 2022/23). | Hydref 2023 | Uwch Reolwyr y Cyngor | Oherwydd natur yr argymhelliad, mae hwn yn faes gwaith parhaus.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu'r gwaith o gasglu ac adrodd ar wybodaeth, drwy ei drefniadau adrodd ar gyflawniad a hunanasesu, a fydd yn helpu i ddangos effaith ei waith ymhellach, er enghraifft, cynnwys adolygiadau gwerthusol o weithgareddau allweddol ac astudiaethau achos mewn cynlluniau gweithredu blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol 2023/24. Bydd y gwaith yma'n cael ei ddatblygu ymhellach yn rhan o Gynllun Corfforaethol newydd y Cyngor. |

| Egwyddor Craidd / Ategol (Paragraff) | Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Mater a Nodwyd / Argymhelliad | Amserlen ar gyfer Gweithredu | Cyfrifol Swyddog(ion) | Datganiad Sefyllfa Diwedd Blwyddyn 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egwyddor Ategol:**<br><br>E: Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu'r arweinwyr, a'r unigolion sy'n rhan o'r gwasanaeth. | Datblygu capasiti arweinwyr y sefydliad ac unigolion eraill. | Mater a Nodwyd - Ni chafodd y Contract na'r dogfennau Rheolau Gweithdrefn Ariannol eu hadolygu yn ystod 2022/23 i ystyried unrhyw ddiweddariadau gofynnol a sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod yn addas at y diben.<br><br>Argymhelliad - Dylid adolygu'r ddwy ddogfen yn ystod 2023/24 a llofnodi diweddariadau arfaethedig, eu hymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor a rhoi gwybod i staff am ddiweddariadau. | Ionawr 2024 | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella a Phennaeth Caffael | Mae'r ddwy ddogfen wedi'u hadolygu a chafwyd sicrwydd eu bod nhw'n parhau i fod yn addas i'r diben (cafodd trosolwg o'r ddwy set o Reolau Gweithdrefn ei ddarparu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24 Ionawr 2024). |
| **Egwyddor Ategol:**<br><br>F - Rheoli risg a chyflawniad yn rhan o reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol cyhoeddus cadarn. | Strategaeth Rheoli Risg | Mater a Nodwyd - Cyflawnodd y garfan Archwilio Fewnol aseiniad archwilio ar drefniadau Rheoli Risg Corfforaethol y Cyngor yn 2022/23, gan nodi bod lefel rhesymol o sicrwydd yn gyffredinol. Gosododd argymhellion i gryfhau trefniadau ymhellach: diweddaru'r Strategaeth Rheoli Risg i gynnwys rolau a chyfrifoldebau swyddogion; mae disgrifiadau risg strategol yn y Gofrestr Risg Strategol yn cael eu hadolygu i sicrhau bod yr effaith ar y Cyngor yn glir; a'r angen i fwrw ymlaen â'r gwaith o lunio a chyflwyno modiwl hyfforddi e-ddysgu Rheoli Risg ar gyfer swyddogion y Cyngor.<br><br>Argymhelliad - Cryfhau trefniadau rheoli risg ymhellach, fel y nodir yn Adroddiad Archwilio Mewnol 2022/23 'Rheoli Risg Corfforaethol. | Medi 2023 | Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Cyllid a Gwella | Diweddarwyd Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor i ymgorffori rolau a chyfrifoldebau, adroddwyd arni a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12/10/2023 a'i chymeradwyo gan y Cabinet ar 18/12/2023.<br><br>Roedd Cofrestr Risg Strategol y Cyngor yn cael ei hadolygu a'i diweddaru ac adroddwyd arni bob chwarter yn rhan o drefniadau adrodd ar gyflawniad.<br><br>Dyfeisiwyd a lansiwyd modiwl e-ddysgu. |

| Egwyddor Craidd / Ategol (Paragraff) | Anghenion Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol | Mater wedi'i nodi / Argymhelliad | Amserlen ar gyfer Gweithredu | Cyfrifol Swyddog(ion) | Datganiad Sefyllfa Diwedd Blwyddyn 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egwyddor Ategol:**<br><br>F - Rheoli risg a chyflawniad yn rhan o reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol cyhoeddus cadarn - parhad. | Cynllun Ariannol Tymor Canolig | Mater a Nodwyd - Argymhellodd Adolygiad Sicrwydd ac Asesiad Risg Archwiliad Cymru o ran Cynlluniau Lleihau Carbon – "*Er mwyn bodloni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor gostio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn gyson â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig*".<br><br>Argymhelliad - Rhoi cost lawn i gynllun gweithredu lleihau allyriadau carbon y Cyngor a sicrhau aliniad â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru yn ei Adolygiad o Sicrwydd ac Asesiad Risg. | Hydref 2023 | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng-flaen a Chyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor | Mae gwaith yn mynd rhagddo i gostio cynllun lleihau carbon y Cyngor, a bydd y canlyniadau'n cael eu hystyried yn rhan o weithrediad parhaus y Strategaeth Datgarboneiddio a'u halinio â'r cynllun ariannol tymor canolig.<br><br>Ochr yn ochr â hyn, datblygwyd rhaglen o brosiectau lleihau carbon yn ystod 2023/24, yn rhan o drefniadau darparu gwasanaethau, a chyhoeddwyd diweddariadau ar y cynnydd mewn Adroddiadau Cyflawniad chwarterol. |

***********************************

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r Grŵp

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rydw i wedi archwilio cyfriflenni ariannol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; a
- Grŵp Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, Datganiad Symud i gronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm Cynhwysol a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys Datganiad Symudiad y Grŵp mewn Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp, Datganiad Llif Arian y Grŵp a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i ddefnyddio i baratoi am hyn yn cydymffurfio â'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan y DU fel y’u dehonglir ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Grŵp Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth 2024 ac o’i incwm a’i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â'r gofynion cyfreithiol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y’u dehonglir ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn 2023-24.

### Y sail ar gyfer llunio barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau’r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau yma eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwiliwr ar gyfer yr adran o'r adroddiad sy'n trafod archwilio datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau’n annibynnol ar y Cyngor a’r Grŵp yn unol â'r gofynion moesol sy'n berthnasol ar gyfer fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesol y Cyngor Adrodd Ariannol. Rydw i wedi cyflawni fy nyletswyddau

moesol eraill mewn perthynas â'r gofynion yma. Rydw i o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydw i wedi'i gasglu yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

**Casgliadau sy'n ymwneud â materion parhaus**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydw i wedi dod i'r casgliad ei bod hi'n briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr ydw i wedi'i gyflawni, nid ydw i wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor a'r Grŵp i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifo am gyfnod o o leiaf deuddeg mis o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad yma.

**Gwybodaeth Arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwiliwr ar sail hynny. Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiadau blynyddol. Dydy fy marn ar y datganiadau ariannol ddim yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodwyd yn glir fel arall yn fy adroddiad, dydw i ddim yn mynegi unrhyw gasgliad o sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf i'n nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall yma, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, y seiliedig ar y gwaith a gyflawnais i'n rhan o'm harchwiliad:

- Mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei gyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19;

- Mae'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y datganiadau eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau yma.

**Materion rydw i'n adrodd arnyn nhw drwy eithriad**

Yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Cyngor a'r Grŵp a'i amgylchedd, a gefais wrth gynnal yr archwiliad, nid ydw i wedi nodi unrhyw gamasesiadau yn yr Adroddiad Naratif nag yn yr Adroddiad Llywodraethu Blynyddol.

Does gen i ddim byd i adrodd arno ynglŷn â'r materion canlynol, y byddaf yn eu hadrodd i chi os ydw i o'r farn:

- fy mod i ddim wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arna i ar gyfer cynnal yr archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na chafodd ymweliad gan fy ngharfan; neu
- bod y datganiadau ariannol ddim yn cydfynd â'r cofnodion cyfrifo.

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ar gyfer datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae’r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- paratoi’r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Grŵp Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy’n rhoi darlun cywir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- rheolaethau mewnol y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu eu bod nhw'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; a
- asesu gallu’r Cyngor a’r Grŵp i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu fel sy’n berthnasol, materion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio’r sail busnes gweithredol o gyfrifo oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a’r Grŵp yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldeb yr archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio’r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy nodau yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol ai peidio, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a

gaiff ei gynnal yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wallau a chân nhw eu hystyried yn ddeunydd, os oes modd disgwyl yn rhesymol iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gaiff eu cymryd ar sail y datganiadau ariannol hyn (boed hynny'n unigol neu ar y cyfan).

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydw i'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, Prif Archwilydd Mewnol y Cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor a'r Grŵp sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oedden nhw'n gwybod am unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a ydyn nhw'n gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel carfan archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Cyngor a'r Grŵp yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor a'r Grŵp yn rhan ohonyn nhw, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Cyngor a'r Grŵp.
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod.
- Holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl.
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
- Wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Rydw i hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau a nodwyd perthnasol a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r garfan archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae’r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau’r Cyngor a’r Grŵp, a natur, amseriad a graddau’r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau’n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad yma'n rhan o fy adroddiad archwilydd.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Rydw i’n cyfathrebu â’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu ar gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol rydw i'n nodi yn ystod fy archwiliad.

**Tystysgrif o Gwblhau'r Archwiliad**

Rydw i'n nodi fy mod wedi cynnal archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Grŵp Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
7 Tachwedd 2024

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall,
Caerdydd,
CF10 4BZ

# Rhestr Termau

**Croniad**
Mae croniad yn swm a gaiff ei ddangos yn y cyfrifon sy'n cynrychioli incwm neu wariant sy'n ymwneud â'r cyfnod cyfrifyddu, sydd ddim wedi'i dderbyn neu'i dalu mewn gwirionedd ar ddyddiad y Fantolen.

**Actwari**
Mae actiwari yn unigolyn neu sefydliad sy'n cyfrifo premiymau a rhwymedigaethau o ran yswiriant a rhwymedigaethau pensiwn.

**Dull caffael**
Mae'r dull hwn yn cydnabod, fesul llinell, asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a refeniw'r cwmni sy'n cael ei gyfuno.

**Asiant**
Asiant yw lle mae'r Cyngor yn gweithredu fel cyfryngwr.

**Amorteiddiad**
Taliadau i refeniw am y gostyngiad amcangyfrifedig yng ngwerth ased anniriaethol.

**Pwyllgor Archwilio**
Mae awdit yn archwiliad annibynnol o weithgareddau.

**Cyllideb**
Mae cyllideb (neu amcangyfrif) yn gynllun o incwm a gwariant, yn seiliedig ar ba Dreth Gyngor sydd wedi'i osod. Mae'r gwariant gwirioneddol yn cael ei fonitro wedyn yn erbyn y cynllun yma.

**Gwariant Cyfalaf**
Gwariant cyfalaf yw'r swm a gaiff ei wario ar asedau tymor hir. Mae'r rhain yn asedau a fydd yn cael eu defnyddio am sawl blwyddyn wrth ddarparu gwasanaethau ac maen nhw'n eitemau fel adeiladau, offer a cherbydau.

**Derbyniad Cyfalaf**
Mae derbyniadau cyfalaf yn golygu elw o werthu asedau tymor hir fel tir neu adeiladau.

**Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD)**
Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o fewn y Fargen Ddinesig yn cynnwys 10 awdurdod lleol; Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; a Bro Morgannwg.

**Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)**
Mae CIPFA yn gyfrifol am gyhoeddi canllawiau ariannol i gyrff cyhoeddus.

**Credydwr**
Mae credydwr yn sefydliad/unigolyn sydd ag arian yn ddyledus iddo gan y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer nwyddau/gwasanaethau a gafodd eu derbyn.

**Asedau Cyfredol**
Mae'r rhain yn ymrwymiadau tymor byr y mae disgwyl i'r Cyngor eu defnyddio yn y cyfnod cyfrifo canlynol.

**Cyfrifoldebau ariannol cyfredol**
Mae'r rhain yn ymrwymiadau tymor byr y mae disgwyl i'r Cyngor eu talu yn y cyfnod cyfrifo canlynol.

**Dyledwr**
Mae dyledwr yn sefydliad/unigolyn sydd ag arian yn ddyledus i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer nwyddau/gwasanaethau a gafodd eu derbyn.

**Swyddfa Rheoli Dyledion**
Mae'r Swyddfa Rheoli Dyledion yn Asiantaeth Weithredol gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys rheoli dyledion ac arian ar gyfer Llywodraeth y DU, benthyca i Awdurdodau Lleol a rheoli rhai cronfeydd yn y sector cyhoeddus.

**Cynllun â Buddion wedi'u Diffinio**
Mae Cynllun â Buddion wedi'u Diffinio yn un sy'n seiliedig ar fudd-daliadau ymddeol ar Enillion Ad-werthfawr Cyfartaledd Gyrfa.

**Cynllun Cyfraniad wedi'i Ddiffinio**
Mae cynllun cyfraniad wedi'i ddiffinio yn fath o gynllun ymddeol lle caiff swm cyfraniad blynyddol y cyflogwr ei nodi. Seilir y buddion ar y symiau sydd wedi'u credydu i'r cyfrifon yma (trwy gyfraniadau cyflogwyr ac, os yn berthnasol, cyfraniadau cyflogeion) ynghyd ag unrhyw enillion o ran buddsoddi. Dim ond cyfraniadau cyflogwr i'r cyfrif sy'n cael eu gwarantu, nid er budd y dyfodol.

**Ysgolion Dirprwyedig**
Mae ysgol ddirprwyedig yn ysgol a gaiff ei rheoli'n annibynnol gan ei Gorff Llywodraethol. Mae cronfeydd yr ysgolion yma'n cael eu dal y tu allan i falansau Cronfa'r Cyngor.

**Cost Hanesyddol Dibrisiedig**
Caiff Cost Hanesyddol Dibrisiedig ei nodi trwy gofnodi pris prynu ased a lleihau'r gwerth dros ei fywyd economaidd defnyddiol.

**Cost Amnewid Dibrisiedig**
Mae Cost Amnewid Dibrisiedig yn amcangyfrif o werth y farchnad ar gyfer defnydd presennol ynghyd â chostau amnewid gros cyfredol ac eithrio lwfansau ar gyfer dirywiad.

**Dibrisiant**
Dibrisiant yw'r amcangyfrif o golled mewn gwerth asedau tymor hir diriaethol sydd wedi'u cyflwyno yn y Fantolen.

**Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi**
Cronfeydd wrth gefn yw'r rhain sydd wedi'u neilltuo at bwrpas penodol.

**Hierarchaeth Gwerth Teg**
Lefel 1 - Asedau a rhwymedigaethau ar lefel 1 yw'r rheiny lle mae gwerthoedd teg yn deillio o brisiau a gaiff eu dyfynnu heb eu haddasu mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg.
Lefel 2 - Asedau a rhwymedigaethau ar lefel 2 yw'r rhai lle dydy prisiau marchnad sydd wedi'i dyfynnu ddim ar gael.
Lefel 3 - Asedau a rhwymedigaethau ar lefel 3 yw'r rhai sydd â phrisiadau sy'n deillio o fewnbynnau does dim modd eu gwasanaethu, er enghraifft, rhagdybiaethau ynghylch twf rhent; cyfraddau disgownt, ac ati.

**Blwyddyn Ariannol**
Dyma'r cyfnod cyfrifyddu. Ar gyfer awdurdodau lleol, mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

**Amhariad**
Mae amhariad yn digwydd pan fo gwerth ased Tymor Hir yn disgyn islaw'r gwerth y mae arno ar hyn o bryd yn y Fantolen a'r Gofrestr Asedau.

**Y Safon Gyfrifeg Ryngwladol (IAS)**
Rheoliadau Ariannol i'w dilyn sydd wedi'u pennu gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB).

**Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**
Caiff y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol eu cynhyrchu gan IASB (Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol) gyda'r nod o sicrhau cysondeb o fewn y gwledydd sy'n mabwysiadu'r safonau.

**Rhestrau Eiddo**
Mae rhestrau eiddo yn ddefnyddiau crai a gaiff eu prynu ar gyfer eu defnyddio o ddydd i ddydd. Caiff gwerth yr eitemau yma sydd ddim wedi'u defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol eu dangos fel asedau cyfredol yn y Fantolen.

**Prydlesu**
Mae hwn yn ddull o ariannu gwariant trwy dalu'r perchennog i ddefnyddio eiddo neu offer am nifer o flynyddoedd.

**Daliwr Prydles**
Defnyddiwr neu rentwr yr ased neu'r eiddo ar brydles. Yn achos prydlesi cyfalaf, y daliwr prydles hefyd yw'r 'dyledwr' i'r prydleswr.

**Prydleswr**
Perchennog neu ddeiliad y teitl yr ased neu'r eiddo ar brydles. Y prydleswr hefyd yw'r benthyciwr a'r parti sydd wedi'i ddiogelu rhag prydlesi cyfalaf a phrydlesau gweithredu.

**Rhwymedigaeth**
Rhwymedigaeth i drosglwyddo buddion economaidd o ganlyniad i drafodion neu ddigwyddiadau yn y gorffennol.

**Asedau Tymor Hir**
Mae'r rhain yn asedau sy'n cael eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau (am fwy na blwyddyn fel arfer).

**Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw**
Mae Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw yn dâl yn erbyn adnoddau refeniw sy'n cynrychioli ad-dalu dyled. Mae e'n ddull o dalu am Wariant Cyfalaf a gaiff ei ariannu gan fenthyca.

**Prisiad Cyfwerth Modern**
Mae Prisiad Cyfwerth Modern yn ddull o brisio sy'n cyfrifo cost adeiladu adeiladau a strwythurau cyfatebol modern, a'u dibrisio i gyfrif am oedran a bywyd economaidd yn y dyfodol.

**Ardrethi Annomestig (NDR)**
Ardrethi Annomestig, neu'r Gyfradd Fusnes, yw'r tâl i ddeiliaid eiddo busnes. Pennir Ardrethi Annomestig gan y llywodraeth ganolog ac mae'n ganran o werthoedd ardrethol. Yr un yw'r ganran drwy Gymru gyfan. Mae'r cyfanswm a gaiff ei gasglu wedi'i rannu rhwng awdurdodau unigol yn gymesur â'u poblogaethau oedolion.

**Gwir Werth Adnabyddadwy**
Pris gwerthu ased, yn cael ei ostwng gan gost berthnasol (uniongyrchol) sy'n cael ei werthu.

**Gwerthoedd Teg Anghylchol**
Mae'r rhain yn ymwneud ag asedau sy'n cael eu mesur ar werth teg oherwydd amgylchiadau penodol. Mae'r asedau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau a gaiff eu dal i'w gwerthu yn cael eu gwerthuso am y pris isaf o ran gwerth anghylchol, ac eithrio cost i'w werthu, a'i werth cario.

**Prydlesi Gweithredol**
Mae'r rhain yn brydlesi lle mae risgiau perchnogaeth yr ased yn aros gyda'r perchennog.

**Digwyddiadau yn dilyn Llunio'r Fantolen**
Eitemau sy'n codi ar ôl dyddiad y Fantolen. Mae'r rhain yn eitemau doedd ddim yn bodoli ar yr adeg y cafodd y Fantolen ei llunio, ond y dylid ei datgelu os ydyn nhw'n berthnasol i ddealltwriaeth y cyfrifon.

**Preseptau**
Dyma'r swm a gaiff ei dalu i gorff anstatudol (er enghraifft, cyngor cymuned).

**Prif Endid**
Mae endid yn gweithredu fel Pennaeth pan fo ganddo reolaeth dros y nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

**Addasiad y Flwyddyn Flaenorol**
Addasiadau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol yn deillio o newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu neu o gywiro gwallau perthnasol.

**Dull Uned Rhagamcanol**
Dull actiwaraidd o gyfrifo rhwymedigaethau cynllun pensiwn sy'n caniatáu ar gyfer cynnydd sy'n cael ei ragweld yn y dyfodol mewn tâl pensiynadwy hyd at ymddeoliad neu ddyddiad gadael y gwasanaeth.

**Darpariaeth**
Mae darpariaeth yn rhwymedigaeth i drosglwyddo buddion economaidd o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth, ond does dim modd penderfynu ar y swm neu'r amseriad yn gywir eto.

**Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus**
Mae cyfleuster benthyca'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn cael ei weithredu gan Swyddfa Rheoli Dyled y DU (DMO) ar ran Trysorlys EF. Mae'r cyfleuster yn darparu benthyciadau i awdurdodau lleol.

**Gwerth Teg Cylchol**
Mae'r rhain yn ymwneud ag asedau a gaiff eu mesur ar ddiwedd pob cyfnod cyfrifo, o fewn rhaglen dreigl y prisiadau.

**Partïon Cysylltiedig**
Mae parti cysylltiedig yn bodoli lle mae un parti yn rheoli neu'n dylanwadu ar un arall.

**Llyfr Coch Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)**
Mae RICS yn gorff proffesiynol sy'n gorfodi'r safonau uchaf mewn prisiadau. Mae'r “Llyfr Coch” yn cynnwys rheolau gorfodol a chanllawiau arfer gorau ar y prisiadau yma.

**Hierarchaeth Aneddiadau**
Ffordd o drefnu aneddiadau mewn rhanbarth yn nhrefn restrol yn ôl maint, poblogaeth neu fath ac ystod y gwasanaethau a gynigir.

**Benthyciadau Meddal**
Benthyciad meddal yw benthyciad ar gyfradd llog islaw cyfradd y farchnad.

**Cydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru**
Corff corfforaethol rhanbarthol yw’r Cydbwyllgor Corfforedig yma. Mae ganddo bwerau a dyletswyddau gweddol debyg i awdurdodau lleol ond mae ganddo lefel o ddisgresiwn ar drefniadau cyfansoddiadol a gweithredol.

**Straen ar Gronfeydd**
Pan fydd gweithiwr yn ymddeol yn gynnar ac y caiff pensiwn ei dalu ar unwaith, heb ostyngiad actiwaraidd, caiff at yr incwm cyfraniad a gollwyd a'r gost llog sy'n deillio o'r llif

arian cynyddol cysylltiedig blaenorol ei gyfeirio ato fel cost straen pensiwn. Caiff y gost straen pensiwn ei phennu trwy gyfrifiad actiwaraidd.

**Is-brydles**
Mae is-brydles yn brydles rhwng tenant sydd eisoes yn dal prydles i le neu eiddo masnachol a rhywun (yr is-ddaliwr prydles) sy'n dymuno defnyddio rhan o ofod y tenant, neu ei holl ofod. Ystyrir bod y tenant yn ddaliwr is-brydles.

**Cronfa Ymddiriedolaeth**
Mae Cronfa Ymddiriedolaeth yn dal arian ar ran unigolyn neu sefydliad. Mae ymddiriedolwyr yn gweinyddu'r arian ar gyfer y perchnogion.

**Ysgolion Gwirfoddol sy'n cael eu Cynnal**
Yn bennaf, mae ysgolion sy'n cael eu cynnal yn ysgolion crefyddol neu ysgolion ffydd, er bod hawl i unrhyw un wneud cais am le. Mae'r corff llywodraethu yn cyflogi'r staff ac yn gosod meini prawf o ran derbyn disgyblion. Fel arfer mae sefydliad elusennol yn gyfrifol am dir ac adeiladau'r ysgol, sefydliad crefyddol fel arfer, ac mae'r corff llywodraethol yn cyfrannu at gostau'r adeilad a chostau chynnal a chadw.

**Ysgol Wirfoddol sy'n cael eu Rheoli**
Mae ysgolion gwirfoddol sy'n cael eu rheoli yn debyg i ysgolion gwirfoddol sy'n cael eu cynnal, ond maen nhw'n yn cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol yn cyflogi staff yr ysgol ac yn gosod y meini prawf o ran derbyn disgyblion. Fel arfer mae sefydliad elusennol yn gyfrifol am dir ac adeiladau'r ysgol, sefydliad crefyddol fel arfer, ac mae'r sefydliad hwnnw hefyd yn penodi rhai aelodau o'r corff llywodraethu.

**Llywodraeth Cymru (LlC)**
Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a’r Dirprwy Weinidogion. Fe'i cefnogir gan Wasanaeth Sifil sy'n gweithio ar draws meysydd datganoledig o fywyd cyhoeddus, megis iechyd, addysg a'r amgylchedd.